Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# AROLWG O AELWYDYDD FFERM YNG NGHYMRU

Gorffennaf 2010

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Tabl y Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cynnwys | | i |
| Crynodeb Gweithredol | | ii |
| ADRAN 1 | RHAGYMADRODD | 1 |
| ADRAN 2 | Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD | 4 |
| ADRAN 3 | DULLIAU | 16 |
| ADRAN 4 | Y DULLIAU DADANSODDI | 21 |
| ADRAN 5 | DADANSODDIAD O AMLDER | 24 |
| ADRAN 6 | DADANSODDIAD ANSODDOL | 52 |
| ADRAN 7 | DADANSODDIAD TYPOLEGOL | 65 |
| ADRAN 8 | DADANSODDIAD INTEGREDIG: GWYTNWCH A BREGUSRWYDD | 75 |
| ADRAN 9 | CRYNODEB A CHASGLIADAU | 87 |
| Atodiad 1 | | 98 |
| Atodiad 2 | | 115 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn darparu trosolwg o ganlyniadau arolwg a wnaed gan Arsyllfa Wledig Cymru [AWC] yn ystod Chwefror 2010 o aelwydydd fferm yng Nghymru.

**Yr Ymchwil**
Gan dîm ym Mhrifysgol Cymru ar gyfer Arsyllfa Wledig Cymru (AWC)

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Yr oedd gan 41% ohonynt ffynonellau incwm heblaw'r fferm

Yr oedd trosiant blynyddol 38% yn llai na £25,000

Credai 14% mai'r Taliad Sengl oedd prif ffynhonnell eu hincwm ar hyn o bryd

Credai 23% mai'r Taliad Sengl fyddai prif ffynhonnell eu hincwm yn y dyfodol

Nid oedd 90% yn cyflogi neb nad oedd yn aelod o'r teulu

Yr oedd 50% wedi arallgyfeirio mewn rhyw ffordd

Yr oedd 30% yn debygol o ymgymryd â rhagor o weithgareddau arallgyfeirio dros y pum mlynedd nesaf

*Rhedai 10% ryw ffurf ar fusnes organig*

Yn gyffredinol, yr oedd 42% yn 'debygol iawn' neu'n 'debygol' o ymrestru yng nghynllun Glastir – yn gyffredinol, ni wyddai 16% am gynllun Glastir

Pe câi'r Taliad Sengl ei ostwng, yr oedd 27% yn 'debygol iawn' neu'n 'debygol' o adael ffermio

Yr oedd 74% o'r ffermydd unigol yn eiddo i deulu

Pe câi taliadau cymhorthdal y CAP eu gostwng ar ôl 2013, byddai 68% o'r aelwydydd fferm yn 'fregus'

Petai gwasgfa cost/pris yn parhau dros y pum mlynedd nesaf, byddai 75% o'r aelwydydd fferm yn 'fregus'

Yr oedd aelwydydd fferm â lefelau o arallgyfeirio a oedd uwchlaw'r cyfartaledd yn fwy 'gwydn'

Yr oedd aelwydydd fferm â lefelau o amlswyddogaetholdeb a oedd uwchlaw'r cyfartaledd yn fwy 'gwydn'

Yr oedd aelwydydd fferm â lefelau o entrepreneuriaeth a oedd uwchlaw'r cyfartaledd yn fwy 'gwydn'

## Y CEFNDIR

Bernir bod bwlch yn y dystiolaeth ynghylch ffermio yng Nghymru. Heblaw am yr Arolwg o Fusnesau Fferm [yr FBS] a Farmers Voice – nad yw'r naill na'r llall ohonynt yn canolbwyntio'n llwyr ar Gymru – nid oes fawr o dystiolaeth am gyflwr gweithgareddau busnes ffermydd Cymru.

I lenwi'r bwlch hwnnw yn y dystiolaeth, aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati i gomisiynu Arsyllfa Wledig Cymru [AWC] i wneud arolwg o aelwydydd fferm yng Nghymru. Bu i'r arolwg loffa gwybodaeth a darparu data cynhwysfawr am arferion ffermio ac agweddau ffermwyr ynghylch amrywiaeth o faterion amserol. Yn ogystal, mae'r arolwg yn darparu cronfa ddata ynghylch ffermio yng Nghymru ac mae honno'n cysylltu â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau gan AWC a'r gwaith sydd ganddi ar y gweill, ac yn darparu tystiolaeth sy'n fodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith ei pholisïau a bwydo hynny i'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig.

## METHODOLEG

Nodau'r prosiect, fel y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y Cynulliad, oedd:

1) Nodi llifoedd incwm aelwydydd drwy asesu cyfanswm incwm aelwydydd fferm o weithgareddau ffermio a gweithgareddau heblaw ffermio;
2) Amlygu hyd a lled yr arallgyfeirio a'r aml-swyddi;
3) Amlinellu'r ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP, ac ymchwilio i agweddau ymddygiadol;
4) Sefydlu gwytnwch a bregusrwydd aelwydydd o ran diwygio'r CAP;
5) Darparu tystiolaeth sy'n fodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith ei pholisïau a bwydo hynny i'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Penderfynwyd y byddai cael contractwr i wneud arolwg dros y ffôn yn fwy cost-effeithiol ac yn sicrach o gael y nifer o ymatebion a ddymunid – y sampl darged oedd mil o aelwydydd fferm. Gofynnwyd i dri chontractwr ddarparu dyfynbrisiau a rhoddwyd y contract i Opinion Research Services [ORS].

Lluniwyd y sampl darged o fil o aelwydydd fferm ar sail sampl o 10,000 a ryddhawyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Gan ddefnyddio grwpiau maint economaidd safonol yr UE, fe haenwyd y sampl yn ôl maint y fferm.

Ar gyfer y cyfweliadau dros-y-ffôn, lluniwyd holiadur a gymerai 20 munud i'w lenwi. Ei ddiben oedd sicrhau data meintiol am amrywiaeth o faterion a oedd yn ymwneud â ffermio ac â'r aelwyd fferm. Yn ogystal, gofynnwyd dau gwestiwn ansoddol penagored:

*Pe bai newidiadau mewn polisïau amaethyddol ar ôl 2013 yn arwain at ostyngiad mewn taliadau i ffermwyr, neu'n gofyn am newidiadau i arferion ffermio, er enghraifft, cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol, beth fyddech chi'n ei wneud?*

*Pe bai costau mewnbwn yn parhau i godi, ochr yn ochr â gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm, beth fyddwch chi'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf?*

Cofnododd y cyfwelwyr yr ymatebion i'r cwestiynau hynny air am air.

Gwnaeth ORS yr arolwg dros-y-ffôn rhwng 29ain Ionawr 2010 a 3ydd Mawrth 2010. Pwynt pwysig yw i'r cyfwelwyr ofyn am gael siarad â'r sawl a wnâi'r penderfyniadau busnes yn yr aelwyd fferm. Cwblhawyd 1,009 o gyfweliadau dros y ffôn. Cyfradd gyffredinol yr ymateb oedd 12.64%.

## Y DULLIAU DADANSODDI

Yn yr adroddiad ceir pedair adran o ddadansoddi. Yn Adran 5, sy'n rhoi sylw i Nod 1 a Nod 2 y prosiect, ceir ystadegau disgrifiadol o ddata'r

holiadur. Caiff y rheiny eu croestablu â newidynnau allweddol megis y math o fferm a maint y fferm. Yn Adran 6, sy'n rhoi sylw i Nod 3, ceir y dadansoddiad ansoddol o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn penagored. Yn Adran 7, sy'n rhoi sylw i Nod 4, ceir dadansoddiad typolegol sy'n defnyddio tri mynegai, sef:

*Arallgyfeirio* – datblygu gweithgareddau anamaethyddol ar y fferm i helpu i gynnal daliad y fferm.

*Amlswyddogaetholdeb* - i ba raddau y mae ffermydd yn cyfrannu, y tu hwnt i'w prif swyddogaeth o gynhyrchu bwyd a ffibr, i fanteision amgylcheddol.

*Entrepreneuriaeth* – gallu, sgiliau a meddylfryd ffermwyr o ran cynnull adnoddau a datblygiadau arloesol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fentro i farchnadoedd gwahanol.

## CANFYDDIADAU

Caiff y canfyddiadau eu grwpio o dan bob un o Nodau'r Prosiect. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r dadansoddiadau ansoddol, typolegol ac integredig yn rhoi sylw i Nod 3 a Nod 4. Yna, cyfunir y canfyddiadau ar gyfer y nodau hynny o dan un pennawd.

### Nod 1 y Prosiect: Llifoedd Incwm Aelwydydd

O ran ffynonellau eu hincwm, credai 50% o'r aelwydydd fferm mai'r farchnad oedd eu prif ffynhonnell o incwm. Bernid bod y Taliad Sengl yn darparu'r gyfran fwyaf o incwm yr aelwyd yn achos 14% o'r sampl. Fe all fod problem o ganfyddiad yma. Mae'r data o FBS 2009 yn dibynnu lefelau llawer uwch o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl. Efallai i rai o'r cyfweleion dueddu i dderbyn y Taliad Sengl yn ffaith y gellid ei hanwybyddu fel cydran o gyfanswm incwm yr aelwyd. At hynny, pan ofynnwyd beth y byddent yn ei wneud pe gostyngid y Taliad Sengl, yr oedd 27% ohonynt yn debygol neu'n debygol iawn o adael ffermio.

Credai 15% o'r sampl mai cyflogaeth oddi ar y fferm oedd prif ffynhonnell eu hincwm, a châi 41% incwm o ffynonellau nad oeddent yn gysylltiedig â'r fferm na byd amaeth. Credai 2% mai taliadau o gynlluniau amaeth-amgylcheddol oedd prif ffynhonnell eu hincwm, a chredai 7% mai prif ffynhonnell eu hincwm oedd arallgyfeirio.

### Nod 2 y Prosiect: Hyd a lled yr arallgyfeirio a'r aml-swyddi

Ar y cyfan, yr oedd 50% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd yn gweithredu rhyw ffurf ar weithgarwch arallgyfeirio. Er i 30% ddweud eu bod yn debygol neu'n debygol iawn o ehangu eu harallgyfeirio dros y pum mlynedd nesaf, bu iddynt enwi amryw o rwystrau posibl i'w cynlluniau i arallgyfeirio. Yn eu plith yr oedd darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth annigonol; enillion ariannol isel; problemau o ran gallu personél y fferm a'u hyfforddi; deddfwriaeth a rheoliadau; a chaniatâd cynllunio.

Yr oedd cyfanswm o 10% o'r holl aelwydydd fferm yn cynhyrchu cnydau organig neu dda byw organig neu'r naill a'r llall i ryw raddau.

### Nod 3 y Prosiect a Nod 4 y Prosiect:

### Ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP ac agweddau ymddygiadol

### Gwytnwch a Bregusrwydd o ran diwygio'r CAP

Yn ôl y dadansoddiad ansoddol, y sefyllfa ar ôl 2013, petai newidiadau mewn polisi yn esgor ar daliadau is i ffermwyr neu'n mynnu newidiadau mewn arferion ffermio, yw y byddai 28% yn cario ymlaen â'r busnes fel arfer; na fyddai 22% yn gwybod beth i'w wneud; y byddai 10% yn gwerthu'r fferm ac yn gadael ffermio; ac y byddai'r gweddill, sef 40%, yn mynd ar drywydd amrywiol strategaethau, sef arallgyfeirio, cwtogi ar gostau, ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol, sefydlu busnesau eraill ac ymddeol.

Canfyddiad rhai o'r cyfweleion oedd bod lle ffermwyr yn ansicr mewn byd cyfnewidiol, yn enwedig o ran gofynion croes cynhyrchu bwyd a diogelu'r amgylchedd. Er i rai ddadlau y byddai gorfodaeth arnynt i adael ffermio, teimlai llawer o'r cyfweleion eu bod ynghlwm wrth eu tir oherwydd eu geni yno, eu cysylltiadau â'r lle a'r diwylliant, a'u hawydd i drosglwyddo'r fferm i genedlaethau olynol. Ond credai llawer ohonynt na fyddai hynny'n bosibl.

Mae canfyddiadau'r dadansoddiad typolegol yn dangos mai ffermydd llaeth, o blith y tri phrif fath o fferm, oedd y rhai lleiaf tebygol o arallgyfeirio, bod ffermydd defaid ychydig bach yn llai tebygol o arallgyfeirio, ac mai'r ffermydd cig eidion a gofnododd y sgorau uchaf am arallgyfeirio.

Yr oedd y sgorau ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb wedi'u cydblethu â mynediad i'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Yma, yr oedd 84% o sampl yr arolwg yn ymwybodol o gynllun Glastir, y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, ac yr oedd 50% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o gynllun Glastir yn debygol o ymuno â'r cynllun (42% yn gyffredinol). Ond er bod 60% o'r cyfweleion (wedi bod) mewn cynllun amaeth-amgylcheddol, enwyd rhai rhwystrau rhag ymuno. Yn eu plith, yr oedd rheoliadau a biwrocratiaeth; gwrthdaro â busnes creiddiol y fferm; y costau gweinyddu; yr enillion ariannol isel; a chyngor a chymorth annigonol. O'r tri phrif fath o fferm, ffermydd defaid a gofnododd y sgorau uchaf o ran amlswyddogaetholdeb, sef 67% uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai. Ffermydd cig eidion a gofnododd y canlyniadau ail uchaf, sef 59% uwchlaw'r cyfartaledd.

Y rhai a wnaeth orau ar y mynegai o entrepreneuriaeth oedd y mathau cymysg o ffermydd, sef 67% uwchlaw'r cyfartaledd, a ffermydd llaeth, sef 65%. Efallai y gwelir bod i ffermydd llaeth safle arbennig fel 'entrepreneuriaid arbenigol'. Hynny yw, maent wedi'u cloi i mewn i farchnadoedd penodol, a bydd ffermwyr llaeth entrepreneuraidd yn chwilio am ffyrdd i gynyddu hyd yr eithaf yr enillion economaidd o'r marchnadoedd hynny. Amlygodd y mynegai o entrepreneuriaeth raddiant pendant o'r ffermydd mawr â sgorau entrepreneuraidd uchel i lawr i ffermydd bach â sgorau isel. Yr oedd problemau ynghylch parodrwydd rhai aelwydydd fferm ledled Cymru i fod yn entrepreneuraidd. Er enghraifft, mewn ymateb i gwestiwn uniongyrchol am eu bwriadau, cyfrannau bach yn unig o sampl yr arolwg a fyddai'n newid eu harferion busnes neu'n cychwyn mentrau newydd. Yn ogystal, 19% yn unig ohonynt oedd â chynllun busnes.

Yn gyffredinol, yr oedd 68% o'r aelwydydd fferm yn fregus o ran y posibilrwydd o ddiwygio'r CAP a 75% yn fregus i wasgfa cost/pris barhaus dros y pum mlynedd nesaf.

### Nod 5 y Prosiect: Tystiolaeth sy'n fodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith ei pholisïau a bwydo hynny i'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig

Ar sail y dadansoddiad, gwelwyd bod tri chlwstwr gorgyffyrddol - nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd - o aelwydydd fferm yng Nghymru. Er i aelodau o bob un o'r tri chlwstwr gydnabod y tensiynau a'r croestynnu rhwng cynhyrchu bwyd, diogelu a sicrhau cadwraeth yr amgylchedd, a datblygu cefn gwlad, mae rhai mewn gwell sefyllfa na'i gilydd i ddatrys y tensiynau a'r croestyniadau hynny.

Yn gyntaf, ceir clwstwr sy'n tueddu i'w chael hi'n anodd ymaddasu i newidiadau mewn polisïau ac i'r pwyslais trymach ar yr amgylchedd a datblygu cefn gwlad. Petai gostyngiad yn y taliadau, cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol neu ddirywiad yn amodau'r farchnad, mae'n ddigon posibl y bydd aelodau o'r clwstwr hwn yn ymddeol yn gynnar neu'n gadael ffermio drwy werthu'r fferm neu fynd yn fethdalwyr. Er enghraifft, dywedodd 14% y byddent yn gadael ffermio pe gostyngid taliadau

cymhorthdal neu petai gofyn iddynt gynyddu eu cyfrifoldebau amgylcheddol; ac awgrymodd 27% y byddent yn ymddeol, yn gwerthu'r fferm neu'n mynd yn fethdalwyr petai gwasgfa cost/pris barhaus.

Yn ail, ceir clwstwr o'r rhai sy'n ddibynnol ar bolisïau, sef yr aelwydydd fferm sy'n dibynnu ar y Taliad Sengl; sy'n dibynnu ar gynhyrchu cynnyrch amaethyddol; ac sydd heb fod yn agored i newid. Er i 50%, yn gyffredinol, gredu mai'r farchnad oedd prif ffynhonnell eu hincwm, barnai 14% mai'r Taliad Sengl oedd prif ffynhonnell eu hincwm. Fel y soniwyd yn gynharach, gall fod problem o ran canfyddiad yma gan fod data'r FBS yn awgrymu lefelau uwch o lawer o ddibynnu ar y Taliad Sengl. Yn wir, byddai 27% yn debygol neu'n debygol iawn o adael y diwydiant ffermio pe gostyngid y Taliad Sengl. Wrth edrych ymlaen, daliai'r mwyafrif i ddibynnu ar y farchnad am incwm yr aelwyd yn y dyfodol ond cynyddodd lefel dibyniaeth eu hincwm ar y Taliad Sengl i 23%. Fe geir, felly, glwstwr o aelwydydd fferm sy'n orddibynnol ar y Taliad Sengl. Y duedd fydd i aelodau o'r clwstwr hwnnw fod yn fregus yn wyneb diwygio'r CAP a newidiadau mewn polisi ac amodau'r farchnad.

Yn y trydydd clwstwr, y clwstwr rhagweithiol, ceir aelwydydd fferm sydd wedi arallgyfeirio; sydd â sawl llif incwm; sy'n agored i fentrau newydd a chyfleoedd entrepreneuraidd; ac sy'n cofleidio cyfrifoldeb amgylcheddol a gofynion y paradeim sy'n dod i'r amlwg ynghylch datblygu cefn gwlad. Er enghraifft, yr oedd gan 41% o sampl yr arolwg ffynonellau o incwm heblaw'r fferm; yr oedd 50% yn ymwneud â rhyw fath o weithgarwch arallgyfeirio; yr oedd 43% uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o arallgyfeirio; ac yr oedd 53% uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o entrepreneuriaeth.

I gloi, gallwn ni ddechrau gweld sut mae gan weithgareddau arallgyfeirio, amlswyddogaethol ac entrepreneuraidd aelwydydd fferm y potensial i yrru'r paradeim newydd sy'n codi ynghylch datblygu cefn gwlad, a'r potensial i fod yn sylfaen i eco-economi cefn gwlad Cymru.

Er hynny, rhaid cydnabod bod llawer, ond nid pob un, o'r gweithgareddau hynny'n dal i ddibynnu i amrywiol raddau ar y taliadau sy'n gysylltiedig â chynlluniau amaeth-amgylcheddol ac amrywiaeth o grantiau a mentrau polisi eraill.

## 1.1 Amlinelliad o'r prosiect

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag arolwg o aelwydydd fferm yng Nghymru. Comisiynwyd yr arolwg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac fe'i cynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru [AWC] rhwng 29ain Ionawr 2010 a 3ydd Mawrth 2010. Nodau'r prosiect, yn fyr, oedd canfod llifoedd incwm aelwydydd fferm; asesu hyd a lled yr arallgyfeirio a'r aml-swyddi; asesu gwytnwch aelwydydd mewn perthynas â diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin [CAP]; ymchwilio i'r ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP; ac ymchwilio i agweddau ymddygiadol. Ar lefel ehangach, mae'r prosiect yn darparu tystiolaeth sy'n fodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith ei pholisïau a bwydo hynny i'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig [yr RDP]. Rhagwelir y ceir data hydredol os ailwneir yr arolwg bob tair blynedd. Rhestrir nodau'r prosiect yn ffurfiol yn Adran 3 - 'Dulliau'r Ymchwil'.

Bydd yr arolwg hwn gan AWC yn ychwanegu gwerth at yr ymchwil flaenorol a chyfredol arall mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, bydd yn llenwi bwlch yn y dystiolaeth drwy hoelio sylw yn benodol ar ffermydd yng Nghymru i loffa gwybodaeth a darparu data cynhwysfawr am arferion ffermio ac agweddau ffermwyr at amrywiaeth o faterion amserol. Heblaw am yr Arolwg o Fusnesau Fferm [yr FBS] a Farmers Voice - nad yw'r naill na'r llall ohonynt yn canolbwyntio'n llwyr ar Gymru - nid oes fawr o dystiolaeth am gyflwr gweithgareddau busnes ffermydd Cymru. Yn ail, bydd yr arolwg yn darparu cronfa ddata ar gyfer sector nad ymchwiliwyd iddo hyd yn hyn, a bydd hynny'n cysylltu â gwaith sydd wedi'i gwblhau gan AWC a gwaith sydd ganddi ar y gweill.

## 1.2 Perthnasoedd â gwaith arall AWC

### *1.2.1 Yr Eco-economi*

Bydd yr arolwg yn ffynhonnell o ddata ar gyfer gwaith AWC ar yr eco-economi yn y dyfodol. Yn ei hanfod, yr oedd 'Asesu'r Eco-economi' (AWC, 2006[1]) yn ymarfer cwmpasu ar gyfer gwneud gwaith dyfnach gan AWC i'r eco-economi yn y dyfodol. Nid ffermydd oedd pwnc yr astudiaethau achos: entrepreneuriaid oedd pwnc tair ohonynt (tyfai un ohonynt afalau a gwerthu un math o sudd afal, a dyna'r astudiaeth achos agosaf at ffermio); dwy'n rhai 'sefydliadol' (FC ac NT); ac un yn fenter gymunedol. Bydd yr arolwg hwn yn canfod cysylltiadau (posibl) rhwng ffermio a'r eco-economi drwy nodi arferion ffermio ac ymchwilio i agweddau ffermwyr at faterion fel ecoleg, yr amgylchedd, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, cnydau ynni, cynhyrchion organig, diwygio'r CAP, coedlannau a'r newid yn yr hinsawdd.

### *1.2.2 Arolwg o fusnesau*

Penderfyniad bwriadol oedd peidio â chynnwys ffermwyr yn arolygon Busnesau Gwledig AWC ym 2004 a 2007. Bydd yr arolwg hwn o ffermwyr yn ffynhonnell o ddata i waith AWC ar fusnesau fferm a busnesau oddi ar ffermydd. Fe fydd, er enghraifft, yn canfod newidiadau mewn arferion ffermio dros amser a'r rhesymau dros y newidiadau hynny; yn meintioli defnydd ffermwyr o TG/y Rhyngrwyd/y Band Eang at ddibenion busnes; ac yn astudio agweddau ffermwyr at faterion

---

[1] Arsyllfa Wledig Cymru (2006) Asesu Eco-economi'r Gymru Wledig. Prifysgol Caerdydd: Yr Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Arsyllfa Wledig Cymru

fel arloesi, mentro, arallgyfeirio, a synergeddau â sectorau eraill.

### *1.2.3 Datblygu Cefn Gwlad*

Bydd yr arolwg yn ffynhonnell data i waith AWC yn y dyfodol mewn cysylltiad â Chynllun Datblygu Gwledig Cymru a diwygio'r CAP.

## 1.3 Arolygon eraill o ffermydd

Arolwg blynyddol a wneir yng Nghymru a Lloegr gan gonsortiwm o brifysgolion ar gyfer Defra yw'r Arolwg o Fusnesau Fferm [yr FBS]. Prifysgol Aberystwyth sy'n cynnal elfen Cymru yr FBS. Arolwg hydredol yw hwnnw, a bydd rhai ffermwyr yn aros ynddo am 15 mlynedd. Mae'n cynnwys data ariannol a ffisegol o sampl gynrychioliadol o 550 o ffermydd yng Nghymru. Yn fras, bydd yn casglu gwybodaeth am gyfrifon rheoli: refeniw, costau a throsiant; asedau ac atebolrwyddau defnydd tir; arwynebeddau a gwerthiant cnydau; gwerthu a phrynu da byw; a faint o lafur a ddefnyddir.

Y prif arolwg arall o ffermydd sy'n cynnwys Cymru yw Farmers Voice, arolwg a wneir gan ADAS. Yma eto, arolwg o ffermwyr yng Nghymru a Lloegr yw Farmers Voice. Mae'r arolwg hwnnw wedi'i gynnal ym 1999, 2000, 2002, 2004, 2005, 2006 a 2007. Hyd yn hyn, mae pob blwyddyn wedi canolbwyntio ar un mater. Y pwnc ar gyfer 2004, er enghraifft, oedd Ffermio Organig a chafwyd 1,771 o ymatebion i'r 13,000 o holiaduron a bostiwyd (cyfradd o 14%). Yn 2005, 2006 a 2007 y canolbwynt oedd 'Bwriadau ffermwyr yng nghyd-destun diwygio'r CAP'. Cafodd arolwg Farmers Voice yn 2006 2,100 o ymatebion o'r 12,000 o holiaduron a bostiwyd (cyfradd o 18%). Tebyg oedd y gyfradd ymateb (17%) i'r 12,000 o holiaduron a bostiwyd yn 2007.

Mae arolygon sy'n canolbwyntio ar ffermydd yng Nghymru, fel y rhai a wnaed yn y 1990au ynghylch arallgyfeirio, a'r gyfres gyfredol o arolygon blynyddol o gynhyrchwyr organig Cymru a wneir gan Brifysgol Aberystwyth, yn ymdrin â materion unigol a thueddant i beidio â bod yn gynhwysfawr. Yn yr un modd, canolbwynt Tir Gofal a Thir Cynnal, wrth reswm, yw iechyd y cynlluniau hynny.

Arolwg o ffermydd yn Lloegr yn unig yw Arolwg Defra o Arferion Ffermio. Mae'r dadansoddiad ystadegol hwnnw'n tynnu ar Gyfrifiad Amaethyddol Defra ym mis Mehefin ac yn darparu data technegol megis manylion storio slyri a chludo anifeiliaid.

Yn ddiweddar, bu i Defra hefyd gomisiynu arolwg o'r enw 'Research to Understand and Model the Behaviour and Motivations of Farmers in Responding to Policy Changes (England)' (Garforth a Rehman, 2006). Prifysgol Reading wnaeth yr ymchwil a'r nod oedd astudio ac asesu'r posibilrwydd o gynnwys data ar argymhellion ffermwyr a'r dylanwad ar eu hymddygiad ym modelau Defra o ddadansoddi polisi. Sefydlodd yr ymchwilwyr yn Reading dypolegau ymddygiadol ar sail setiau data a fodolai eisoes, a modelu ymatebion y ffermwyr i'r Taliad Sengl. Dyma, yn fyr, y canfyddiadau allweddol sydd o ddiddordeb i'r prosiect hwn:

- mae ffactorau fel yr amgylchedd, y teulu a'r ffordd o fyw yr un mor bwysig â ffactorau economaidd
- bydd ffermwyr gwahanol yn ymateb mewn ffyrdd gwahanol i fentrau polisi newydd
- mae'r ansicrwydd a grëir gan bolisi newydd yn ei gwneud hi'n anodd i ffermwyr gynllunio ar gyfer ymaddasu i newid mewn polisïau

Yr oedd y canfyddiadau eraill yn ymwneud â chynnydd a hefyd ymchwil yn y dyfodol ym maes modelu'r economi amaethyddol.

## 1.4 Strwythur yr adroddiad

Ar ôl Rhagymadrodd yr adroddiad hwn, ceir wyth adran arall. Yn Adran 2 adolygir amlinelliad o sefyllfa byd amaeth yng Nghymru ar hyn o bryd o ran nifer y daliadau fferm yng Nghymru; y tueddiadau o ran arallgyfeirio; cydrannau incwm aelwydydd fferm; y rhagolygon a'r tueddiadau yn y llenyddiaeth ar bolisi; a'r llenyddiaeth academaidd. Yn Adran 3 cyflwynir seiliau rhesymegol gwneud y prosiect, a'i nodau a'i amcanion, a disgrifir dulliau'r arolwg. Yn Adran 4 sonnir am y dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi data'r arolwg. Yna ceir pedair adran o ddadansoddi. Yn Adran 5 fe eir drwy bob cwestiwn yn yr arolwg a darperir dadansoddiadau o amlder, croestabliadau a sylwebaethau. Yn Adran 6 ceir dadansoddiad ansoddol sy'n tynnu ar yr ymatebion i gwestiynau penagored a holodd am ymatebion posibl i sefyllfaoedd aelwydydd fferm. Yn Adran 7 ceir dadansoddiad typolegol sy'n defnyddio mynegeion o Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb (*Multifunctionality*)[2] ac Entrepreneuriaeth – mynegeion a luniwyd ar sail data'r arolwg – i roi sylw i faterion incwm a'r ddibyniaeth ar bolisïau. Mae hynny'n arwain at y dadansoddiad integredig yn Adran 8 lle nodir y canrannau o aelwydydd fferm bregus a gwydn. Ar ddiwedd pob un o Adrannau 5, 6, 7 ac 8 cyflwynir y canfyddiadau allweddol ar ffurf pwyntiau bwled. Os yw'n briodol, caiff y canfyddiadau allweddol eu grwpio o dan Nodau'r Prosiect. Yna, yn Adran 9, tynnir ynghyd yr adrannau blaenorol o'r adroddiad i drafod y canfyddiadau; i roi sylw i nodau'r prosiect; ac i gyflwyno sylwadau cloi.

---

[2] Defnyddiwyd y term 'multifunctional' gyntaf ym 1993 gan Ddeddf Amaethyddiaeth Cyngor Ewrop. Ym 1996, mynegodd Datganiad Cork ymrwymiad y CE i Amlswyddogaetholdeb. Yn ei hanfod, mae amlswyddogaetholdeb yn rhoi diffiniad gwledig i amaethyddiaeth gynaladwy.

## 2.1 Rhagymadrodd

Cyn dechrau sôn am ddulliau a dadansoddiadau'r arolwg, cam buddiol yw adolygu sefyllfa byd amaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Y materion a adolygir yma yw'r niferoedd a'r mathau o aelwydydd fferm yng Nghymru; y tueddiadau o ran arallgyfeirio; cydrannau incwm aelwydydd fferm; y rhagolygon a'r tueddiadau yn y llenyddiaeth ar bolisi; a'r llenyddiaeth academaidd sy'n ymwneud ag aelwydydd fferm a datblygu gwledig.

## 2.2 Y niferoedd a'r mathau o aelwydydd fferm yng Nghymru

Fel y dangosir yn Nhabl 2.1, mae nifer y ffermydd llaeth yng Nghymru wedi gostwng dros amser.

Dylid nodi bod 'Cyfanswm y daliadau' wedi cynnwys mân ddaliadau o 2002 ymlaen. O ganlyniad, cynyddodd 'Cyfanswm y daliadau' o'r flwyddyn honno ymlaen.

**Tabl 2.1 Daliadau fferm a llaethdy yng Nghymru, 1990 - 2007**

| Blwyddyn | Cyfanswm y daliadau | Daliadau Llaeth | Daliadau Llaeth a ddefnyddiai'r CTS | % o gyfanswm y daliadau sy'n rhai llaeth | % o gyfanswm y daliadau sy'n rhai llaeth ac yn defnyddio'r CTS |
|---|---|---|---|---|---|
| 1990 | 29646 | 6374 | * | 22% | |
| 1991 | 29710 | 6141 | * | % | |
| 1992 | - | - | * | - | |
| 1993 | 29916 | 5786 | * | 19% | |
| 1994 | 29910 | 5652 | * | 19% | |
| 1995 | 28076 | 5370 | * | 19% | |
| 1996 | 28090 | 5170 | * | 18% | |
| 1997 | 27937 | 4960 | * | 18% | |
| 1998 | 27903 | 4807 | * | 17% | |
| 1999 | 28018 | 4596 | * | 16% | |
| 2000 | 28410 | 4307 | * | 15% | |
| 2001 | 28780 | 4100 | * | 14% | |
| **2002+** | **36473** | **4004** | ***** | **11%** | |
| **2003+** | **35499** | **3766** | ***** | **11%** | |
| **2004+** | **35855** | **3658** | ***** | **10%** | |
| **2005+** | **36968** | **3512** | **4055** | **10%** | **11%** |
| **2006+** | **37448** | **3368** | **3991** | **9%** | **11%** |
| **2007+** | **38215** | **-** | **3835** | **-** | **10%** |

(CTS) Y Cynllun olrhain gwartheg, a gyflwynwyd yn 2005
(+) Mae cyfanswm y daliadau yn cynnwys mân ddaliadau
(-) Heb fod ar gael
(*) Dim data

Er bod newidiadau wedi bod ym meini prawf y mesur (gweler nodiadau Tabl 2.1) mae'r data'n dangos gostyngiad yng nghyfanswm y daliadau, ynghyd â cholli ffermydd llaeth o ran cyfanswm y niferoedd ac fel cyfran o holl ffermydd Cymru.

Mae data arolygu Llywodraeth y Cynulliad yn dangos bod cyfanswm o 38,869 o ddaliadau yng Nghymru yn 2008 a bod ganddynt 1,454,673 o hectarau o dir. Defnyddid y rhan fwyaf o'r arwynebedd hwnnw (57%) yn dir pori mewn Ardal Lai Ffafriol [ALFf]. Daliadau bach neu fach iawn oedd ychydig o dan hanner (46%) y tir a ffermir. Yr oedd 38% o'r cyfanswm o ddaliadau yn rhai cwsg. Daliadau "cwsg" yw'r rhai sy'n bodoli ond nad oes gweithgarwch amaethyddol arnynt. Cynhwysant ffermwyr sy'n dal i fod yn berchen ar dir amaethyddol ond yn rhentu'r cyfan ohono i eraill (y tenant fydd yn rhoi gwybod am y gweithgarwch ar y tir sydd ar rent). Cynhwysant, hefyd, ddaliadau nad oes gwybodaeth amdanynt – megis daliadau newydd o'r flwyddyn flaenorol a fethodd ag ymateb i arolygon. Yr oedd y rheiny'n cyfrif am 14% o gyfanswm arwynebedd tir ffermydd Cymru.

Ar sail y data hynny yr oedd 24,254 o ddaliadau gweithredol yng Nghymru yn 2008. O ran eu maint economaidd, yr oedd 53% ohonynt yn fach iawn; 29% yn fach; 12% yn ganolig; 4% yn fawr; a 2% yn fawr iawn.

Cyfrifir maint economaidd daliad fel swm pwysol pob hectar o gnydau a phob math o dda byw. Mesurir maint ffermydd mewn Unedau Maint Ewropeaidd [ESU], a'r diffiniad o ESU yw 1200 o Unedau Arian Ewropeaidd [ECU] o Elw Crynswth Safonol [SGM].[3] Mae'r Unedau hynny'n darparu mesur o faint economaidd daliadau o ran y gwerth a ychwanegant at amrywiol fewnbynnau ac felly o fesurau ffisegol megis arwynebedd nad ydynt yn cymryd dwysedd y cynhyrchu i ystyriaeth o gwbl.

Dyma grwpiau maint economaidd safonol yr UE:

Bach iawn – Llai nag 8 ESU

Fel rheol, credir bod y ffermydd hyn yn rhy fach i ddarparu gwaith amser-llawn i un person.

Bach – 9-39 ESU

Canolig – 40-100 ESU

Mawr – 101-199 ESU

Mawr iawn – Mwy na 200 ESU

Yn Nhabl 2.2 dangosir y cyfrannau o fathau o ffermydd a gafodd sylw yn arolwg Llywodraeth y Cynulliad yn 2008.

[3] Mesur o faint economaidd busnes fferm yw Unedau Maint Ewropeaidd [ESU] ac fe'u seilir ar yr elw crynswth a dybir ar sail cyfernodau safonol pob nwydd unigol ar y fferm. Bydd cymhwyso'r cyfernodau safonol hynny'n arwain at bennu Elw Safonol Crynswth [SGM] fferm neu grŵp o ffermydd. 1 ESU = 1200 SGM.

Gall yr Elw Gros Crynswth fod yn wahanol i'r union elw ar fferm oherwydd yr amrywiaeth mawr rhwng ffermydd sydd â'r un cyfansoddiad ffisegol. Yn fras, mae un ESU yn cyfateb i 1.3 hectar o rawn neu un fuwch laeth neu 25 o famogiaid, neu gyfuniad cyfatebol ohonynt. (Ffynhonnell: DEFRA)

**Tabl 2.2 – Y Prif Fathau o Ffermydd**


| Y Prif Fathau o Ffermydd | LICC 2008 |
|---|---|
| Llaeth | 9% |
| Pori ALFf | 53% |
| Pori Llawr Gwlad | 11% |
| Dofednod | 3% |
| Grawn | 2% |
| Garddwriaeth | 2% |
| Arall (tyfu cnydau cyffredinol = 1%, moch = <1%, cymysg = 4% a gweithgareddau eraill =16%) | 21% |
| Cyfanswm sy'n Weithredol | 24,254 |

O ran cyfraniadau cymharol i agreg Uned Maint Ewropeaidd [ESU] ffermydd yng Nghymru, y 9% o ddaliadau llaeth a wnaeth y cyfraniad mwyaf (41%) ac yr oedd eu tri-chwarter yn ddaliadau mawr neu fawr iawn. Cyfrannodd ychydig dros draean y ffermydd yn y dosbarth pori ALFf (37%) i agreg yr ESU, er bod dros hanner cyfanswm y daliadau o'r math hwn o fferm. Gan mwyaf, ffermydd bach (44%) neu ganolig (38%) oedd y rhai lle porid tir ALFf. Cyfrannai pob un o'r mathau eraill o fferm gyfrannau llawer llai i agreg yr ESU – llai na 7% bob un.

## 2.3 Tueddiadau o ran arallgyfeirio

Mae data o'r Arolwg o Fusnesau Fferm yn dangos mai tueddu i gynyddu, gan mwyaf, wnaeth yr incwm a geir ers 2000/01 o weithgarwch heblaw ffermio o ffynonellau ar-y-fferm (yr incwm a gynhyrchir ar y fferm gan weithgareddau a busnesau heblaw ffermio) yn achos pob math o fferm. Mae Ffigur 2.1 yn dangos i'r incwm o'r ffynonellau hynny fwy na dyblu, sef o £3,100 yn 2000/01 i £6,700 yn 2006/07.

**Ffigur 2.1**




Ffynhonnell: Yr Arolwg o Fusnesau Fferm

Dylid bod yn bwyllog wrth ddehongli'r canlyniadau hynny. Daw'r data o'r Arolwg o Fusnesau Fferm nad yw'n samplu ffermydd sy'n llai na 0.5 o Ofynion Llafur Safonol (llai na hanner amser). Oherwydd eu natur ran-amser, gall y ffermydd hynny fod â chryn dipyn o weithgarwch arallgyfeirio sydd heb ei gynnwys yn y canlyniadau hyn.

Cynhelir yr **Arolwg Strwythurol Ewropeaidd** bob tair blynedd a bydd yn cynnwys dadansoddiad o 8000 o ffermydd Cymru. Yr arwydd a geir ganddo yw bod 15% o'r ffermydd a adolygwyd wedi arallgyfeirio'u gweithgarwch, ac mai twristiaeth sydd fwyaf poblogaidd. Ceir manylion y data am arallgyfeirio yn Nhabl 2.3, Tabl 2.4 a Thabl 2.5.

**Tabl 2.3 Data am weithgarwch arallgyfeirio o'r Arolwg o Strwythur Ffermydd Ewropeaidd yn 2007**

| Grŵp maint economaidd | Â gweithgarwch | Heb weithgarwch | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Bach iawn | 519 | 2,232 | 355 | 3,106 |
| Bach | 382 | 2,221 | 172 | 2,775 |
| Canolig | 230 | 1,233 | 81 | 1,544 |
| Mawr | 78 | 477 | 29 | 584 |
| Mawr iawn | 29 | 152 | 8 | 189 |
| | | | | |
| Cyfanswm | 1,238 | 6,315 | 645 | 8,198 |
| | | | | |
| Llety i dwristiaid | | 398 | 32% | 5% |
| Twristiaeth , arall | | 183 | 15% | 2% |
| Contractio/cludo | | 170 | 14% | 2% |
| Chwaraeon/hamdden | | 139 | 11% | 2% |
| Gwerthu uniongyrchol | | 95 | 8% | 1% |
| Prosesu coed | | 55 | 4% | 1% |
| Cadw gwenyn | | 51 | 4% | 1% |
| Prosesu/gynhyrchu bwyd | | 49 | 4% | 1% |
| Ynni adnewyddadwy | | 34 | 3% | 0% |
| Cludo da byw | | 32 | 3% | 0% |
| Dyframaethu | | 9 | 1% | 0% |
| Arall | | 334 | 27% | 4% |
| | | | | |
| Cyfanswm | | 1,549 | | |

**Tabl 2.4 Y gyfran o ddaliadau yng Nghymru sydd â pheth gweithgarwch arallgyfeirio yn ôl eu maint economaidd, 2007**

| Maint y grŵp economaidd | Y gyfran o'r ymatebion | | | Cyfanswm (=100%) |
|---|---|---|---|---|
| | Â gweithgarwch | Heb weithgarwch | Dim ateb | |
| | | | | |
| Bach iawn | 17% | 72% | 11% | 3,100 |
| Bach | 14% | 80% | 6% | 2,800 |
| Canolig | 15% | 80% | 5% | 1,500 |
| Mawr | 13% | 82% | 5% | 600 |
| Mawr iawn | 15% | 80% | 4% | 200 |
| | | | | |
| Cyfanswm | 15% | 77% | 8% | 8,200 |

Ffynhonnell: Yr Arolwg Ewropeaidd o Strwythur Ffermydd, 2007

Sonnir yn unig am y ffermydd a ymatebodd i'r arolwg. Gofynnwyd i ffermwyr a oeddent wedi arallgyfeirio'u gweithgareddau. Gadawodd rhai ffermwyr y cwestiwn heb ei ateb a chyfrifir y rheiny o dan "dim ateb". Fe all y ffermydd hynny fod â gweithgarwch arallgyfeirio neu beidio. Y grwpiau o faint economaidd yw'r categorïau Ewropeaidd safonol ar sail swm pwysol o weithgareddau ffermio (arwynebedd cnydau a niferoedd y da byw)

**Tabl 2.5 Y gweithgareddau arallgyfeirio mwyaf cyffredin, 2007**

| | Nifer yr ymatebion | Y gyfran o'r rhai â gweithgarwch |
|---|---|---|
| | | |
| Llety i dwristiaid | 400 | 32% |
| Twristiaeth arall | 185 | 15% |
| Contractio/cludo | 170 | 14% |
| Chwaraeon/hamdden | 140 | 11% |
| Gwerthu uniongyrchol | 95 | 8% |
| | | |
| **Yr holl weithgareddau** | **1,240** | **100%** |

Ffynhonnell: Yr Arolwg Ewropeaidd o Strwythur Ffermydd, 2007

Gofynnwyd i'r ffermwyr ddewis o blith rhestr o amrywiol weithgareddau. Mae'r tabl hwn yn dewis y 5 gweithgarwch mwyaf cyffredin. Gall daliad fod â mwy nag un gweithgarwch arallgyfeirio.

## 2.4 Cydrannau incwm aelwydydd fferm

Yn Nhabl 2.6 dangosir data o'r arolwg o Fusnesau Fferm – ar sail ffynonellau incwm aelwydydd fferm yng Nghymru.

**Tabl 2.6 Cydrannau Incwm Busnesau Ffermydd yng Nghymru, 2008 – 2009**

| Ffynhonnell Incwm | Llaeth (£) | Da Byw Pori ALFf (£) | Da Byw sy'n Pori ar Lawr Gwlad (£) | Pob math o Fferm(£) |
|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchu amaethyddol (heb gynnwys cymorthdaliadau) | 27,200 | -11,800 | -2,300 | -4,000 |
| Taliad Sengl | 28,500 | 27,700 | 22,600 | 27,400 |
| Tir Mynydd a chynlluniau amaeth-amgylcheddol | 2,800 | 7,300 | 2,400 | 5,800 |
| Gweithgareddau arallgyfeirio | 900 | 900 | 1,000 | 1,200 |
| Cymorthdaliadau a thaliadau eraill i fyd amaeth | 2,900 | 400 | 800 | 900 |
| Incwm Busnesau Fferm | 62,200 | 24,500 | 24,400 | 31,300 |

Ffynhonnell: Yr Arolwg o Fusnesau Fferm [FBS]

Nodiadau:
1. Talgrynnir y niferoedd i'r canpunt agosaf. Gall y cyfansymiau beidio â symio oherwydd y talgrynnu.
2. Mae 'Cymorthdaliadau a thaliadau eraill i fyd amaeth' yn cynnwys bTB a thaliadau iawndal eraill.
3. Cafodd y costau sy'n gysylltiedig â hawlio'r Taliad Sengl [yr SFP] eu casglu/cyfrifo yn yr FBS am y tro cyntaf yn 2008/2009 (h.y. cost cadw tir yn GAEC ac ati). Yn y tabl hwn, mae'r costau wedi'u cynnwys (wedi'u tynnu) o'r llinell 'Incwm o gynnyrch amaethyddol'. Diben gwneud hynny yw sicrhau cysondeb â'r tablau 'Cydrannau o Incwm Busnesau Fferm' a gynhyrchwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Ar gyfartaledd, rhyw £4,200 oedd costau'r Taliad Sengl yn 2008/2009.

Mae'r data yn Nhabl 2.6 yn dangos y ffigurau ar gyfer y ffermydd yn yr FBS:

→ Ffermydd llaeth yn unig a dynnodd incwm o gynhyrchu amaethyddol – colled wnaed gan fathau eraill o fferm

→ Cyfrannodd y Taliad Sengl y canrannau hyn o incwm:
- 45.8% i ffermydd llaeth
- 113% i ffermydd ALFf
- 92.6% i ffermydd pori llawr gwlad
- 87.5% i'r holl ffermydd

→ Yr oedd ffermydd ALFf yn arbennig o ddibynnol ar daliadau cynlluniau amaeth-amgylcheddol

→ Cyfrannodd cymorthdaliadau 4.6% o incwm ffermydd llaeth – cryn dipyn yn fwy na'r cyfrannau ar gyfer ffermydd eraill

Er bod Tir Mynydd wedi'i gynnwys gyda chynlluniau amaeth-amgylcheddol, gellid dadlau, am mai hwnnw yw cydran taliad cymdeithasol yr ALFf, nad yw'n gwbl gysylltiedig â thaliadau cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Mae cynnwys Tir Mynydd yn tueddu i sgiwio'r data am y newydd-ddyfodiaid i gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Yn Nhabl 2.7 dangosir y taliadau CAP i ffermydd ar gyfer 2009.

**Tabl 2.7 Taliadau CAP yng Nghymru**

| Taliadau CAP, 2009 | Colofn I (EAG Uniongyrchol) | Colofn II (Datblygu gwledig) |
|---|---|---|
| llai na £5,000 | 41% | 81% |
| £5,000 – £9,999 | 15% | 8% |
| £10,000 - £14,999 | 11% | 3% |
| £15,000 - £19,999 | 9% | 2% |
| £20,000 - £24,999 | 6% | 1% |
| £25,000 - £29,999 | 5% | 1% |
| £30,000 + | 14% | 3% |
| | | |
| Cyfanswm y Derbynwyr | 16,351 | 13,935 |
| Y Cyfanswm a gawsant | £254,503,209 | £78,138,131 |
| Cyfartaledd y taliadau | £15,565 | £5,607 |

## 2.5 Y llenyddiaeth ar y Polisi

Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae tair thema'n amlwg yn y llenyddiaeth bolisi ar ffermio, sef: canolbwyntio ar ddatblygu gwledig cynaladwy; cyflwyno Glastir, y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd; a diwygio'r CAP ar ôl 2013. I ryw raddau, mae'r themâu hynny'n gydgysylltiedig; o'u cymryd gyda'i gilydd, maent yn arwydd o shifft yn y polisi i ffwrdd oddi wrth gynhyrchiaeth (*productivism*) amaethyddol ac ymddangosiad paradeim datblygu-gwledig newydd.

### 2.5.1 Datblygu gwledig cynaladwy

Dangosodd dwy ddogfen allweddol, ymhlith eraill, fod y polisi'n dechrau canolbwyntio ar ddatblygu gwledig cynaladwy. Yn gyntaf, Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn (Ll-y-CC, 2007).[4] Yn y ddogfen strategaeth honno fe amlinellir cyfeiriad polisi Llywodraeth y Cynulliad ar Faterion Gwledig ymlaen i 2020. Cyflwynir gweledigaeth glir o amaethu yng Nghymru wrth galon cefn gwlad cynaladwy ac economi gwledig proffidiol; diwydiant sy'n gallu cyflawni sialensiau'r dyfodol a manteisio ar y cyfleoedd mewn economi byd-eang sy'n fwyfwy cyfnewidiol. Nodau ac amcanion y strategaeth yw sicrhau dyfodol cynaladwy a phroffidiol i deuluoedd a busnesau ffermio a diogelu amgylchedd cefn gwlad Cymru. Amlygir pum thema allweddol:

- Cysylltu â'r farchnad
- Cynhyrchu'n gynaladwy ac yn broffidiol
- Diogelu iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a diogelwch bwyd
- Cynnal cefn gwlad
- Hybu arloesedd

Yn ail, Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, 2007-2013 (Llywodraeth y Cynulliad, 2007)[5] yw'r ddogfen bolisi sydd wedi'i hanelu'n benodol at weinyddu Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop (y CAP) ar gyfer Datblygu Gwledig [EAFRD] am y cyfnod 2007-2013. Gelwir datblygu gwledig yn 'Golofn 2' y CAP ac mae'n cydategu'r taliadau cymorth incwm i ffermydd o dan Golofn 1. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu ac adfywio gofod gwledig yng Nghymru; mae'n rhoi sylw i ddatblygu gwledig cynaladwy drwy ddefnyddio'r pedair echel a ddiffiniwyd gan yr EAFRD:

**Echel 1 –** Cynyddu gallu'r sectorau amaeth a choedwigaeth i gystadlu: e.e. ychwanegu gwerth at gynhyrchion ffermydd a choedwigaeth; defnyddio gwasanaethau ymgynghorol ffermydd a choedwigaeth; a lledaenu gwybodaeth wyddonol ac arferion arloesol.

**Echel 2 –** Gwella'r amgylchedd a chefn gwlad: e.e. taliadau anfanteision naturiol; taliadau amaeth-amgylcheddol; cefnogaeth i fuddsoddiadau anghynhyrchiol; a'r coedwigo cyntaf ar dir amaethyddol ac anamaethyddol.

**Echel 3 –** Ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi gwledig: e.e. arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol; creu a datblygu micro-fusnesau; hybu twristiaeth; ac adfywio a datblygu pentrefi.

**Echel 4 – *LEADER***
Ceir dadansoddiad SWOT yn nogfen y Cynllun. Rhai o'r gwendidau allweddol a nodir ynddo yw bod y diwydiant ffermio yn dibynnu llawer ar daliadau CAP (Echel 1); bod cyfran uchel o'r tir o safon isel (Echel 2); bod y sylfaen economaidd yn gul a bregus (Echel 3); ac, yn gyffredinol, fod lefelau incwm isel.

---

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013

### 2.5.2 Glastir a'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol

Bydd cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn rhoi cyfle i ffermwyr ddiogelu a meithrin yr amgylchedd yn gyfnewid am dâl. Cynllun amaeth-amgylcheddol newydd yw Glastir, a gwnaed Asesiad o'i Effaith rhwng Medi 2009 a Rhagfyr 2009 ar 70 o ffermydd treialu. Bwriedir ei gyflwyno ym mis Ionawr 2012 a bydd trefniadau pontio ar waith tan 2014. Mae Glastir yn adlewyrchu ymrwymiadau amgylcheddol newydd a strategaethau newydd Llywodraeth y Cynulliad ynghylch bwyd a ffermio. Yn ogystal, mae Glastir yn paratoi ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac yn ymateb i agenda 'Sialens Newydd' Archwiliad Iechyd y CAP, sy'n cynnwys rôl ffermwyr wrth frwydro yn erbyn y newidiadau yn yr hinsawdd; gwella'r rheoli ar ddŵr; cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth; a datblygu bio-ynni. Y bwriad yw i Glastir a'i ganolbwynt ar wasanaethau ecosystemau fod ar waith drwodd i 2020 a thu hwnt gan roi sefydlogrwydd, yn ogystal â manteision amgylcheddol, i ffermwyr.

Bydd Glastir yn disodli'r pum cynllun presennol, sef Tir Gofal, Tir Cynnal, Tir Mynydd, Ffermio Organig a Coetiroedd Gwell i Gymru. Isod fe amlinellir y cynlluniau hynny.

Tir Gofal yw prif gynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n talu ffermwyr i reoli tir amaethyddol mewn ffordd sy'n fanteisiol i'r amgylchedd, ac mae'n agored i unrhyw dirddaliad yng Nghymru y bernir bod ganddo ddigon o werth amgylcheddol go-iawn neu fod ganddo botensial. Ers i'r cynllun gychwyn ym 1999, mae ef wedi talu dros £100 miliwn i dirddeiliaid, ac yn talu i ryw 3,000 o ffermydd, sef rhyw 20% o dir amaethyddol Cymru. Dyma amcanion creiddiol Tir Gofal:

a) diogelu a gwella cynefinoedd natur pwysig;
b) diogelu'r amgylchedd hanesyddol;
c) diogelu ac adfer tirweddau gwledig; a
d) hyrwyddo mynediad y cyhoedd i gefn gwlad.

Gan nad yw'n mynnu cymaint â Thir Gofal, Tir Cynnal yw cynllun lefel-mynediad Llywodraeth y Cynulliad. Fe'i cyflwynwyd yn 2005. Dyma amcanion creiddiol Tir Cynnal:

- Rhwystro colli bioamrywiaeth drwy ddiogelu cynefinoedd bywyd gwyllt
- Diogelu nodweddion pwysig y dirwedd ar dir ffermio
- Diogelu safleoedd archaeolegol a hanesyddol
- Diogelu a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer

Digon gwael yw ansawdd amaethyddol llawer o dir Cymru. Daw rhyw 80% o'r cyfanswm o 1.6 miliwn o hectarau o dir amaethyddol Cymru o fewn yr Ardal Lai Ffafriol (ALFf) ddynodedig; mae 56% ohono yn yr Ardal dan Anfantais Fawr (AdAF); a 23% yn yr Ardal dan Anfantais (AdA). Amcan y cynllun Tir Mynydd yw helpu ffermwyr i gynhyrchu da byw yn ALFfoedd Cymru i'w cadw ar y tir ac i osgoi diboblogi cefn gwlad. Er mwyn dal i gael taliadau ALFf, bydd yn rhaid i'r ffermwyr sydd yn y cynllun Tir Mynydd ar hyn o bryd ymuno â Glastir.

Mae'r Cynllun Troi at Ffermio Organig yn cynnig cymorth i droi at ffermio organig dros gyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r Cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru yn cynnig grantiau i gynnal rheoli da ar goetiroedd yng Nghymru.

Y bwriad yw cyflwyno cynllun Glastir ym mis Ionawr 2012 a rhoi trefniadau pontio ar waith tan 2014. Y bwriad yw i Glastir a'i ganolbwynt ar wasanaethau ecosystemau fod ar waith drwodd i 2020 a thu hwnt gan roi sefydlogrwydd, yn ogystal â manteision amgylcheddol, i ffermwyr.

### 2.5.3 Diwygio'r CAP

Ar ôl Archwilio Iechyd y CAP yn 2008, cyhoeddodd y Comisiynydd ar y pryd, Mariann Fischer Boel, mai'r nod oedd symud rhagor o gyllid i faes Datblygu Gwledig a chwtogi ar y taliadau uniongyrchol drwy gyfrwng rhagor o fodiwleiddio gorfodol a chyflwyno cynllun modiwleiddio newydd a mwy blaengar (Agrafacts, 12/11/08).[6] Mae modiwleiddio'n golygu trosglwyddo cronfeydd CAP o gymorth uniongyrchol i ffermwyr a mesurau marchnad (Colofn 1 y CAP) i fesurau datblygu gwledig (Colofn 2). Mewn Datganiad gan Weinidog ar 25/11/08 cyhoeddwyd y gall Cymru gadw sylfaen hanesyddol cynllun y taliad sengl tan 2013 o leiaf. Ond o ran y cyfnod rhwng 2014 a 2020, mae'n debyg na chaiff taliadau eu gwneud o dan y system seiliedig-ar-gynhyrchu a ddefnyddiwyd rhwng 2000 a 2002. O 2013 ymlaen, mae'n debyg y gwneir taliadau ar sail ardal. Goblygiadau posibl y newidiadau hynny yw mai gostwng wnaiff y taliadau a gaiff rhai ffermydd.

O ran modiwleiddio, bydd trefn orfodol gyfredol yr UE, sef 5 y cant, yn codi i 10 y cant erbyn 2012 ac yna bydd cynnydd fesul cam o 2 y cant yn 2009 ac 1 y cant yr un ym mlynyddoedd 2010, 2011 a 2012. O dan gynlluniau datblygu gwledig, bydd yr hyn a geir o'r cynnydd yn y modiwleiddio gorfodol yn trosglwyddo i gynorthwyo gweithgareddau sy'n rhoi sylw i faterion y newid yn yr hinsawdd, rheoli dŵr, bioamrywiaeth ac ynni adnewyddadwy, arloesi a'r diwydiant llaeth.

Mae papur gan Zahrnt (Papur Gwaith ECIPE 08/2009)[7] yn cynnig rhai awgrymiadau ynghylch cynllun modiwleiddio newydd a blaengar.

a) Dileu'r Taliad Sengl fesul tipyn – 'any CAP reform must start with a decision of the future of the SFP.' Er bod y taliad sengl (yr SFP) wedi'i ddadgyplu oddi wrth Gynhyrchu, mae'n dal i ystumio Cynhyrchu.

b) Yn lle colofn 1 a cholofn 2 mae angen cael:
*Colofn nwyddau cyhoeddus* – diogelu'r holl bolisïau sy'n hybu nwyddau cyhoeddus yn effeithlon, e.e. Taliadau amaeth-amgylcheddol sydd wedi'u cynllunio'n dda, Ymchwil i ffermio cynaladwy
*Colofn ewyllysiol* – cael gwared fesul tipyn ar bolisïau/offerynnau aneffeithlon yn ôl ewyllys y wladwriaeth, e.e. y Taliad Sengl a chymhorthdal incwm arall, yr ALFf, Taliadau cypledig, Taliadau i gynyddu cynhyrchedd ffermydd, Taliadau amaeth-amgylcheddol sydd wedi'u cynllunio'n wael

I'r graddau y mae'n ymarferol bosibl, câi taliadau sy'n cymryd arnynt hyrwyddo nwyddau cyhoeddus ond sydd wedi'u cynllunio mewn gwirionedd i sianelu cymhorthdal incwm i ffermwyr eu dileu drwy gynyddu goruchwyliaeth yr UE o'r rhaglenni a sicrhau bod yr UE yn eu monitro'n fanylach. Câi taliadau datblygu gwledig sydd heb gysylltiad ag amaethyddiaeth, i'r graddau y cyfiawnheir eu parhad gan fudd Ewropeaidd, eu huno â pholisïau eraill yr UE. Dadl Zahrnt yw y byddai hynny'n tynnu o'r CAP daliadau camdriniol am nwyddau cyhoeddus a rhaglenni datblygu gwledig sydd heb gysylltiad ag amaethyddiaeth. Byddai'r aelod-wladwriaethau'n rhydd i ddewis symud cronfeydd, o'u hamlen Ewyllysiol i'w hamlen Nwyddau Cyhoeddus.

## 2.6 Y llenyddiaeth academaidd

Mae'r llenyddiaeth academaidd wedi ymateb i newid canfyddedig a pharhaus o gynhyrchu cynnyrch amaethyddol i ddatblygu gwledig cynaladwy ehangach, ac yn


[6] AgraFacts rhif 98-08 12/11/08
[7] Zahrnt, V (2009) Public Money for Public Goods: Winners and Losers from CAP Reform. Canolfan Gwleidyddiaeth Ryngwladol Ewrop.

adlewyrchu hynny. Ceir ynddi grynodeb o’r polisi a’r theori ac arddelir safbwynt normadol at y polisi a’r ymarfer.

Yn fras, dadl y llenyddiaeth academaidd yw bod paradeim newydd o ddatblygu gwledig yn ymddangos ar sail ailadeiladu economi gwledig. Yn ei hanfod, y paradeim hwnnw yw twf nwyddau a gwasanaethau ecolegol yn fwy cyffredinol a moderneiddio ecolegol ar gefn gwlad. Gellir deall ‘moderneiddio ecolegol’ fel cyfuniad eang o bryderon polisi sy’n awgrymu ymagweddau mwy normadol at ymarfer datblygu cynaladwy drwy ddiwygio a thrawsffurfio strwythurau cymdeithasol, llywodraethau, busnesau a marchnadoedd (Marsden, 2004). Yn ogystal, mae ei uwch-fformiwleiddiadau’n darparu ymagwedd integredig at dechnoleg, amgylcheddiaeth a chymdeithas – cysyniadau allweddol mewn prosesau datblygu gwledig cynaladwy.

O ran mentrau fferm, bydd tair agwedd iddynt fel arfer, sef gweithgareddau amaethyddol, defnyddio adnoddau, a pherthnasoedd â’r ardal leol (van der Ploeg ac eraill, 2002; Kitchen a Marsden, 2009). Gweler Ffigur 2.2 isod.

**Ffigur 2.2 Tair ochr y busnes amaethyddol:**





*TRADITIONAL RURAL ECONOMY* –
YR ECONOMI GWLEDIG TRADDODIADOL
*Production of commodities* – Cynhyrchu nwyddau
*Land resources* – Adnoddau tir
*Mobilisation of resources* – Defnyddio adnoddau

**Ffynhonnell: Van der Ploeg ac eraill (2002, td12)**

Fel yr awgryma Kitchen a Marsden (2009) ym mhrosesau datblygu gwledig, a thrwyddynt, caiff y perthnasoedd rhwng y tair agwedd hynny eu hatgynhyrchu a’u trawsffurfio’n gymdeithasol wrth i actorion gwledig geisio ailbrisio a diffinio’u strwythurau economaidd a’u hadnoddau. Caiff gweithgareddau economaidd traddodiadol (amaethyddiaeth a choedwigaeth, er enghraifft) eu trawsffurfio, eu harallgyfeirio a’u hehangu gan gysylltiadau ag actorion ac asiantaethau newydd. Mae gan gynhyrchion newydd y potensial i ychwanegu rhagor o werth yn y marchnadoedd newydd a fynnir gan y gymdeithas ehangach: cynhyrchion organig, cadwyni cyflenwi byrrach, a chynhyrchion gwerth-ychwanegol. Gallai enghreifftiau nodweddiadol o *ddyfnhau* fod yn ffermio organig; yn fwydydd o safon a gynhyrchir ar y fferm; ac yn gysylltiadau byr rhwng y cynhyrchu a’r bwyta drwy werthu i farchnadoedd lleol megis marchnadoedd ffermwyr. Gallai ehangu’r rhyngweithiadau â’r amgylchedd gwledig gynnwys cadwraeth natur, amaeth-dwristiaeth, darpariaeth hamdden, chwaraeon ac amwynderau, treftadaeth a chnydau ynni. Bydd busnesau gwledig sydd wedi’u gwreiddio mewn setiau newydd neu wahanol o adnoddau yn ymwneud â phatrymau newydd o ddefnyddio adnoddau. Enghreifftiau posibl o *ailwreiddio* yw’r manteisio a’r defnyddio ar adnoddau a fyddai’n cynhyrchu ynni, digwyddiadau arbennig, gweithgareddau sy’n cynnwys marchogaeth, a TGCh. Darlunnir y perthnasoedd newydd hynny yn Ffigur 2.3.

**Ffigur 2.3 Dynameg datblygu gwledig ar lefel busnes**




*RURAL ECO-ECONOMY* –
YR ECO-ECONOMI GWLEDIG
*Production of commodities* – Cynhyrchu nwyddau
*Land resources* – Adnoddau tir
*Mobilisation of resources* – Defnyddio adnoddau
*Deepening* – Dyfnhau
*Shorter value added chains* –
Cadwyni gwerth ychwanegol byrrach
*Organics* – Cynhyrchion organig
*Broadening* – Ehangu
*Sport* – Chwaraeon
*New on farm…* - Gweithgareddau newydd ar y fferm
*Nature conservation* – Cadwraeth natur
*Agri-environment schemes* –
Cynlluniau amaeth-amgylcheddol
*Opening up the land resources* - Agor adnoddau'r tir
*Regrounding* – Ailwreiddio
*Energy production* – Cynhyrchu ynni
*Events* – Digwyddiadau
*Heritage* – Treftadaeth
*ICT* – TGCh
*equine* – marchogaeth

**Addaswyd o Van der Ploeg ac eraill (2002)**

Enghreifftiau posibl o'r categorïau eco-economaidd hynny fyddai cynhyrchu bwyd organig o safon, cadwyni cyflenwi byr, ecodwristiaeth a chynhyrchu ynni. Ar lefel y fferm, mae'r llenyddiaeth academaidd yn canolbwyntio ar amrywiaeth, amlswyddogaetholdeb, ychwanegu gwerth, lluosweithgarwch a chymryd risgiau entrepreneuraidd.

O ran polisïau, mae'r llenyddiaeth academaidd yn ymwneud â damcaniaethau moderneiddio ecolegol a sut mae modd tyfu busnes ecolegol a'r sgiliau cysylltiedig gyda chymorth ymyriadau gan y Wladwriaeth aml-lefel.

Dyma rai o'r testunau allweddol yn y llenyddiaeth academaidd:

Kanemasu, Y., Sonnino, R., Marsden, T a Schneider, S (2007) *Testing the web: A comparative analysis of the results achieved through the quick scan*. A constituent report of the Enlarging Theoretical Understanding of Rural Development (ETUDE) project. (Caerdydd: Prifysgol Caerdydd)

Kitchen, L. a Marsden, T. (2009) Creating more Sustainable Rural Development through stimulating the Eco-Economy: Beyond the Eco-economic paradox? *Sociologia Ruralis* 49 (3) 273-294.

Marsden, T.K. (2003) The condition of rural sustainability. (Assen, Yr Iseldiroedd: Van Gorcum)

Marsden, T.K. (2004) The quest for ecological modernisation: re-spacing rural development and agro-food studies. *Sociologia Ruralis*, 44 (2) tt.129-147

Marsden, T. K. gol. (2008) *Sustainable Communities: New Spaces for Planning, Participation and Engagement*. (Rhydychen: Elsevier)

Marsden, T.K. a Parrott, N. (2006) Reconnecting Farming and the Countryside? RD in the UK. Yn: O'Connor, D., Renting, H., Gorman, M., Kinsella, J. goln 'Driving Rural Development: Policy and Practice in Seven EU Countries'. (Assen, Yr Iseldiroedd: Van Gorcum)

Marsden, T.K. a Smith, E (2005) Ecological Entrepreneurship: Sustainable Development in Local Communities Through Quality Food Production and Local Branding. *Geoforum*, 36 tt. 440-445

Marsden. T.K a Sonnino, R (2008) Rural development and the regional state: denying multi-functional agriculture in the UK. *Journal of Rural Studies,* 24 tt. 422-431

Morgan, K., Murdoch, J a Marsden, T (2006) *Worlds of Food: Place, Power and Provenance in the Food Chain.* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen)

Morgan, S, Marsden, T, Miele, M, Morley, A (2009) Agricultural multifunctionalty and farmers' entrepreneurial skills: a study of Tuscan and Welsh farmers. Journal of Rural Studies.

Van der Ploeg, J.D., a Marsden (2008) Unfolding Webs: the dynamics of regional rural development. (Assen, Yr Iseldiroedd: Van Gorcum)

Van der Ploeg, J. D., Long, A a Banks, J goln (2002) *Living Countrysides: Rural Development Processes in Europe: The State of the Art*. (Yr Iseldiroedd: Elsevier)

Van der Ploeg, J., Broekhuizen, R., Brunori, G., Sonnino, R., Knickel, K-H., Tisenkopfs, T ac Oostindie, H (2008) *Towards a new theoretical framework for understanding regional rural development*. Papur gweithio, prosiect ETUDE, Enlarging Theoretical Understanding of Rural Development (ETUDE).

Vesala, K, M. a Pyysiainen, J. goln (2008) Understanding Entrepreneurial Skills in the Farm Context. Prifysgol Helsinki: ESOF

Wilson, G A (2007) From 'weak' to 'strong' multifunctionality: Conceptualising farm-level multifunctional transitional pathways. JRS 24, 367-383

Wilson, G.A (2007) *Multi-Functional Agriculture: A Transitional Perspective.* (CABI International)

de Wolf, P a Schoorlemmer, H (2007) goln *Exploring the Significance of Entrepreneuriaeth in Agriculture*. (Frick, Y Swistir: Y Sefydliad Ymchwil Amaethyddiaeth Organig)

## 3.1 Sail resymegol yr arolwg

Mae arolwg AWC o aelwydydd fferm yng Nghymru yn ychwanegu gwerth at yr ymchwil flaenorol a phresennol arall mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n llenwi bwlch yn y dystiolaeth drwy ganolbwyntio'n benodol ar ffermydd yng Nghymru i loffa gwybodaeth ohonynt a darparu data cynhwysfawr am agweddau ffermwyr at amrywiaeth o faterion amserol. Yn ail, mae'n darparu cronfa ddata ar gyfer sector nad ymchwiliwyd iddo cyn hyn, ac yn cysylltu â gwaith sydd wedi'i gwblhau, a gwaith sydd ar y gweill, gan AWC.

## 3.2 Nodau ac amcanion y prosiect

Nodau'r prosiect, fel y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y Cynulliad oedd:

1) Nodi llifoedd incwm aelwydydd drwy asesu cyfanswm incwm aelwydydd fferm o weithgareddau ffermio a gweithgareddau heblaw ffermio;
2) Amlygu hyd a lled yr arallgyfeirio a'r aml-swyddi;
3) Amlinellu'r ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP, ac ymchwilio i agweddau ymddygiadol;
4) Sefydlu gwytnwch a bregusrwydd aelwydydd o ran diwygio'r CAP;
5) Darparu tystiolaeth sy'n fodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith ei pholisïau a bwydo hynny i'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig. Rhagwelir y ceir data hydredol drwy ailwneud yr arolwg bob tair blynedd.

Ar ôl sicrhau cytundeb ynghylch nodau'r prosiect, lluniodd AWC bapur o'r enw 'Farming household survey aims, rationale and themes' yn adnodd i'r prosiect. Ynddo, nodwyd y gofynion gweithredu; nodau ac amcanion Llywodraeth y Cynulliad; a sail resymegol gwneud yr arolwg. Adolygwyd amlinelliad o'r themâu o'r llenyddiaeth academaidd a'r llenyddiaeth bolisi, a chysylltwyd y themâu hynny â nodau ac amcanion Llywodraeth y Cynulliad; canfod y rhagdybiaethau gwaelodol; ac awgrymu'r themâu a'r materion a oedd i'w cynnwys yn holiadur yr arolwg, a themâu'r gwaith dadansoddi.

## 3.3 Dull yr arolwg

Er mwyn cyflawni nodau'r prosiect, penderfynwyd cynnal yr arolwg drwy anfon holiadur i aelwydydd fferm. Ystyriwyd dau ddewis, sef arolwg drwy'r post ac arolwg dros y ffôn.

Penderfynwyd y byddai cael contractwr i wneud arolwg dros y ffôn yn fwy cost-effeithiol ac yn sicrach o gael y nifer o ymatebion a ddymunid. Yna, cyflawnwyd tair proses gyfochrog, sef dylunio holiadur yr arolwg; llunio'r sampl; a chael hyd i gontractwr addas.

## 3.4 Contractio'r arolwg dros-y-ffôn

Cyn cael dyfynbrisiau gan gontractwyr, lluniwyd amlinelliad o fformat yr holiadur.

Gofynion y prosiect, fel y'u rhoddwyd i'r darpar gontractwyr, oedd:

- Gwneud arolwg dros y ffôn o ffermwyr yng Nghymru;
- Pob cyfweliad i bara 20 munud;
- Y cyfwelai fyddai'r sawl a wnâi'r penderfyniadau busnes

yn yr aelwyd fferm;

- Defnyddio holiadur a gawsai ei baratoi;
- Codio'r mwyafrif o'r ymatebion;
- Gofyn dau gwestiwn ansoddol a chofnodi'r ymatebion iddynt air am air;
- Cwblhau cyfanswm o fil o gyfweliadau;
- Cynnal astudiaeth beilot o 40 cyfweliad, a chynnwys y rheiny yn y cyfanswm o fil,
- Darperid set ddata o 10,000 o ffermwyr a'u manylion cysylltu;
- Câi'r sampl ei haenu'n bum categori o faint economaidd fferm, a chwota ym mhob categori;
- Cynnal rhai cyfweliadau yn Gymraeg;
- Cychwyn gwneud yr arolwg tua diwedd Ionawr a'i gwblhau erbyn canol mis Mawrth.

Rhoddwyd gwybod i'r darpar gontractwyr hefyd am nodau bras y prosiect.

Gofynnwyd i dri chontractwr ddarparu dyfynbrisiau. Ar ôl ystyriaeth briodol, dewiswyd Opinion Research Services [ORS], Abertawe. O ychydig, dyfynbris ORS oedd yr isaf ond, yn ogystal, yr oeddent wedi gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd o'r blaen a'r teimlad oedd eu bod yn cynnig gallu da yn y Gymraeg.

## 3.5 Dylunio'r holiadur

Y dasg oedd dylunio holiadur a fyddai'n esgor ar y wybodaeth angenrheidiol – holiadur y gellid ei ddefnyddio'n hwylus dros y ffôn ac a fyddai'n cymryd 20 munud i'w gwblhau. I ddylunio'r holiadur, cynhaliwyd proses iterus rhwng AWC a'r adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad a oedd â diddordeb. Ar wahanol adegau yn ystod y broses o ddylunio'r holiadur, defnyddiodd aelodau o dîm AWC broses o chwarae rôl i weld faint o amser a gymerai hi i'w lenwi.

Cam pwysig wrth ddylunio'r holiadur oedd cynnwys yr undebau ffermio yn y broses. Anfonodd AWC ddrafft o'r holiadur i NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru [yr FUW], Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad [y CLA] a Chlwb Ffermwyr Ifanc Cymru a'u gwahodd i ddod i'w drafod mewn cyfarfod. Daeth aelodau tîm AWC a chynrychiolwyr NFU Cymru a'r FUW i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Ionawr 2010. Bu'n gyfarfod hynod ffrwythlon ac, yn ogystal â bod yn gadarnhaol eu hagwedd at yr arolwg, gwnaeth cynrychiolwyr yr undebau ffermio sawl cyfraniad pwysig a defnyddiol ynghylch cynnwys yr holiadur a'r ffordd y câi'r arolwg ei gynnal.

Wrth dynnu at gamau olaf dylunio'r holiadur, cyfrannodd ORS drwy addasu fformat yr holiadur i gyd-fynd â'u cyfwelwyr a thrwy ychwanegu cyfarwyddiadau i'w cyfwelwyr. I sicrhau na fyddai hynny'n amharu ar gynnwys ac arddull yr holiadur bu hynny'n broses iterus gydag AWC.

Anfonwyd yr holiadur terfynol i Lywodraeth y Cynulliad i'w ddarllen a'i gymeradwyo a bu'n destun proses Rheoli Arolygon Llywodraeth y Cynulliad. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Dylid nodi dau bwynt methodolegol pwysig. Yn gyntaf, gofynnodd y cyfwelwyr am gael siarad â'r sawl a wnâi'r penderfyniadau busnes yn yr aelwyd fferm. Yn ail, cafodd y cyfweleion gyfle i lenwi'r holiadur yn Gymraeg.

## 3.6 Llunio'r sampl

Ar ôl cael trafodaethau gydag Ystadegydd Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad, penderfynwyd rhyddhau sampl o fanylion 10,000 o ffermydd a'i throsglwyddo i ORS. Gwnaed hynny o gyfanswm Llywodraeth y Cynulliad o fanylion 13,000 o ffermydd.

Gan ddefnyddio grwpiau maint economaidd safonol yr UE, sef y rhai a drafodwyd yn Adran 2.2, fe haenwyd y sampl yn ôl maint economaidd y fferm.

Defnyddiwyd cymhareb o 10:1 i bennu cwotâu ar gyfer pob categori o haen, a thalgrynnwyd y niferoedd i ddeg digid. Oherwydd y rhagwelid trafferthion wrth sicrhau digon o ymatebion gan ffermydd ‘Mawr iawn’, fe’u cyfunwyd â ffermydd ‘Mawr’. Yn Nhabl 3.1 isod dangosir y manylion hynny, a’r cwota a gafwyd.

**Tabl 3.1 Sampl yr arolwg, yr haenu a’r cwota**

| Maint economaidd y fferm | Sampl | Cwota | Cwota a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Bach iawn | 3096 | 310 | 317 |
| Bach | 3572 | 360 | 361 |
| Canolig | 2027 | 200 | 201 |
| Mawr/<br>Mawr iawn | 926<br>379 | 130 | 130 |
| **CYFANSYMIAU** | **10,000** | **1,000** | **1,009** |

Ystyriwyd haenu pellach ar sail lleoliad fferm yn nhiriogaeth Awdurdod Lleol ond penderfynwyd y gallai ffermydd amrywio gormod o ran eu maint a’u math o fewn tiriogaeth unrhyw Awdurdod Lleol i’r modd haenu hwnnw fod yn ystyrlon.

## 3.7 Sampl yr arolwg o’i chymharu â’r ystadegau cenedlaethol

Yr oedd arolwg AWC o aelwydydd fferm yng Nghymru yn cynnwys 31% o’r ffermydd bach iawn; 36% o’r rhai bach; 20% o’r rhai canolig; 9% o’r rhai mawr; a 4% o’r rhai Mawr iawn. Yn arolwg AWC, yr oedd ychydig dros hanner y daliadau gweithredol (53%) yn bori ALFf; 11% yn bori llawr gwlad, 9% yn ffermydd llaeth; a 4% yn gymysg. Yr oedd dofednod, garddwriaeth, grawn, cnydau cyffredinol a moch i gyd yn llai na 3% o’r daliadau gweithredol.

Yn Nhabl 3.2 cymharir cyfrannau’r ffermydd a arolygwyd gan arolwg AWC ac arolwg 2008 Llywodraeth y Cynulliad, o ran eu maint economaidd. Sylwer, at ddibenion y gymhariaeth hon, fod daliadau cwsg wedi’u tynnu o ddata 2008 Llywodraeth y Cynulliad. Rhydd hynny ffigur sylfaen o 24,254 o ddaliadau, ac ar sail hynny y cyfrifwyd y cyfraneddau.

**Tabl 3.2 Maint economaidd ffermydd yn arolygon AWC a Llywodraeth y Cynulliad 2008**

| **Maint Economaidd** | **Yr ymateb i arolwg AWC** | **LICC 2008** |
|---|---|---|
| Bach iawn | 31% | **53%** |
| Bach | 36% | **29%** |
| Canolig | 20% | **12%** |
| Mawr | 9% | **4%** |
| Mawr iawn | 4% | **2%** |
| Y cyfanswm sy’n Weithredol | 1,009 | **24,254** |

Sylwer bod cyfrannau’r ymateb i arolwg AWC wedi’u strwythuro gan gyfrannau’r sampl a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, a’u bod wedi glynu wrthynt.

Yn Nhabl 3.3 cymharir arolwg AWC â data 2008 Llywodraeth y Cynulliad yn nhermau’r math o fferm. Mae’n dangos i arolwg AWC fod yn sampl gynrychioliadol agos ar sail maint economaidd o’i gymharu â Chymru gyfan.

**Tabl 3.3 Mathau o ffermydd yn arolygon AWC a Llywodraeth y Cynulliad 2008**

| Y Prif Fath o Fferm | AWC | Y Prif Fath o Fferm | LICC 2008 |
|---|---|---|---|
| Llaeth | 16% | Llaeth | 9% |
| Cig Eidion a Defaid ALFf | 55% | Pori ALFf | 53% |
| Cig Eidion a Defaid heb fod yn ALFf | 11% | Pori Llawr gwlad | 11% |
| Dofednod | 1% | Dofednod | 3% |
| Grawn | 1% | Grawn | 2% |
| Garddwriaeth | 1% | Garddwriaeth | 2% |
| Arall (gan gynnwys porthiant = 1%) | 14% | Arall (cnydau cyffredinol =1%, moch =<1%, cymysg = 4% a gweithredol arall =16%) | 21% |
| Y Cyfanswm a oedd yn Weithredol | 1,009 | Y Cyfanswm a oedd yn Weithredol | 24,254 |

---

Yn Nhablau 3.4 a 3.5 cymharir yr arolwg 2008 Llywodraeth y Cynulliad ac arolwg AWC o aelwydydd fferm yn nhermau Llafur Fferm ac oedran y penderfynwyr ar y ffermydd a ymatebodd i'r arolygon.

**Tabl 3.4  Llafur Fferm**

| Arolwg AWC | % AWC | % LICC | LICC, 2008 |
|---|---|---|---|
| Aelodau o'r teulu | 66% | **77%** | Cyfanswm y ffermwyr, y partneriaid, y cyfarwyddwyr a phriod y penderfynwr |
| Amser-llawn (heb fod yn aelod o'r teulu) | 5% | **6%** | Gweithwyr fferm, ALl yn rheolaidd |
| Rhan-amser (heb fod yn aelod o'r teulu) | 7% | **8%** | Gweithwyr fferm, RhA yn rheolaidd |
| Tymhorol neu dros dro | 21% | **9%** | Gweithwyr tymhorol neu dros dro |
| Cyfanswm | 3,253 | **57,100** | Cyfanswm y llafur a fu'n gweithio ar ddaliadau (heb gyfrif rheolwyr) |

**Tabl 3.5 Prif ddeiliaid ffermydd yng Nghymru yn ôl eu hoedran**

| | Arolwg AWC | LICC, 2008 [8] |
|---|---|---|
| O dan 25 | <1% | <1% |
| 25-34 | 3% | 3% |
| 35-44 | 13% | 12% |
| 45-54 | 24% | 28% |
| 55-64 | 30% | 31% |
| 65+ | 30% | 26% |
| Cyfanswm | 1,009 | 37,875 |

## 3.8 Gwneud yr arolwg

Cyn i'r arolwg gychwyn, rhoes NFU Cymru wybod amdano i'w haelodau drwy eu newyddlenni e-bost. Rhoes NFU Cymru a'r FUW wybod i bob un o'u swyddfeydd ledled Cymru er mwyn iddynt allu ymdrin ag unrhyw gwestiwn, a rhoes Llywodraeth y Cynulliad wybod i'w pwyntiau ymholi yn yr un modd.

Dechreuodd ORS wneud yr arolwg ar 29ain Ionawr 2009. Cafodd AWC yr adroddiad cychwynnol ar y prif ddata ar 2 Chwefror ac ynddo cafwyd gwybodaeth am 54 o gyfweliadau, sef ychydig yn fwy na'r 40 o gyfweliadau a fynnid ar gyfer yr astudiaeth beilot. Yn fuan wedyn, cafwyd taenlen o'r data ar gyfer y ddau gwestiwn ansoddol. Barnwyd bod ansawdd y data meintiol ac ansoddol yn foddhaol, ac fe barhawyd â'r arolwg. Rhoes ORS wybod i AWC mai cyfartaledd amser y cyfweliadau oedd 23 munud, ffigur a oedd, ym marn ORS, yn foddhaol ac o fewn terfynau'r contract. Cafwyd adroddiadau am y prif ffigurau fesul wythnos.

[8] Deiliad y daliad yw'r person (naturiol neu gyfreithiol) y gweithredir y daliad yn ei (h)enw. Gall y deiliad fod yn berchen llwyr ar y daliad neu ei rentu neu fod yn lesddeiliad tymor-hir etifeddol neu'n wswffrwctwr(aig) neu'n ymddiriedolwr(aig). Gall person naturiol fod gydag unigolyn neu grŵp o unigolion, er enghraifft, cyplau priod, brodyr a chwiorydd, cyd-fuddiolwyr o dan ewyllys neu ddiewyllysedd. Caiff deiliad sy'n gweithio ar fwy nag un daliad ei gynrychioli/ei chynrychioli fwy nag unwaith yn y ffigurau. Mae'r ffigurau'n perthnasu â phrif ddaliadau a mân ddaliadau.

## 3.9 Cwblhau, dosbarthu a chyfradd ymateb yr arolwg

Cafwyd yr adroddiad terfynol ar y prif ddata ar 3ydd Mawrth 2009. Dangosodd hwnnw fod 1009 o gyfweliadau wedi'u cwblhau. O'r sampl wreiddiol o 10,000, ni chysylltwyd â 2015.

Cyfradd gyffredinol yr ymateb oedd:

**1009 / (10000 – 2015) = 1009/7985 = 12.64%**

Bodlonwyd y cwota o fewn yr haenau. Gwelir y manylion hynny yn Nhabl 3.1 uchod.

Rhoes ORS wybod mai cyfartaledd hyd y cyfweliadau oedd 22.53 munud. Yn Nhabl 3.6 dangosir dosbarthiad yr ymatebwyr fesul Awdurdod Lleol.

**Tabl 3.6 Yr ymatebwyr fesul Awdurdod Lleol**

| Yr Awdurdod Lleol | Nifer yr Aelwydydd Fferm a Gyfwelwyd |
|---|---|
| Bro Morgannwg | 11 |
| Ceredigion | 90 |
| Conwy | 38 |
| Gwynedd | 82 |
| Powys | 261 |
| Sir Benfro | 93 |
| Sir Ddinbych | 35 |
| Sir Fynwy | 57 |
| Sir Gaerfyrddin | 181 |
| Sir y Fflint | 38 |
| Wrecsam | 13 |
| Ynys Môn | 35 |
| Trefol a'r Cymoedd | 75 |
| **Cyfanswm** | **1009** |

## 4.1 Rhagymadrodd

Cynlluniwyd i'r dulliau dadansoddi roi sylw i nodau'r prosiect ymchwil.

Coladwyd y data o holiadur yr arolwg a'u bwydo i SPSS [Statistical Package for the Social Sciences]. Mae SPSS yn fodd i gynhyrchu ystadegau megis cyfansymiau, canrannau a chroestabliadau. Mae'r rhan gyntaf o'r dadansoddiad yn cynnwys ystadegau disgrifiadol, sy'n meintioli'r atebion i gwestiynau'r arolwg yn nhermau cyfansymiau a chanrannau, ynghyd â sylwebaethau. Yna, ceir dadansoddiad sy'n defnyddio croestabliadau gyda newidynnau allweddol megis y math o fferm a maint y fferm, a sylwebaethau gyda'r rheiny hefyd. Defnyddir y ddau gam cyntaf hynny o'r dadansoddiad i roi sylw i Nod 1 a Nod 2.

Ond rhaid oedd dadansoddi'n ddyfnach i gyflawni Nod 3 a Nod 4. I bob pwrpas, cyflawnwyd Nod 3 drwy ddadansoddiad ansoddol. I roi sylw i Nod 4, penderfynwyd creu ystod o newidynnau newydd; creu ystod o fynegeion typolegol a fyddai'n mesur lle'r oedd aelwydydd fferm arni o ran arallgyfeirio, amlswyddogaetholdeb, a'u sgiliau a'u hagweddau entrepreneuraidd. Yn olaf, plethwyd y dadansoddiadau ansoddol a thypolegol i roi mesurau o wytnwch a bregusrwydd.

## 4.2 Dadansoddiad Ansoddol

I roi sylw i Nod 3 – Amlinellu ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP ac ymchwilio i agweddau ymddygiadol – fe ofynnwyd i'r cyfweleion ddau gwestiwn penagored a gyflwynai sefyllfaoedd gwahanol. Yn gyntaf, holwyd ynghylch diwygio'r CAP, datblygiad polisïau a chynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol. Canolbwyntiodd yr ail gwestiwn ar ddyfodol y farchnad i gynhyrchion amaethyddol (gwasgfa cost/pris).

Yr oedd dadansoddi'r ymatebion i'r ddau gwestiwn yn golygu datblygu ystod o godau i grisialu 'strategaethau goroesi' ar gyfer y naill sefyllfa a'r llall. Dyma'r codau hynny'n fwy penodol.

Codau ar gyfer strategaethau goroesi os bydd newidiadau mewn polisïau a chynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol:

*1. Cario ymlaen â'r busnes fel arfer – aros yr un peth.*
*2. Ansicr – heb fod yn siŵr beth i'w wneud.*
*3. Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol neu ymaddasu i wneud hynny:*
  *3a yn rhagweithiol*
  *3b o'u hanfodd*
*4. Arallgyfeirio/amlswyddogaethol/aml-incwm.*
*5. Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa*
*6. Dad-ddwysáu/cwtogi ar faint busnes y fferm.*
*7. Gadael ffermio:*
  *7a Ymddeol*
  *7b Gwerthu'r fferm.*

Codau ar gyfer y strategaethau goroesi yn achos gwasgfa cost/pris:

*1. Cario ymlaen â'r busnes fel arfer*
*2. Torri costau (h.y. ffermio'n fwy darbodus)*
*3. Ansicrwydd – heb fod yn siŵr beth i'w wneud*
*4. Ffermio'n fwy amgylcheddol*
*5. Arallgyfeirio/amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth)*
*6. Arallgyfeirio/amlswyddogaethol (ym myd amaeth)*
*7. Dwysáu/helaethu'r raddfa*
*8. Dad-ddwysáu/lleihau maint busnes y fferm*
*9. Gadael ffermio*
  *9a Ymddeol*
  *9b Gwerthu'r fferm.*

Cafodd yr ymatebion i'r ddau gwestiwn eu codio a'u croestablu yn erbyn ystod o newidynnau. Cyflwynir y dadansoddiad hwnnw yn Adran 6.

## 4.3 Dadansoddiad typolegol – cyfiawnhad damcaniaethol

Yr oedd llunio'r dadansoddiad typolegol i roi sylw i Nod 4 yn golygu bod rhaid creu Mynegeion ar gyfer arallgyfeirio, amlswyddogaetholdeb ac entrepreneuriaeth. Bu hynny'n fodd i ddatblygu mesurau ar gyfer gwytnwch, bregusrwydd a dibyniaeth polisi aelwydydd fferm o ran y posibilrwydd y diwygir y CAP a newidiadau yn y polisi ar ddatblygu cefn gwlad. Bu hynny'n fodd i roi prawf ar y rhagdybiaethau hyn:

O gofio lefelau a strwythurau cyfredol a blaenorol cymorth y CAP:

a. Bydd ffermwyr mewn sefyllfa fregus os caiff y CAP ei ddiwygio fel y rhagwelir yn y llenyddiaeth bolisi.
b. Bydd ffermwyr naill ai'n anfodlon neu heb fod wedi cynllunio ymuno â'r paradeim datblygu-gwledig newydd sy'n dod i'r amlwg.

Crëwyd tri Mynegai:

*Arallgyfeirio* – datblygu gweithgareddau anamaethyddol ar y fferm i helpu i gynnal daliad y fferm.

*Amlswyddogaetholdeb* – i ba raddau y mae ffermydd yn cyfrannu, y tu hwnt i'w prif swyddogaeth o gynhyrchu bwyd a ffibr, i fanteision amgylcheddol megis cadwraeth tir, rheoli adnoddau naturiol adnewyddadwy yn gynaladwy; diogelu bioamrywiaeth; a'r agweddau cymdeithasol-economaidd.

Mae'n dilyn bod cysylltiad agos rhwng perfformiad ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb a'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

*Entrepreneuriaeth* – gallu, sgiliau a meddylfryd ffermwyr o ran cynnull adnoddau a datblygiadau arloesol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fentro i farchnadoedd gwahanol.

Cam cyntaf y broses o greu mynegeion oedd nodi'r cwestiynau yn yr arolwg a oedd yn gymwys i bob mynegai unigol (gweler Atodiad 2). Yr oedd rhai cwestiynau, wrth gwrs, yn gymwys i fwy nag un mynegai. Yna, dyrannwyd sgorau i bob cwestiwn. Wrth ddyrannu'r sgorau, ystyriwyd pwysiad neu bwysigrwydd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Yna, cyfrifwyd y sgôr uchaf posibl ar gyfer pob mynegai unigol. Mae modd defnyddio SPSS i leoli pob fferm yn yr arolwg ar bob mynegai.

I lunio ystod neu gontinwwm ar gyfer pob mynegai unigol, cyfrifwyd cymedr rhifyddol y sgorau ar gyfer y mynegai hwnnw. Galwyd sgorau uwchlaw'r cymedr yn 'uwchlaw'r cyfartaledd' ar bob mynegai a galwyd y sgorau islaw'r cymedr yn 'islaw'r cyfartaledd'. Gwnaed profion sensitifrwydd, gan gynnwys arbrofi gyda phwysiadau. Er enghraifft, os arweiniai newid bach yn y pwysiad at newid bach yn y cymedr ar gyfer y mynegai, credid bod y pwysiadau'n dderbyniol. Ond os arweiniai newid bach yn y pwysiad at newid mawr yn y cymedr, câi'r pwysiadau eu hailystyried a'u hailgyfrifo. Canlyniad hynny oedd creu tri mynegai cadarn a fesurai hyd a lled yr arallgyfeirio, yr amlswyddogaetholdeb a'r entrepreneuriaeth yn y sampl.

## 4.4 Dadansoddiad typolegol gan ddefnyddio Mynegeion

Ar eu pennau eu hunain, darparai'r mynegeion fesurau o wytnwch a bregusrwydd. Yn ogystal, buont yn fodd i ddadansoddi'n ddyfnach drwy groestablu â newidynnau annibynnol megis y math o fferm, maint y fferm, oedran yr ymatebydd, a'r incwm.

## 4.5 Dadansoddi Integredig

Yn Adran 8, daw'r dadansoddiad terfynol â'r dadansoddiad ansoddol o Adran 6 a'r dadansoddiad typolegol o Adran 7 ynghyd.

Cafwyd y newidynnau o'r dadansoddiad ansoddol drwy grwpio'n themâu yr ymatebion i C21 a C22 o'r aelwydydd fferm. Cafodd pob un o'r newidynnau hynny a gafwyd yn thematig ei godio yn arwydd o wytnwch neu fregusrwydd.

Yna, croestablwyd y newidynnau thematig hynny â'r mynegeion o arallgyfeirio, amlswyddogaetholdeb ac entrepreneuriaeth, a gafwyd yn Adran 7.

Ar sail y dadansoddiad hwnnw, trafodwyd mesurau o wytnwch a bregusrwydd.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys dadansoddiadau o amlder ynghyd â sylwebaethau. Yn ogystal, caiff croestabliadau allweddol eu cyflawni a'u trafod, a darlunnir y data â thablau, siartiau a mapiau.

## 5.1 Gwybodaeth gyd-destunol

Mae'r dadansoddiadau cychwynnol yn darparu gwybodaeth gyd-destunol am y ffermydd a arolygwyd, eu haelwydydd, a'u lleoliadau.

### *5.1.1 Lleoliad y ffermydd*

Yn Nhabl 5.1 dangosir cwmpas daearyddol yr arolwg fesul Awdurdod Lleol a maint economaidd y fferm.

**Tabl 5.1 Lleoliad a Maint Economaidd y Fferm**

| Maint economaidd y fferm | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/Mawr Iawn | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 3 | 3 | 5 | 0 | 11 |
| Ceredigion | 32 | 31 | 14 | 13 | 90 |
| Conwy | 7 | 20 | 8 | 3 | 38 |
| Gwynedd | 32 | 29 | 18 | 3 | 82 |
| Powys | 61 | 107 | 68 | 25 | 261 |
| Sir Benfro | 29 | 22 | 18 | 24 | 93 |
| Sir Ddinbych | 11 | 14 | 8 | 2 | 35 |
| Sir Fynwy | 21 | 22 | 4 | 10 | 57 |
| Sir Gaerfyrddin | 63 | 61 | 28 | 29 | 181 |
| Sir y Fflint | 16 | 12 | 5 | 5 | 38 |
| Wrecsam | 4 | 1 | 2 | 6 | 13 |
| Ynys Môn | 9 | 11 | 10 | 5 | 35 |
| Trefol a'r Cymoedd | 29 | 28 | 13 | 5 | 75 |
| **CYFANSWM** | **317** | **361** | **201** | **130** | **1009** |


### *5.1.2 Ardaloedd Llai Ffafriol*

Bu dadansoddiad gofodol a ddefnyddiai dechnoleg Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol [GIS] a chodau post yn fodd i fapio'r aelwydydd fferm a arolygwyd. Yr oedd y mwyafrif (78%) o'r ffermydd a arolygwyd mewn Ardaloedd Llai Ffafriol [ALFfoedd]. Ar ben hynny, yr oedd llawer o'r aelwydydd mewn ALFfoedd yn ffermio 'Tir dan Anfantais Fawr'. Yn Nhabl 5.2 ceir dadansoddiad o'r cyfrannau ar gyfer categorïau ALFf ac ar y map o Gymru yn Ffigur 5.1 dangosir lleoliadau'r aelwydydd fferm a arolygwyd o ran ALFf.

**Tabl 5.2 Ardaloedd Llai Ffafriol**

| | Y tu allan i ALFf | Mewn ALFf | Tir dan Anfantais (ALFf) | Tir dan Anfantais Fawr (ALFf) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif (1009) | 226 | 783 | 359 | 424 |
| Cyfran sampl yr arolwg | 22% | 78% | 36% | 42% |

**Ffigur 5.1 Cymru ac Ardaloedd Llai Ffafriol**



### *5.1.3 Daliadaeth a Maint Economaidd*

O ran daliadaeth, dangosir daliadaeth a maint economaidd y ffermydd yn Nhabl 5.3 .

**Tabl 5.3 Daliadaeth a Maint Economaidd y Ffermydd**

| Maint Economaidd/ Daliadaeth ffermydd | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo i deulu | 262 | 277 | 123 | 79 | 741 |
| Ar rent | 29 | 30 | 20 | 18 | 97 |
| Cymysg | 25 | 54 | 58 | 33 | 170 |
| **CYFANSWM** | **316** | **361** | **201** | **130** | **1008** |

Yn Nhabl 5.3 dangosir mai eiddo'r aelwyd fferm oedd y mwyafrif o'r ffermydd a arolygwyd (74%). Daliadaeth Gymysg oedd i 16% ac yr oedd 10% ohonynt ar rent.[9]

### *5.1.4 Gweithlu'r teulu ffermio*

Tynnodd y data am gyfansoddiad gweithlu'r fferm sylw at yr elfen gref o'r teulu a weithiai ar y ffermydd yn yr arolwg. Doedd gan lai na 2% o'r ffermydd a arolygwyd ddim un aelod o'r teulu yn gweithio arnynt; yr oedd gan bron hanner y ffermydd (46%) ddau aelod o'r teulu'n gweithio arnynt; 24% ag un aelod o'r teulu; a 20% â thri aelod o'r teulu'n gweithio arnynt. Yr oedd gan gyfrannau llai o'r holl ffermydd a arolygwyd bedwar, pump neu chwe aelod o'r teulu, a chafwyd enghreifftiau unigol o ffermydd â saith, wyth a naw aelod o'r teulu yn gweithio arnynt.


O ran gweithwyr cyflog amser-llawn nad oeddent yn perthyn i'r teulu, doedd 90%, sef y mwyafrif mawr o ffermydd, ddim yn cyflogi neb nad oedd yn aelod o'r teulu. O'r ffermydd a gyflogai bobl nad oeddent yn aelodau o'r teulu, yr oedd 7% yn cyflogi un person a 2% yn cyflogi dau berson. Cafwyd bod nifer fach o ffermydd yn cyflogi tri, pedwar, pump a chwech o bobl, ac yr oedd gan un fferm 25 o weithwyr cyflog nad oeddent yn perthyn i'r teulu.

Lleiafrif o'r ffermydd a gyflogai lafur rhan-amser a thros dro: ni chyflogai 87% ohonynt lafur rhan-amser ac ni chyflogai 68% lafur dros dro.

Yn Ffigur 5.2 dangosir proffil gweithwyr y ffermydd yn yr arolwg ar ffurf siart.

[9] Nid atebodd un ymatebydd, fferm 'fach iawn', y cwestiwn hwn.

**Ffigur 5.2  Proffil gweithwyr ffermydd yr arolwg**





### *5.1.5 Yr aelwyd fferm*

Yn y gyfran fwyaf, sef 39% o'r sampl, dau berson oedd ar aelwyd y teulu ffermio. Yr oedd aelwydydd â thri pherson yn 22% o'r sampl; â phedwar o bobl yn 17%; â phump o bobl yn 10%; â pherson unigol yn 7%; a 4% â chwech o bobl.

Cafwyd niferoedd llai o aelwydydd â saith, wyth neu ragor o bobl. Darlunnir cyfansoddiad yr aelwydydd ar ffurf siart yn Ffigur 5.3.

**Ffigur 5.3 Cyfansoddiad aelwydydd**



### *5.1.6 Y math o fferm a'r busnesau ffermio creiddiol*

Gofynnwyd pedwar cwestiwn i'r cyfweleion am eu prif fusnes ar y fferm. Yn gyntaf, gofynnwyd iddynt eu henwi. Yn ail, gofynnwyd iddynt eu rhestru yn nhrefn eu pwysigrwydd. I'r gyfran fwyaf, sef 41% ohonynt, defaid oedd eu busnes pwysicaf, ac yna gig eidion gan 25%, a llaeth gan 16%. Ymhlith y busnesau eraill a osodwyd yn gyntaf, gyda chyfrannau llai o'r arolwg, yr oedd dofednod, grawn, cnydau porthiant a garddwriaeth.

Yr oedd y trydydd cwestiwn am brif fusnesau eu fferm yn holi am y rhwystrau yr oedd y ffermwyr wedi dod ar eu traws. Câi'r cyfweleion enwi mwy nag un rhwystr. Enwyd pedwar rhwystr amlwg. Enwyd rheoliadau'n rhwystr gan 47%; ffurflenni ariannol gan 30%; costau gweinyddu gan 16%, ac amheuon am yr UE a'r CAP gan 8%. O'u cymryd gyda'i gilydd, cafwyd bod 8% o'r holl ffermwyr yn dweud bod cyngor, cymorth a gwybodaeth annigonol yn rhwystrau. Rhwystrau eraill a enwyd gan gyfrannau llai oedd hyfforddiant, cludiant, gallu eu personél, ac olyniaeth. Ymhlith y rhwystrau a enwyd gan ffermwyr unigol yr oedd cynlluniau amaeth-amgylcheddol (credai rhai cyfweleion nad oedd cynllun Glastir yn 'addawol'); newidiadau cyson i gymorthdaliadau; a bod y boblogaeth yn gyffredinol yn camddeall ffermio.

Ehangu oedd pwnc y pedwerydd cwestiwn am brif fusnesau'r fferm. O'r 1009 o aelwydydd fferm a arolygwyd, bwriadai 54% ohonynt gadw eu gweithgareddau ffermio ar eu lefel gyfredol; bwriadai 27% eu hehangu; a dywedodd 19% y byddent yn cwtogi ar eu gweithgareddau ffermio.

Ymhlith y rhesymau a roddwyd dros beidio ag ehangu yr oedd y cyfyngiadau a ddaw yn sgil ymaelodi â chynlluniau amgylcheddol; ystyried yr amgylchedd; hyfywedd ac enillion ariannol cyfyngedig; y teimlad oedd y llywodraeth yn ymddiddori mewn ffermio a bod diffyg ysgogiadau i ffermio.

### *5.1.7 Busnesau eraill*

Yr oedd cwestiwn olaf yr adran hon am y fferm a'i busnesau creiddiol yn edrych ymlaen at yr adran nesaf ar Arallgyfeirio. Holwyd y cyfweleion a oeddent yn gweithredu, neu'n ystyried gweithredu, amrywiaeth o fusnesau amaethyddol eraill y credir weithiau eu bod yn fusnesau arallgyfeirio'. Dangosir y canlyniadau hynny yn Nhabl 5.4.

Er bod lleiafrif yn sampl yr arolwg yn cyflawni gweithgareddau fferm eraill megis magu da byw'n organig, cynhyrchu cnydau organig a'r hyn y gellir ei alw'n 'fagu da byw eraill', cafwyd arwyddion bod rhai ffermwyr wrthi'n ystyried datblygu'r busnesau eraill hynny.

**Tabl 5.4 Busnesau Eraill**

| Busnesau Eraill | Ar waith ar hyn o bryd | Wrthi'n Ystyried | Heb fod yn Ystyried |
|---|---|---|---|
| Garddwriaeth | 5% | 5% | 90% |
| Da Byw Eraill<br>e.e. moch, byfflos dŵr, lamas, estrys ac ati? | 6% | 8% | 86% |
| Cnydau ynni | 2% | 10% | 88% |
| Cnydau diwydiannol e.e. ffibr, olewau | 1% | 3% | 96% |
| Cnydau organig | 6% | 6% | 88% |
| Da byw organig | 9% | 10% | 81% |

### 5.1.8 Busnesau organig

Yr oedd gan 6% o'r sampl gnydau organig a chan 9% dda byw organig. Am fod gan rai ffermydd gnydau organig a da byw organig, yr oedd cyfanswm y gyfran o ffermydd a weithredai ryw ffurf ar fusnes organig yn 10%.

Yn Nhabl 5.5 dangosir y mathau o ffermydd a redai fusnesau organig, a hynny fel cyfrannau o'r holl ffermydd organig yn yr arolwg.

**Tabl 5.5 Mathau o Ffermydd Organig**

| Y Prif Fath o Fferm | Organig |
|---|---|
| Llaeth | 15% |
| Cig Eidion | 27% |
| Defaid | 35% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 17% |
| Cyfanswm Organig* | N =100 |

***6% - math o fferm nad enwyd mohoni**

## 5.2 Arallgyfeirio

Gofynnwyd amryw o gwestiynau am arallgyfeirio. Fel y soniwyd yn y bennod ar y 'Dulliau Dadansoddi', yn yr adroddiad hwn, gellir diffinio arallgyfeirio fel hyn:

Datblygu gweithgareddau anamaethyddol ar y fferm i helpu i gynnal daliad y fferm.

### 5.2.1 Busnesau arallgyfeirio

Cyflwynwyd i'r cyfweleion restr o fusnesau arallgyfeirio generig posibl a holwyd a oeddent yn eu rhedeg ar hyn o bryd. Yn fras, yr oedd 50% o'r sampl yn rhedeg o leiaf un o'r busnesau arallgyfeirio. Yn Nhabl 5.6 dangosir gwahanol elfennau'r canlyniadau hynny.

**Tabl 5.6 Rhedeg busnesau arallgyfeirio**

| | Wrthi'n eu Rhedeg | Heb fod yn eu Rhedeg |
|---|---|---|
| Gwasanaethau amaethyddol (e.e. contractio) | 21% | 79% |
| Prosesu bwyd ar y fferm | 4% | 96% |
| Manwerthu bwyd ar y fferm (e.e. siop fferm) | 5% | 95% |
| Contractio anamaethyddol | 9% | 91% |
| Llety ar y fferm (e.e. gwely a brecwast, hunanarlwyo) | 10% | 90% |
| Ceffylau (e.e. stablau hurio, pori, llwybrau marchogaeth, gwersi marchogaeth) | 7% | 93% |
| Gweithgareddau hamdden eraill ar y fferm (chwaraeon, ffermydd agored) | 4% | 96% |
| Prydlesu adeiladau ar brydles | 5% | 95% |
| Prydlesu tir – Defnydd amaethyddol | 8% | 92% |
| Prydlesu tir – Defnydd anamaethyddol e.e. prosiectau ynni adnewyddadwy | 2% | 98% |
| Eraill | 8% | 92% |

Dywedodd ychydig dros un o bob pump (21%) o'r holl gyfweleion eu bod wrthi'n darparu gwasanaethau amaethyddol, megis contractio, ac yr oedd 10% arall yn darparu llety ar eu fferm.

Ymhlith y busnesau arallgyfeirio a redir gan unigolion a niferoedd bach o gyfweleion yr arolwg yr oedd coedwigaeth (gan gynnwys cynhyrchu coed tân); ffermydd a thyrbinau gwynt; safleoedd carafanau; prydlesu tir ar

gyfer mastiau telathrebu; llety cŵn; cneifio defaid dan gontract; magu cŵn; cynlluniau marchnata cyfnewid llafur [LETS]; saethu; prydlesu glannau afonydd; masnachwyr bwydydd anifeiliaid; defnydd cofrestredig o ffermydd ar gyfer gwneud ffilmiau; atgyweirio tractorau; prosiectau anghenion arbennig; ac amrywiaeth o gyrsiau gweithgareddau gwledig fel plygu perthi, toi, gwaith helyg, bugeilio, codi adeiladau clom a gwneud cyryglau.

### *5.2.2 Cynlluniau i arallgyfeirio*

Pan holwyd a oeddent yn debyg o gyflawni rhagor o weithgareddau arallgyfeirio dros y pum mlynedd nesaf, credai 30% fod hynny'n debygol neu'n debygol iawn. Dangosir gwahanol elfennau'r ymateb yn Nhabl 5.7.

**Tabl 5.7 Ehangu busnesau arallgyfeirio**

| Ymateb | |
|---|---|
| Tebygol iawn | 9% |
| Tebygol | 21% |
| Annhebygol | 22% |
| Annhebygol iawn | 22% |
| Dim o gwbl | 26% |

Yn ogystal â'r rhai sydd eisoes ar waith wedi'u rhestru uchod, yr oedd y gweithgareddau arallgyfeirio sydd ar y gweill yn cynnwys trydan-dŵr a phrosiectau eraill i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

### *5.2.3 Rhwystrau rhag Arallgyfeirio*

Yn Nhabl 5.8 dangosir y prif rwystrau a enwyd gan y cyfweleion sy'n debyg o ehangu neu gynyddu eu gweithgareddau arallgyfeirio.

**Tabl 5.8 Y prif rwystrau rhag arallgyfeirio a enwyd gan y rhai sy'n bwriadu cynyddu eu harallgyfeirio**

| Rhwystr | Y gyfran o'r cyfweleion ymhlith y rhai sy'n bwriadu cynyddu eu harallgyfeirio [10] |
|---|---|
| Gwybodaeth annigonol | 7% |
| Cyngor a chymorth annigonol | 10% |
| Enillion ariannol | 16% |
| Gallu personél y fferm | 7% |
| Hyfforddiant | 4% |
| Deddfwriaeth | 32% |
| Caniatâd cynllunio | 9% |

Cynigiodd y cyfweleion amrywiaeth o resymau dros beidio ag ymgymryd â rhagor o weithgareddau arallgyfeirio. Yn eu plith yr oedd cost yswiriant; enillion ariannol gwael; problemau posibl o ran cyflogi a rheoli personél newydd; cred ym mhwysigrwydd cynhyrchu bwyd; methiant posibl i sicrhau'r gyd-ddibyniaeth sy'n angenrheidiol rhwng busnes cryf y fferm ac arallgyfeirio'n llwyddiannus; a syrthni:

*Rwy'n gaeth i fy rhigol. Dim ond dal ati dwi'n ei wneud.*

Ymhlith sylwadau eraill a gafwyd gan y cyfweleion yr oedd:

*Dwi ddim yn fodlon rhoi cyfalaf at fusnesau ansicr a 'musnesau presennol yn gwneud yn dda.*

*Dda gen i gael y cyhoedd ar hyd y lle.*

*Dydy'r cyfle ddim yn codi yng nghefn gwlad. Gynted ag y bydd rhywun yn y fro 'ma wedi dechrau busnes gwely a brecwast, dydy hi ddim yn werth i lawer o bobl eraill drafferthu. Mae'r un peth yn wir am fusnes hurio stablau.*

[10] Caniatawyd rhoi mwy nag un ateb.

*Alla i ddim gwneud dim byd tan i ni wybod beth mae angen i ni ei wybod a beth sy'n mynd i ddigwydd i ffermio.*

*Does arna i ddim eisie cyflogi staff.*

*Dwi ddim yn credu y bydd angen arallgyfeirio. Dwi'n credu mai prinhau wnaiff bwyd wrth i'r boblogaeth dyfu ac felly fydd dim angen arallgyfeirio.*

*Byddai'n rhaid i ni gyflogi rhagor o bobl a does arnon ni ddim wir eisie gwneud hynny gan mai fferm deuluol yw hon.*

*Rydan ni'n clywed cymaint am arallgyfeirio heddiw, dwi'n credu bod y farchnad yn orlawn.*

*Cytundeb rheoli – mae cymaint o gyfyngiadau ar yr hyn y gallwn ni ei wneud.*

*Os troswch chi adeiladau fferm, dydy hynny ddim yn cael ei ystyried yn ffermio ac felly mae cyfradd y dreth yn mynd allan o fusnes y fferm ar gyfer gosod lleoedd gwyliau a phethau felly.*

*Rhoeson ni gynnig ar wahanol bethau yn y gorffennol. Roedd gynnon ni siop fferm ac aethon ni i farchnad ffermwyr – rhoeson ni gynnig ar hynny i gyd ond fedrwn ni ddim gwneud popeth a gofalu am y fferm os nad oedd gynnon ni reolwr fferm.*

*Ar ôl methu unwaith, ofni mentro eto.*

*Mae cymaint o arallgyfeirio nes bod llawer o bobl yn methu elwa ohono am fod y farchnad yn orlawn.*

*Mae Glastir yn dal yn yr awyr a rydyn ni'n dal ynghlwm wrth Dir Gofal. Tan i ni gael gwybod beth sy'n digwydd, allwn ni ddim cynllunio i arallgyfeirio rhagor.*

*Ar ddiwedd y dydd, bydd polisïau'n newid yn rhy gyflym.*

### *5.2.4 Pwysigrwydd posibl Arallgyfeirio*

Yn olaf, yn yr adran hon ar arallgyfeirio, gofynnwyd i'r cyfweleion ddau gwestiwn ynghylch beth, yn eu barn hwy, fyddai pwysigrwydd posibl arallgyfeirio dros y deg mlynedd nesaf. Yr oedd y cwestiwn cyntaf yn holi am ei bwysigrwydd i'w fferm a'r ail am ddyfodol aelwydydd fferm yng Nghymru. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiynau hynny yn Nhabl 5.9.

**Tabl 5.9 Pwysigrwydd canfyddedig arallgyfeirio dros y deg mlynedd nesaf**

| | Pwysig iawn | Pwysig | Dim barn | Heb fod yn bwysig iawn | Heb fod yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| I aelwyd eich fferm | 20% | 22% | 16% | 25% | 17% |
| I aelwydydd fferm yng Nghymru | 40% | 41% | 11% | 6% | 2% |

O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r data'n dangos bod 50% o'r aelwydydd fferm yn y sampl yn rhedeg rhyw fath o fusnes arallgyfeirio. Yn ogystal, mae 30% yn debyg neu'n debyg iawn o ehangu eu busnesau arallgyfeirio. O ran y canfyddiad o bwysigrwydd arallgyfeirio yn y dyfodol, cafwyd rhywfaint o amwysedd. Fel y dangosir yn Nhabl 5.9, mae'n ymddangos bod rhai ffermwyr yn credu bod arallgyfeirio yn bwysicach, o bosibl, i aelwydydd fferm ledled Cymru nag i'w haelwyd fferm eu hunain.

## 5.3 Cynlluniau amaeth-amgylcheddol

### *5.3.1 Ymrestru mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol*

Yr oedd y cwestiwn cyntaf mewn cyfres ynghylch cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn holi a oedd y ffermydd, neu a oeddent erioed, wedi'u cynnwys mewn cynllun. Cafwyd ateb cadarnhaol gan 60% o'r cyfweleion, sef 609 o ffermydd. Yn Nhabl 5.10 dangosir y gwahanol ganlyniadau yn ôl maint y fferm.

**Tabl 5.10 Wedi'u cynnwys mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, yn ôl maint y fferm**

| Cyfanswm | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|
| 1009 | 317 | 361 | 201 | 130 |
| 60% | 49% | 67% | 67% | 60% |

Yna, gofynnwyd i'r cyfweleion a oeddent (wedi bod) mewn cynllun amaeth-amgylcheddol p'un o'r prif gynlluniau yr oeddent wedi'u cynnwys ynddo. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 5.11.

**Tabl 5.11 Wedi'u cynnwys mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn achos y rhai sydd wedi bod mewn cynllun ar unrhyw adeg**

| Cynllun | Ar hyn o bryd | Wedi arfer bod | Erioed |
|---|---|---|---|
| Tir Mynydd | 64% | 5% | 31% |
| Tir Cynnal | 35% | 4% | 61% |
| Tir Gofal | 33% | 4% | 63% |
| Cynllun Ffermio Organig | 11% | 2% | 87% |
| Coetiroedd Gwell i Gymru | 6% | 3% | 91% |

Yn ogystal, yr oedd 13% wedi bod yn y cynllun ESA; yr oedd 3% mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; a 4% yng nghynllun Tir Cymen.

Yn Nhabl 5.12 dangosir canrannau'r ymuno â'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol hynny fesul categori o faint y fferm, fel cyfran o gyfanswm y sampl ar gyfer pob maint o fferm.

**Tabl 5.12 Wedi'u cynnwys mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd, yn ôl maint y fferm**

| Cynllun | Cyfan-swm | Bach iawn | Bach | Can-olig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| | **609** | **154** | **243** | **134** | **78** |
| Tir Mynydd | 64% | 55% | 74% | 72% | 40% |
| Tir Cynnal | 36% | 29% | 36% | 40% | 39% |
| Tir Gofal | 34% | 33% | 32% | 39% | 32% |
| Cynllun Ffermio Organig | 12% | 11% | 11% | 14% | 10% |
| Coeti-roedd Gwell i Gymru | 6% | 5% | 5% | 8% | 4% |

### *5.3.2 Pwysigrwydd taliadau cynlluniau amaeth-amgylcheddol*

Yn Nhabl 5.13 dangosir y pwysigrwydd a roddai'r aelwydydd fferm i'r taliadau amaeth-amgylcheddol a gaent.

**Tabl 5.13 Pwysigrwydd taliadau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ôl maint y fferm**

| | Cyf-answm | Bach iawn | Bach | Can-olig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| | **609** | **154** | **243** | **134** | **78** |
| Pwysig iawn | 61% | 58% | 63% | 72% | 41% |
| Pwysig | 28% | 27% | 26% | 24% | 44% |
| Dim barn | 3% | 3% | 4% | 0% | 4% |
| Ddim yn bwysig iawn | 7% | 11% | 6% | 3% | 9% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% |

I bob golwg, mae'r canlyniadau'n gyson ar draws ffermydd o bob maint, a chyfran gymharol fach ym mhob maint o fferm a gredai nad oedd y taliadau amaeth-amgylcheddol yn bwysig. Y canlyniad mwyaf trawiadol yw bod 11% o ffermydd bach iawn a gâi daliadau o'r farn nad oedd y taliadau hynny'n bwysig iawn. Dyna'r gyfran fwyaf o bob maint o fferm a gredai hynny. O'u cymryd gyda'i gilydd, credai 20% o ffermydd bach iawn a bach nad oedd taliadau amaeth-amgylcheddol yn 'Bwysig iawn' neu'n 'Bwysig'. Cymharai hynny â 15% o'r holl ffermydd canolig, mawr a mawr iawn.

### *5.3.3 Rhwystrau sy'n gysylltiedig â chynlluniau amaeth-amgylcheddol*

I'r cyfweleion, y prif rwystr ynghylch cynlluniau amaeth-amgylcheddol oedd Rheoliadau/Biwrocratiaeth. Enwyd y rheiny gan 67%. Rhwystrau eraill a enwyd gan gyfrannau cymharol uchel o'r cyfweleion oedd gwrthdrawiadau â'r busnes creiddiol (10%); y costau gweinyddol (6%); yr enillion ariannol isel (5%); a chyngor a chymorth annigonol (4%).

Bu i sylwadau cyfweleion adlewyrchu'r rhwystrau a enwyd. Yn fwy penodol, cafwyd cyfeiriadau at ddiffyg arbenigedd cynghorwyr y cynlluniau; canfyddiadau bod tuedd i rai o bersonél Tir Gofal fod yn orselog; diffyg ffydd y câi'r taliadau eu gwneud; a chost y ffensys ychwanegol a fynnid gan Dir Gofal.

### *5.3.4 Glastir*

Gofynnwyd i'r cyfweleion a oeddent yn ymwybodol o gynllun Glastir, y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd sydd ar y gweill: gwyddai 84% amdano. Yn Nhabl 5.14 dangosir yr ymwybyddiaeth o gynllun Glastir yn ôl y math o fferm.

**Tabl 5.14 Ymwybyddiaeth o gynllun Glastir a'r math o fferm**

| | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Llaeth | 86% | 14% |
| Cig Eidion | 85% | 15% |
| Defaid | 88% | 12% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 64% | 36% |
| Yn gyffredinol | 84% | 16% |

Yr oedd pob un o'r prif fathau o ffermydd, sef llaeth, cig eidion a defaid, yn agos at y cyfrannau cyffredinol o ymwybyddiaeth. Ond cyfyngedig oedd yr ymwybyddiaeth o gynllun Glastir ymhlith y mathau 'amrywiol' o ffermydd.

Yn Nhabl 5.15 dangosir yr ymwybyddiaeth o gynllun Glastir fesul prif ffynhonnell incwm.

**Tabl 5.15 Ymwybyddiaeth o gynllun Glastir a Ffynhonnell incwm**

| | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Y Farchnad | 86% | 14% |
| Y Taliad Sengl | 92% | 8% |
| Cynllun Am-amg ac ALFf | 90%* | 11%* |
| Arallgyfeirio | 69% | 31% |
| Swyddi eraill oddi ar y fferm | 77% | 23% |
| Ffynhonnell gymysg o incwm | 89% | 11% |
| Cyfanswm | 85% | 16% |

* Niferoedd bach

Ar sail Tabl 5.15, yr aelwydydd fferm a oedd wedi enwi 'arallgyfeirio' yn brif ffynhonnell eu hincwm oedd â'r cyfrannau uchaf (31%) na wyddent am gynllun Glastir. Yr oedd aelwydydd fferm a enwodd 'swyddi eraill oddi ar y fferm' hefyd yn uchel, sef 23% heb wybod am y cynllun. Mae'r canlyniadau hynny'n cyd-fynd â'r ffaith a nodwyd uchod, sef mai'r ffermydd 'o fath amrywiol' yw'r rhai sydd leiaf ymwybodol o gynllun Glastir.

Yn Nhabl 5.16 dangosir pa mor debygol yw'r cyfweleion sy'n ymwybodol o gynllun Glastir o ymrestru pan fydd y cynllun yn agor.

**Tabl 5.16 Tebygolrwydd o ymrestru yn Glastir yn ôl maint y fferm**

| | Cyfanswm | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybodol o Glastir | 848 | 240 | 318 | 183 | 107 |
| Tebygol iawn | 36% | 27% | 42% | 39% | 32% |
| Tebygol | 14% | 10% | 14% | 16% | 18% |
| Annhebygol | 5% | 9% | 4% | 5% | 5% |
| Annhebygol iawn | 8% | 18% | 4% | 4% | 5% |
| Angen gwybod rhagor | 37% | 36% | 36% | 36% | 40% |

Mae'r canlyniadau'n dangos i 50% a rhagor o'r cyfweleion mewn tri o'r pedwar categori o fferm o ran maint ddweud y byddent yn 'debygol iawn' neu'n 'debygol' o ymrestru yng nghynllun Glastir. Yr eithriad oedd y rhai yn y categori 'bach iawn' lle'r oedd 37% yn 'debygol iawn' neu'n 'debygol' o ymrestru.

Er bod y cyfrannau a oedd yn 'annhebygol' neu'n 'annhebygol iawn' o ymrestru yn gymharol fach ac yn amrywio o 8% i 13%, unwaith eto yr oedd y categori 'bach iawn' a'i gyfanswm cyfun o 27% yn drawiadol.

Gellir tybio, felly, fod ffermydd 'bach iawn' yn llai tebygol o ymrestru yn Glastir. Mae hynny'n cyd-fynd â'r canlyniadau yn Nhabl 5.10, a ddangosai mai'r ffermydd 'bach iawn' oedd â'r gyfran leiaf o ffermydd a oedd wedi ymrestru mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Yn Nhabl 5.17 dangosir tebygolrwydd ymrestru yn Glastir yn ôl y math o fferm.

**Tabl 5.17 Tebygolrwydd ymrestru yn Glastir yn ôl y math o fferm**

| | Tebygol iawn | Tebygol | Annhebygol | Annhebygol iawn | Angen gwybod rhagor |
|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 26% | 21% | 8% | 6% | 39% |
| Cig Eidion | 32% | 13% | 6% | 8% | 40% |
| Defaid | 46% | 12% | 4% | 6% | 33% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 21% | 13% | 8% | 21% | 36% |
| Cyfanswm | 36% | 14% | 6% | 8% | 37% |

Ar sail Tabl 5.17, ffermydd defaid oedd y math o fferm a oedd fwyaf tebygol o ymrestru yng nghynllun Glastir. Y mathau 'amrywiol' o fferm oedd y rhai lleiaf tebygol, a hwy oedd â'r cyfrannau isaf o 'tebygol' a 'tebygol iawn'; y cyfrannau uchaf o 'annhebygol'; ac, ar 21%, â chyfrannau tipyn uwch o rai 'annhebygol iawn'.

Ar draws meintiau'r ffermydd a'r mathau o ffermydd – yn yr ystod 36%-40% – gwelwyd cyfrannau o aelwydydd fferm a hoffai wybod rhagor.

Yn Nhabl 5.18 dangosir tebygolrwydd ymrestru yng nghynllun Glastir fesul prif ffynhonnell incwm aelwydydd fferm.

**Tabl 5.18 Tebygolrwydd ymrestru yng nghynllun Glastir fesul prif ffynhonnell incwm**

| | Tebygol iawn | Tebygol | Annhebygol | Annhebygol iawn | Angen gwybod rhagor |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Farchnad | 35% | 13% | 5% | 7% | 39% |
| Y Taliad Sengl | 43% | 16% | 4% | 4% | 33% |
| Cynllun amaeth-amg ac ALFf | 71%* | 0%* | 0%* | 0%* | 29%* |
| Arallgyfeirio | 25% | 10% | 6% | 14% | 45% |
| Swyddi eraill oddi ar y fferm | 33% | 14% | 10% | 17% | 26% |
| Ffynhonnell Gymysg o Incwm | 30% | 18% | 3% | 7% | 42% |
| Cyfanswm | 36% | 14% | 6% | 8% | 37% |

*N =19 (Nifer Fach)

Gan anwybyddu, oherwydd eu niferoedd bach, yr aelwydydd fferm a enwodd gynlluniau amaeth-amgylcheddol, yr aelwydydd a enwodd y Taliad Sengl oedd y rhai tebycaf o ymrestru yng nghynllun Glastir. Yr aelwydydd â 'ffynonellau cymysg o incwm' oedd y rhai lleiaf tebygol o ymrestru. Yr oedd ar gyfran uchel o'r aelwydydd ag 'arallgyfeirio' (45%) a 'ffynonellau incwm cymysg' (42%) angen gwybod rhagor am gynllun Glastir.

### *5.3.5 Cadwraeth Amgylcheddol*

Yn Nhabl 5.19 dangosir pa mor bwysig oedd cadwraeth amgylcheddol i'r cyfweleion o ran dyfodol eu haelwyd fferm. Dangosir y canlyniadau yn ôl maint y fferm. Atebodd pob cyfwelai'r cwestiwn hwn.

**Tabl 5.19 Pwysigrwydd canfyddedig cadwraeth amgylchedd i aelwydydd fferm yn ôl maint y fferm**

| | Cyfanswm | Bach iawn | Bach | Can-olig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwysig iawn | 32% | 38% | 31% | 26% | 27% |
| Pwysig | 43% | 37% | 44% | 49% | 46% |
| Dim barn | 11% | 10% | 12% | 11% | 12% |
| Dim yn bwysig | 12% | 11% | 12% | 11% | 14% |
| Dim yn bwysig o gwbl | 2% | 4% | 1% | 3% | 1% |

Yr oedd y cyfrannau a gredai fod cadwraeth amgylcheddol yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig' yn gyson – yn yr ystod 73%-75% – ar draws meintiau'r ffermydd.

### *5.3.6 Ansawdd Bwyd*

Yn Nhabl 5.20 dangosir yr ymatebion i gwestiwn am bwysigrwydd cynhyrchu bwyd o'r ansawdd uchaf.

**Tabl 5.20 Pwysigrwydd canfyddedig cynhyrchu bwyd o'r ansawdd uchaf**

| | Cyfan-swm | Bach iawn | Bach | Can-olig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwysig iawn | 80% | 71% | 83% | 84% | 89% |
| Pwysig | 14% | 16% | 14% | 16% | 9% |
| Dim barn | 4% | 10% | 2% | 0% | 1% |
| Dim yn bwysig iawn | 1% | 2% | 1% | 0% | 1% |
| Dim yn bwysig o gwbl | 1% | 1% | 0% | 0% | 0% |

Yr oedd lefel y cytuno â phwysigrwydd cynhyrchu bwyd o safon yn gyson uchel ar draws tri o'r meintiau o fferm – yn yr ystod 94%-100%. Ond is na hynny, sef 87%, oedd y gyfran o

‘ffermydd bach iawn’, ac yr oedd cyfran gymharol uchel o 10% ‘heb farn’.

## 5.4 Gogwydd at y farchnad

Holwyd y cyfweleion am eu gogwydd at y farchnad; eu strategaethau; a’r ffyrdd y rhedent eu busnes.

### *5.4.1 Gostyngiad posibl yn y Taliad Sengl*

Yn Nhabl 5.21 dangosir yr ymatebion pan ofynnwyd i’r cyfweleion beth fyddai eu bwriadau petai gostyngiad yn y Taliad Sengl.

**Tabl 5.21 Bwriadau petai gostyngiad yn y Taliad Sengl**

| | Tebygol iawn | Tebygol | Annhebygol | Annhebygol iawn | Wn i ddim |
|---|---|---|---|---|---|
| Newid i fath arall o ffermio | 14% | 16% | 25% | 27% | 18% |
| Ehangu gweithgareddau amaethyddol presennol | 6% | 17% | 31% | 34% | 12% |
| Ehangu gweithgareddau arallgyfeirio presennol | 7% | 18% | 23% | 24% | 28% |
| Sefydlu gweithgareddau arallgyfeirio newydd | 7% | 26% | 28% | 30% | 9% |
| Gadael ffermio | 9% | 18% | 23% | 39% | 11% |

O ystyried natur wrthffeithiol (beth os...?) y cwestiwn, cymharol isel oedd y cyfrannau o’r cyfweleion a atebodd ‘wn i ddim’ i’r sefyllfaoedd a gynigiwyd, ar wahân i’r dewis i ‘ehangu’r gweithgareddau arallgyfeirio presennol’. Ysgogodd hwnnw 28% i ddweud ‘ni wn’. Ond ym mhob un o’r sefyllfaoedd, yr oedd y cyfrannau o’r cyfweleion a atebodd ‘annhebygol’ ac ‘annhebygol iawn’ gryn dipyn yn fwy na’r rhai a atebodd ‘tebygol iawn’ a ‘tebygol’.

Ar y cyfan, gellir casglu mai o’u hanfodd y byddai’r mwyafrif o’r cyfweleion yn newid neu’n addasu eu gweithgareddau ffermio. Yn fwy penodol:

- Byddai llai nag un o bob tri ohonynt yn newid eu math o ffermio (30%)
- Byddai ychydig dros un o bob pump ohonynt yn ehangu eu gweithrediadau amaethyddol presennol (23%)
- Byddai un o bob pedwar yn ehangu eu gweithgareddau arallgyfeirio presennol (25%)
- Byddai un o bob tri yn sefydlu gweithgareddau arallgyfeirio newydd (33%)
- Byddai ychydig dros un o bob pedwar yn gadael ffermio (27%)

Mae’r ystadegyn amlinellol olaf yn amlygu ymrwymiad ffermwyr i ffermio: byddai 62% yn ‘annhebygol’ neu’n ‘annhebygol iawn’ o adael ffermio.

### *5.4.2 Cynlluniau Busnes*

Yn Nhabl 5.22 dangosir y cyfrannau o aelwydydd fferm, fesul categori o faint y fferm, a oedd â chynllun busnes ar gyfer: (a) busnes creiddiol eu fferm a (b) eu gweithgareddau arallgyfeirio. Yna, ceir Tabl 5.18, sy’n dangos y pwysigrwydd a roddai’r aelwydydd fferm yn yr arolwg i gynllun busnes.

**Tabl 5.22  Defnyddio cynllun busnes yn ôl maint y fferm**

| | Cyfanswm | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/Mawr iawn | Ddim yn Gymwys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Â Chynllun Busnes ar gyfer y fferm | 19% | 14% | 18% | 22% | 29% | - |
| Â Chynllun Busnes ar gyfer gweithgareddau arallgyfeirio | 8% | 9% | 7% | 7% | 9% | 38% |

Yn Nhabl 5.22 dangosir mai'r sefyllfa gyffredinol oedd bod gan lai nag un o bob pump o aelwydydd fferm gynllun busnes ar gyfer busnesau eu fferm. Y duedd oedd i'r tebygolrwydd o fod â chynllun busnes gynyddu yn ôl maint y fferm.

Gan fod cyfran gymharol uchel o ffermydd (38%) heb weithgareddau arallgyfeirio, yr oedd y defnydd o gynllun busnes ar gyfer gweithgareddau arallgyfeirio yn gyfatebol o isel, sef llai nag un o bob deg o aelwydydd fferm.

**Tabl 5.23 Pwysigrwydd cynllun busnes**

| Ymateb | Cyffredinol |
|---|---:|
| Pwysig iawn | 20% |
| Pwysig | 34% |
| Dim barn | 10% |
| Dim yn bwysig iawn | 27% |
| Dim yn bwysig o gwbl | 9% |

O ran y canfyddiad o bwysigrwydd cynllun busnes, dangosir y ffigurau cyffredinol yn Nhabl 5.23, sef bod 54% yn ystyried bod cynllun busnes yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig'. Mae'r canlyniadau, yn ôl maint y fferm yn dangos, fel yn achos cynllun busnes, fod tuedd i'r canfyddiadau o'i bwysigrwydd gynyddu yn ôl maint y fferm. O'u cymryd gyda'i gilydd, credai rhyw 53% o ffermydd 'bach iawn' a 'bach' fod cynllun busnes yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig' o'i gymharu â 65% o'r ffermydd 'Mawr/ Mawr iawn'. Ond at ei gilydd, mae'r canlyniadau'n amlygu rhywfaint o anghysondeb gwybyddol: credai cyfrannau llawer helaethach o'r cyfweleion fod cynllun busnes yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig' na'r rhai a ddefnyddiai un.

### *5.4.3 Cynlluniau cydweithrediadol a chydweithredol, a rhwydweithiau*

Yr oedd 129 o'r 1009 o gyfweleion (13%) yn rhan o gynlluniau cydweithrediadol neu gydweithredol â ffermwyr eraill. Yr oedd y cyfrannau o aelwydydd fferm mewn cynlluniau o'r fath yn cynyddu yn ôl maint y fferm, fel y dangosir yn Nhabl 5.24.

**Tabl 5.24 Aelwydydd fferm mewn cynlluniau cydweithrediadol a chydweithredol yn ôl maint y fferm**

| Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|
| 13% | 9% | 10% | 16% | 25% |

Yn Nhabl 5.25 dangosir y mathau o gynlluniau yr oedd aelwydydd fferm ynddynt.

**Tabl 5.25 Mathau o gynlluniau cydweithrediadol a chydweithredol yn ôl maint y fferm (Sylfaen: y rhai sydd mewn cynllun)**

| | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 12% | 4% | 0% | 3% | 39% |
| Tatws | 1% | 4% | 0% | 0% | 0% |
| Cnydau | 4% | 4% | 6% | 3% | 3% |
| Cig | 23% | 21% | 25% | 22% | 21% |
| Cylch peiriannau | 23% | 32% | 28% | 22% | 12% |
| Prynu gwrtaith | 8% | 0% | 3% | 9% | 18% |
| Prynu bwydydd anifeiliaid | 14% | 0% | 11% | 16% | 27% |
| Grwpiau trafod | 4% | 0% | 3% | 6% | 6% |

I bob golwg, cynlluniau cylchoedd peiriannau a chig oedd y rhai mwyaf poblogaidd, a cheid cyfrannau cymharol fawr ar draws meintiau'r ffermydd. Yr oedd cyfran fawr o'r ffermydd 'mawr/mawr iawn' yn cymryd rhan mewn cynlluniau llaeth.

Soniodd y cyfweleion am amryw o gynlluniau eraill, gan gynnwys grŵp prynu brechiadau; cymdeithasau tyfwyr; Celtic Pride; cynlluniau cynhyrchu organig; a menter gydweithredol ynni amgen.

Ar y cyfan, cafwyd bod cynlluniau'n ddefnyddiol i aelwydydd fferm, fel y dangosir gan Dabl 5.26.

**Tabl 5.26 Defnyddioldeb cynlluniau cydweithrediadol neu gydweithredol (Sylfaen: y rhai mewn cynllun)**

| Defnyddiol iawn | Defn-yddiol | Dim barn | Heb fod yn ddefn-yddiol | Heb fod yn ddefn-yddiol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| 58% | 32% | 4% | 3% | 3% |

Yn Nhabl 5.27 dangosir pa mor ddefnyddiol, ym marn aelwydydd fferm, yr oedd amrywiaeth o'r rhwydweithiau y gallent ymwneud â hwy.

**Tabl 5.27 Defnyddioldeb rhwydweithiau (Sylfaen: yr holl gyfweleion)**

| | Defn-yddiol iawn | Defn-yddiol | Dim barn | Heb fod yn ddefn-yddiol | Heb fod yn ddefnyddiol o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwyd-weithiau ffermwyr[11] | 16% | 37% | 30% | 11% | 6% |
| Teulu a Chyfeillion | 48% | 37% | 5% | 7% | 3% |
| Rhwyd-weithiau cwsmer-iaid | 15% | 32% | 37% | 12% | 4% |
| Rhwyd-weithiau cyflenwyr | 18% | 40% | 29% | 9% | 4% |

## 5.5 Cymorth a chyngor

### *5.5.1 Cyrchu cyngor*

Mae amryw o ffynonellau o gymorth a chyngor ar gael i aelwydydd fferm. O'r 1009 o aelwydydd fferm a samplwyd, yr oedd 549 (54%) wedi cyrchu cyngor busnes neu gyngor technegol ar ryw adeg. Dangosir y canlyniadau yn

[11] e.e. Agriscop, Cyswllt Ffermio

Nhabl 5.28, gan ddangos maint y ffermydd sydd wedi cyrchu cyngor.

**Tabl 5.28 Ffermydd sydd wedi cyrchu cyngor, yn ôl maint y fferm**

| | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Y sampl i gyd | 1009 | 317 | 361 | 201 | 130 |
| Ffermydd sydd wedi ceisio cyngor | 549 (54%) | 138 (44%) | 184 (51%) | 126 (63%) | 101 (78%) |

Yn Nhabl 5.29 dangosir y mathau o gyngor a gyrchwyd gan y gwahanol feintiau o fferm. Sylwer bod y cyfweleion wedi cael cynnig teitlau'r ffynonellau o gyngor.

**Tabl 5.29 Mathau o Gymorth a Chyngor (Sylfaen: ffermydd sydd wedi cyrchu cyngor)**

| | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffurflen gais unigol (IACS) | 53% | 44% | 55% | 52% | 62% |
| Cais Tir Gofal | 34% | 30% | 38% | 37% | 27% |
| Cais Tir Cynnal | 24% | 15% | 28% | 30% | 23% |
| Coetiroedd Gwell | 12% | 15% | 14% | 9% | 9% |
| Ffermio organig | 20% | 26% | 17% | 22% | 13% |
| Cyswllt Ffermio | 58% | 40% | 55% | 72% | 71% |
| Cais cynllunio | 35% | 32% | 36% | 33% | 42% |
| Gwelliannau Technegol i'r Fferm | 41% | 25% | 33% | 49% | 66% |
| Gwelliannau i Fusnes y Fferm | 45% | 28% | 45% | 53% | 60% |

Yn achos IACS, Cyswllt Ffermio, Gwelliannau Technegol i'r Fferm a Gwelliannau i Fusnes y Fferm, y duedd i bob golwg oedd i ffermydd ym mhen uchaf y sbectrwm geisio cyngor a chymorth. Fel arall yr oedd hi yn achos Coetiroedd Gwell a Ffermio Organig, ond cymharol fach oedd y cyfrannau a geisiodd gyngor o'r categorïau hynny.

### *5.5.2 Barn am y Cyngor a'r Cymorth*

Holwyd pob un o'r 1009 o gyfweleion am eu barn am y cymorth a'r cyngor a oedd ar gael o amrywiaeth helaethach o ffynonellau. Dangosir eu barn yn Nhabl 5.30.

**Tabl 5.30 Barn am y cyngor a'r cymorth**

| | Da iawn | Da | Derbyniol | Gwael | Gwael iawn | Heb gysylltu | Ddim yn gwybod am y gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Ffermio | 16% | 24% | 11% | 2% | 2% | 41% | 4% |
| Undebau'r Ffermwyr | 27% | 28% | 16% | 6% | 2% | 20% | 1% |
| Country Land and Business Association | 6% | 11% | 7% | 3% | 2% | 66% | 5% |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | 6% | 9% | 6% | 4% | 3% | 58% | 14% |
| FWAG | 6% | 12% | 6% | 2% | 1% | 50% | 23% |
| Cyrff ymgynghorol y sector preifat e.e. ADAS | 8% | 15% | 7% | 2% | 1% | 60% | 7% |
| Y Comisiwn Coedwigaeth | 4% | 9% | 5% | 2% | 2% | 76% | 2% |
| GWLAD | 30% | 36% | 12% | 2% | 2% | 14% | 4% |
| Gwasanaethau milfeddygol | 49% | 35% | 7% | 1% | 0% | 8% | 0% |
| Iechyd Anifeiliaid | 23% | 33% | 15% | 3% | 1% | 23% | 2% |
| Awdurdodau Lleol | 9% | 22% | 20% | 9% | 7% | 32% | 1% |

Er nad oedd na phatrwm na thuedd amlwg yn y canlyniadau hyn, safant ar eu traed eu hunain ym mhob achos. Cymharol uchel oedd y cyfrannau 'Heb gysylltu' ac felly hefyd y rhai a oedd 'Heb wybod am y gwasanaeth' mewn rhai achosion. Yr oedd cymeradwyaeth nodedig o fawr i wasanaethau milfeddygol.

Ymhlith y ffynonellau eraill o gymorth a chyngor a enwyd gan y cyfweleion yr oedd y Soil Association, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr RSPB, banciau, cyfrifwyr, Llywodraeth y Cynulliad ac amrywiaeth o grwpiau pwnc a grwpiau lleol â diddordebau penodol.

## 5.6 Sgiliau a Thechnoleg Gwybodaeth

### *5.6.1 Defnyddio cyfrifiadur at ddibenion y busnes*

Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau a geisiai asesu sefyllfa aelwydydd fferm o ran defnyddio cyfrifiaduron, y Rhyngrwyd a sgiliau technoleg gwybodaeth. Ceir y canlyniadau yn y tablau isod.

**Tabl 5.31 Defnyddio cyfrifiadur at ddibenion y busnes**

| Maint y fferm | Cyffre-dinol | Bach iawn | Bach | Can-olig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Sampl | 1009 | 317 | 361 | 201 | 130 |
| Defnyddio cyfrifiadur at ddibenion y busnes | 65% | 55% | 58% | 77% | 88% |

Yr oedd cydberthynas uniongyrchol rhwng maint y fferm a defnyddio cyfrifiadur at ddibenion y busnes. Yr oedd ychydig dros hanner y ffermydd 'bach iawn' a 'bach' a arolygwyd yn defnyddio cyfrifiadur o'i gymharu â chyfrannau helaethach o dipyn o'r ffermydd 'canolig' a 'mawr/Mawr iawn' a wnâi hynny.

**Tabl 5.32 Canfyddiadau o bwysigrwydd sgiliau cyfrifiadur yn ôl maint y fferm**

| | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwysig iawn | 51% | 46% | 45% | 58% | 66% |
| Pwysig | 27% | 22% | 30% | 28% | 28% |
| Dim barn | 4% | 6% | 5% | 3% | 1% |
| Dim yn bwysig iawn | 12% | 15% | 13% | 8% | 4% |
| Dim yn bwysig o gwbl | 7% | 11% | 7% | 3% | 1% |

Yng nghategorïau'r fferm 'fach iawn' a 'bach', credai mwy nag un o bob pum cyfwelai nad oedd sgiliau cyfrifiadur yn bwysig. Yng nghategorïau'r ffermydd mwy o faint, cyfrannau bach yn unig a arddelai'r farn honno.

**Tabl 5.33 Cysylltiadau â'r Rhyngrwyd**

| Maint y fferm | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Sampl | 1009 | 317 | 361 | 201 | 130 |
| Cysylltiad â'r Rhyngrwyd | 80% | 79% | 73% | 87% | 88% |

**Tabl 5.34 Defnyddio'r Rhyngrwyd at ddibenion y busnes**

| Maint y fferm | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiad â'r Rhyngrwyd | 805 | 251 | 264 | 176 | 114 |
| Defnyddio'r Rhyngrwyd at ddibenion y busnes | 78% | 72% | 75% | 83% | 91% |

### *5.6.2 Cyrchu a defnyddio'r band eang*

Holwyd yr 805 o aelwydydd fferm a oedd â mynediad i'r Rhyngrwyd a oeddent wedi'u cysylltu â'r Band Eang: yr oedd gan 659 (82%) gysylltiad a 18% heb gysylltiad.

Holwyd y 274 o aelwydydd fferm a oedd heb gysylltiad â'r Rhyngrwyd a oedd mynediad ar gael i'r Bang Eang ar safle eu fferm: yr oedd gan 112 (41%) fynediad iddo a 59% heb fynediad.

### *5.6.3 Pwysigrwydd canfyddedig Band Eang*

Holwyd pob un o'r 1009 o aelwydydd fferm pa mor bwysig yn eu barn hwy oedd cysylltiad Band Eang i ddyfodol eu mentrau busnes. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 5.35.

**Tabl 5.35 Pwysigrwydd cysylltiad Band Eang**

| | Pwysig iawn | Pwysig | Dim barn | Ddim yn bwysig iawn | Ddim yn bwysig o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn gyffredinol | 46% | 28% | 8% | 11% | 7% |

Cafwyd ystod o 67%-87% yn achos y cyfweleion a gredai fod Band Eang yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig' i ddyfodol eu mentrau busnes, a chynyddai'r canfyddiadau o bwysigrwydd Band Eang yn ôl maint y fferm. Gwelwyd tuedd debyg ymhlith y rhai a gredai nad oedd Band Eang yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig o gwbl': dyna farn un o bob pedair o'r 'ffermydd bach iawn' o'i gymharu ag un o bob ugain o'r ffermydd 'Mawr/mawr iawn'.

### *5.6.4 Mynediad ar-lein i ffurflenni amaethyddol*

Petai mynediad ar-lein ar gael i ffurflenni amaethyddol, byddai 70% o'r holl gyfweleion yn ystyried ei ddefnyddio.

### *5.6.5 Cymwysterau addysgol*

Holwyd y cyfweleion am eu cymhwyster addysgol uchaf. Fe'u dangosir yn Nhabl 5.36.

**Tabl 5.36 Y cymwysterau a ddelir**

| Cymhwyster | Sampl: 1009 |
|---|---|
| Diploma Cenedlaethol | 9% |
| HNC/HND | 6% |
| Safon Uwch | 5% |
| Safon gyffredin/TAU/TGAU | 21% |
| Gradd Gyntaf (e.e. BA, BSc) | 11% |
| Cymhwyster proffesiynol | 6% |
| Gradd uwch (e.e. MA, MSc, PhD) | 4% |
| NVQ Lefel 1-5 | 3% |
| City and Guilds | 3% |
| Dim cymhwyster | 32% |

## 5.7 Olyniaeth

Mae olyniaeth yn ystyriaeth bwysig i aelwydydd fferm ac o ran cynaladwyedd tymor-hir ffermio yng Nghymru. Yn Nhabl 5.37 dangosir ystodau oedran y cyfweleion a'r cyfrannau a oedd ag olynydd tebygol. I ailadrodd y pwynt, cynhaliwyd y cyfweliadau â'r prif wneuthurwr penderfyniadau ar y fferm.

O ran eu rhyw, yr oedd 26% o'r cyfweleion yn fenywod a 74% yn wrywod.

**Tabl 5.37 Ystod oedran y cyfweleion**

| Oedran y cyfwelai | Nifer | Pa gyfran o'r sampl | Y nifer â chynlluniau olynu | Y gyfran o'r grŵp oedran â chynlluniau olynu |
|---|---|---|---|---|
| 18 – 24 | 3 | <1% | 2 | 66% |
| 26 – 34 | 29 | 3% | 12 | 41% |
| 35 – 44 | 100 | 12% | 68 | 68% |
| 45 – 54 | 261 | 28% | 149 | 57% |
| 55 – 64 | 284 | 31% | 153 | 54% |
| 65 neu'n hŷn | 238 | 25% | 161 | 68% |

Sylwer bod niferoedd y cyfweleion yn y ddau gategori ifancaf yn isel; o ganlyniad, yr oedd y cyfrannau'n uchel. Ar y cyfan, yr oedd gan 60% o'r aelwydydd fferm a samplwyd olynydd tebygol i'r fferm, ac yr oedd gan 47% gynlluniau teuluol ar gyfer yr olyniaeth.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod y boblogaeth o ffermwyr yn heneiddio ac mai gwrywod ydynt gan mwyaf. Nid oes gan gryn gyfran ohonynt unrhyw gynllun olynu.

Mewn cymhariaeth, mae data o Arolwg Busnesau Arsyllfa Wledig Cymru yn dangos bod 79% o berchnogion busnesau yn ddynion a 21% yn fenywod. O ran eu hoedran, yr oedd 10% o dan 40 a 17% dros 65. Yr oedd y mwyafrif (71%) o'r perchnogion yn yr Arolwg Busnesau rhwng 40 a 64 oed.[12]

Y duedd, felly, oedd i broffil oedran y cyfweleion ffermio fod yn debyg, sef bod 71% ohonynt rhwng 35 a 64. Ond yr oedd 25% ohonynt dros 65.

.

## 5.8 Proffil incwm

Pwnc sensitif, wrth gwrs, yw incwm. Rhoddwyd sicrwydd i'r cyfweleion y cedwid yr holl ddata'n gyfrinachol ac yn ddienw. Ysgogodd y sicrwydd hwnnw ymateb da a 113 yn unig (rhyw 12%) o'r 1009 o gyfweleion a wrthododd ateb y cwestiynau am eu trosiant a'u hincwm crynswth.

Er bod y cwestiynau yn yr adran hon wedi'u cynllunio i roi syniad o ystod o incwm a throsiant yr aelwydydd fferm a arolygwyd, gofynnwyd i'r cyfweleion hefyd ddangos o ba sectorau y deuai eu hincwm a'u dibyniaeth gymharol ar y ffynonellau hynny o incwm. Naw yn unig o'r 1009 o gyfweleion a wrthododd ateb y cwestiwn hwn.

### *5.8.1 Trosiant blynyddol yn ôl maint y fferm a'r math o fferm*

Yn Nhabl 5.38 a Thabl 5.39 dangosir trosiant blynyddol busnes creiddiol y fferm, gan groestablu hynny â maint y fferm ac yna â'r fferm.

[12] Arsyllfa Wledig Cymru (2008) Arolwg Busnesau yng Nghefn Gwlad.

**Tabl 5.38 Trosiant blynyddol busnes creiddiol y fferm a maint y fferm**

| Trosiant Blynyddol (£oedd) | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| | 896 | 280 | 320 | 178 | 118 |
| Llai na 25,000 | 38% | 82% | 31% | 4% | 1% |
| 25, 000 – 67,999 | 22% | 13% | 38% | 20% | 6% |
| 68,000 – 99,999 | 9% | 1% | 16% | 14% | 7% |
| 100,000 – 149,999 | 14% | 1% | 9% | 41% | 13% |
| 150,000 – 199,999 | 6% | 1% | 2% | 13% | 15% |
| 200,000 – 249,999 | 4% | 1% | 2% | 5% | 13% |
| 250,000 – 499,999 | 5% | 0% | 1% | 2% | 32% |
| 500,000 a rhagor | 2% | 1% | 1% | 1% | 13% |

**Tabl 5.39 Trosiant blynyddol busnes creiddiol y fferm a'r math o fferm**

| Math o fferm | Llai na £25,000 | £25,000 -67,999 | £68,000 -99,999 | £100,000 -149,999 | £150,000 -199,999 | £200,000 -249,999 | £250,000 -499,999 | £500,000 a rhagor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 7% | 14% | 8% | 25% | 13% | 9% | 18% | 8% |
| Cig Eidion | 41% | 28% | 11% | 12% | 6% | 1% | 1% | 1% |
| Defaid | 42% | 25% | 9% | 14% | 4% | 3% | 2% | 0% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 61% | 12% | 8% | 4% | 4% | 5% | 4% | 3% |
| Cyfanswm | 38% | 22% | 10% | 14% | 6% | 4% | 5% | 2% |

***5.8.2 Incwm blynyddol crynswth aelwyd fferm deuluol yn ôl maint y fferm a'r math o fferm***

Holodd y cwestiwn am yr incwm sy'n dod i mewn i'r aelwyd o bob ffynhonnell, cyn treth a didyniadau eraill. Yn Nhabl 5.40 a Thabl 5.41 dangosir y canlyniadau yn ôl maint y fferm ac yna yn ôl y math o fferm.

**Tabl 5.40 Incwm crynswth aelwyd y fferm deuluol a maint y fferm**

| Incwm Blynyddol Crynswth (£oedd) | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| | 875 | 280 | 323 | 166 | 106 |
| Llai na 10,000 | 18% | 17% | 23% | 17% | 8% |
| 10, 000 – 15,499 | 17% | 17% | 21% | 14% | 14% |
| 15,500 – 20,999 | 16% | 19% | 15% | 14% | 14% |
| 21,000 – 30,999 | 18% | 17% | 19% | 20% | 17% |
| 31,000 – 51,999 | 17% | 19% | 12% | 19% | 22% |
| 52,000 – 77,999 | 8% | 6% | 7% | 8% | 13% |
| 78,000 a rhagor | 6% | 5% | 3% | 8% | 12% |

**Tabl 5.41 Incwm crynswth aelwyd y fferm deuluol a'r math o fferm**

| Math o fferm | Llai na £10, 000 | £10,000 -15,499 | £15,500 -20,999 | £21,000 -30,999 | £31,000 -51,999 | £52,000 -77,999 | £78,000 a rhagor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 14% | 16% | 12% | 14% | 24% | 10% | 11% |
| Cig Eidion | 23% | 18% | 15% | 20% | 12% | 6% | 6% |
| Defaid | 18% | 19% | 17% | 19% | 16% | 8% | 4% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 13% | 9% | 21% | 17% | 23% | 7% | 9% |
| Cyfanswm | 18% | 17% | 16% | 18% | 17% | 8% | 6% |

Y duedd yw i'r tablau ynghylch trosiant ac incwm ddangos bod y ffermydd mwy o faint yn gwneud yn well o ran eu trosiant a'u hincwm. O ran y mathau o fferm, y duedd yw i ffermydd llaeth fod â'r trosiant a'r incwm blynyddol mwyaf.

### *5.8.3 Ffynonellau cyfredol incwm yr aelwyd*

Yn Nhabl 5.42 fe restrir, yn nhrefn eu pwysigrwydd, ffynonellau incwm yr aelwydydd fferm a arolygwyd.

**Tabl 5.42 Y ffynonellau cyfredol o incwm yn nhrefn eu pwysigrwydd**

| Ffynhonnell Incwm | Safle | Pwysolwyd y ffynhonnell hon gyntaf * |
|---|---|---|
| Y farchnad | 1 | 50% |
| Cyflogaeth aelodau eraill o'r aelwyd oddi ar y fferm | 2 | 15% |
| Y Taliad Sengl | 3 | 14% |
| Arallgyfeirio | 4 | 7% |
| Cynlluniau amaeth-amgylcheddol | 5 | 2% |

*Rhoes 108 o'r ymatebwyr (11%) yr un pwysau i fwy nag un ffynhonnell o incwm. Yr oedd 92% o'r rheiny'n cynnwys y Taliad Sengl.

Yn y mwyafrif o'r aelwydydd fferm a arolygwyd, credid mai'r farchnad oedd y ffynhonnell gyfredol bwysicaf o incwm. Ond yr oedd cryn gyfran o'r aelwydydd yn dibynnu'n drwm ar y Taliad Sengl ac ar incwm aelodau o'r aelwyd o weithgareddau heblaw ffermio.

Yn Nhabl 5.43 a Thabl 5.44 dangosir prif ffynonellau incwm yr aelwydydd yn ôl y math o fferm a maint economaidd y fferm. Ar sail y tablau hynny, ffermydd llaeth a ddibynnai fwyaf ar y farchnad am eu hincwm a dibynnai 17% o ffermydd Cig Eidion a ffermydd defaid ar y Taliad Sengl yn brif ffynhonnell eu hincwm. Yn y categori o fath 'amrywiol' o ffermydd y ceid y gyfran fwyaf o ffermydd a gredai mai arallgyfeirio oedd prif ffynhonnell eu hincwm.

O ran maint economaidd y ffermydd, y duedd oedd iddynt ddibynnu mwy ar y farchnad am eu hincwm po fwyaf yr oeddent. Ffermydd bach iawn oedd â'r gyfran fwyaf a enwodd arallgyfeirio yn brif ffynhonnell eu hincwm.

Pwynt pwysig o ran y Taliad Sengl – ac fe'i trafodir ymhellach yn y Crynodeb a'r Casgliadau (Troednodyn 16 a 'Dibyniaeth ar y Taliad Sengl') – yw bod data'r Arolwg o Fusnesau yng Nghefn Gwlad a ddangosir yn Nhabl 2.6 yn dangos bod mwy o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl na'r hyn a ganfuwyd gan y cyfweleion yn yr arolwg hwn o aelwydydd fferm.

**Tabl 5.43 Prif ffynonellau incwm yr aelwyd yn ôl y math o fferm**

| | Y Farchnad | Y Taliad Sengl | Cynllun am-amg ac ALFf ** | Arallgyfeirio | Swyddi eraill oddi ar y fferm | Ffynhonnell gymysg o incwm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 80% | 9% | 1% | 1% | 4% | 4% |
| Cig Eidion | 49% | 17% | 2% | 4% | 16% | 12% |
| Defaid | 45% | 17% | 2% | 5% | 16% | 15% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 28% | 5% | 0% | 29% | 31% | 6% |
| Cyfanswm | 50% | 14% | 2% | 7% | 15% | 11% |

** Niferoedd isel, N = 19

**Tabl 5.44 Prif ffynonellau incwm aelwyd yn ôl maint y fferm**

| | Y Farchnad | Y Taliad Sengl | Cynllun am-amg ac ALFf ** | Arallgyfeirio | Swyddi eraill oddi ar y fferm | Ffynhonnell gymysg o incwm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bach iawn | 23% | 11% | 3% | 15% | 39% | 9% |
| Bach | 55% | 16% | 1% | 5% | 7% | 15% |
| Canolig | 67% | 16% | 3% | 1% | 2% | 11% |
| Mawr/ Mawr iawn | 76% | 12% | | 5% | 2% | 6% |
| Cyfanswm | 50% | 14% | 2% | 7% | 15% | 11% |

** Niferoedd isel, N = 19

### *5.8.4 Ffynonellau incwm yr aelwyd yn y dyfodol*

Gofynnwyd hefyd i'r cyfweleion pa ffynhonnell incwm a fyddai, yn eu barn hwy, bwysicaf i'w haelwyd yn y dyfodol. Yn Nhabl 5.45 rhestrir yr ymatebion hynny yn ôl maint y fferm.

---

**Tabl 5.45 Y canfyddiad o bwysigrwydd ffynonellau o incwm yn y dyfodol yn ôl maint y fferm**

| | Y Farchnad | Y Taliad Sengl | Cynllun am-amg ac ALFf ** | Arallgyfeirio | Cyflogaeth aelodau eraill o'r aelwyd oddi ar y fferm |
|---|---|---|---|---|---|
| Bach iawn | 24% | 17% | 4% | 17% | 38% |
| Bach | 55% | 27% | 2% | 9% | 7% |
| Canolig | 67% | 26% | 1% | 4% | 2% |
| Mawr/Mawr iawn | 73% | 19% | 1% | 5% | 2% |
| Cyfanswm | 50% | 23% | 2% | 10% | 15% |

** Niferoedd isel, N = 19

Wrth edrych ymlaen yn gyffredinol, credai'r gyfran fwyaf o'r cyfweleion mai'r farchnad fyddai'n dal i fod yn ffynhonnell bwysicaf eu hincwm. Ond ar draws meintiau'r ffermydd y duedd oedd i ffermydd bach iawn, fel grŵp, osod llai o ddibyniaeth ar y farchnad fel ffynhonnell eu hincwm yn y dyfodol.

Yr oedd ffermydd bach iawn yn fwy tebygol na chategorïau eraill o feintiau o ffermydd o roi mwy o bwysigrwydd posibl i incwm o swyddi aelodau eraill o'r fferm oddi ar y fferm ac o arallgyfeirio. Yn y naill gategori a'r llall, yr oedd y canfyddiadau o bwysigrwydd mewn cyfrannedd gwrthdro â maint y fferm.

O ran y Taliad Sengl, ffermydd bach iawn a roddai'r pwysigrwydd posibl lleiaf iddo, ac yn yr un modd rhoddai ffermydd Mawr/Mawr iawn bwys isel ar y Taliad Sengl yn y dyfodol. Ar y llaw arall, credai cyfrannau cymharol fawr o'r ffermydd bach a chanolig y byddai'r Taliad Sengl yn ffynhonnell bwysig o incwm iddynt yn y dyfodol.

Cyfrannau bach, yn unig, o'r cyfweleion a gredai y byddai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ffynonellau pwysig o incwm iddynt yn y dyfodol.

O ran y math o fferm (Tabl 5.46), ymhlith y ffermydd llaeth y cafwyd y cyfrannau mwyaf a welai'r farchnad yn ffynhonnell bwysicaf o incwm iddynt yn y dyfodol. Barnai cryn gyfrannau o bob math o fferm y byddai'r Taliad Sengl yn ffynhonnell bwysig o incwm yn y dyfodol. Tuedd y mathau amrywiol o fferm oedd gweld arallgyfeirio yn ffynhonnell incwm yn y dyfodol. Ar wahân i ffermydd llaeth, ceid cryn gyfrannau yn y mathau eraill o ffermydd a welai swyddi oddi ar y fferm yn ffynhonnell bwysig o incwm yn y dyfodol.

**Tabl 5.46 Canfyddiad o bwysigrwydd ffynonellau o incwm yn y dyfodol yn ôl y math o fferm**

| | Y Farchnad | Y Taliad Sengl | Cynllun am-amg ac ALFf ** | Arallgyfeirio | Swyddi eraill oddi ar y fferm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 76% | 14% | 1% | 3% | 6% |
| Cig Eidion | 49% | 23% | 3% | 7% | 18% |
| Defaid | 44% | 30% | 3% | 8% | 15% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 28% | 9% | 0% | 37% | 26% |
| Cyfanswm | 50% | 23% | 2% | 10% | 15% |

** Niferoedd isel, N = 19

### *5.8.5 Incwm o ffynonellau a gwaith sydd heb fod yn gysylltiedig â'r fferm*

Holodd y cyfwelwyr am gyflogaeth, heblaw gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r fferm, a gyfrannai i incwm yr aelwyd fferm. O'r bobl a atebodd y cwestiynau, yr oedd gan 28% ohonynt swydd neu fe redent fusnes a oedd heb gysylltiad â'r fferm na byd amaeth. Yn ogystal, yr oedd gan 36% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd aelodau eraill o'r teulu a oedd â swyddi neu fyd amaeth redai fusnes a oedd heb gysylltiad â'r fferm neu fyd amaeth ac a gyfrannai i incwm y fferm. Câi cyfanswm o 41% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd incwm o ffynonellau a oedd heb gysylltiad â'r fferm na byd amaeth. Mae'r data hynny'n dechrau rhoi sylw i Nod 1 a Nod 2 y prosiect.

Yn Nhabl 5.47 dangosir y cyfrannau o bob maint unigol o fferm lle'r oedd cyfanswm incwm y teulu yn cynnwys elfen o incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm.

**Tabl 5.47 Aelwydydd fferm a gâi incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm, yn ôl maint y fferm**

| | Cyffredinol | Bach iawn | Bach | Canolig | Mawr/ Mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **1009** | **317** | **361** | **201** | **130** |
| Incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm | 415 | 176 | 142 | 63 | 34 |
| | 41% | 56% | 39% | 31% | 26% |

Yn Nhabl 5.48 dangosir cyfrannau pob math unigol o fferm lle'r oedd cyfanswm incwm y fferm yn cynnwys elfen o incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm.

**Tabl 5.48 Aelwydydd fferm a gâi incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm, yn ôl y math o fferm**

| | ✓ | ✗ |
|---|---|---|
| Llaeth | 33% | 67% |
| Cig Eidion | 44% | 56% |
| Defaid | 43% | 57% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 47% | 53% |
| Cyfanswm | 41% | 59% |

### *5.8.6 Pwysigrwydd incwm o ffynonellau heblaw'r fferm*

Ar sail Tabl 5.45, credai 15% o'r holl gyfweleion mai incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm fyddai'r ffynhonnell bwysicaf o incwm yr aelwyd fferm yn y dyfodol. Yr oedd gan gyfrannau helaethach o ffermydd bach iawn ac, i raddau llai, ffermydd bach, lifoedd incwm i'r aelwyd o ffynonellau heblaw'r fferm. Yn ogystal, yr oedd ffermydd bach iawn yn fwy tebygol o gredu mai incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm fyddai bwysicaf iddynt hwy yn y dyfodol. Wrth i faint y fferm gynyddu, lleihau wnâi'r pwysigrwydd a roid i incwm o ffynhonnell heblaw'r fferm.

### *5.8.7 Effeithiau ALFf ar Incwm*

Yn Nhabl 5.49 dangosir dadansoddiad o'r bandiau incwm yn achos y 875 o aelwydydd fferm a atebodd y cwestiwn am incwm, yn erbyn ALFf. Yn y tabl dangosir bod yr aelwydydd fferm mewn ALFf i'w cael i raddau anghymesur yn y bandiau incwm is. Hynny yw, y duedd oedd i aelwydydd fferm mewn ALFfoedd fod ag incwm is.

**Tabl 5.49 Effaith ALFf ar incwm crynswth aelwydydd**

| Incwm Blynyddol | Nid ALFf | ALFf | Cyfanswm yn yr Arolwg |
|---|---|---|---|
| Llai na £10, 000 | 21% | 79% | 160 |
| £10,000 - 15,499 | 19% | 81% | 151 |
| £15,500 - 20,999 | 21% | 79% | 139 |
| £21,000 - 30,999 | 17% | 83% | 161 |
| £31,000 - 51,999 | 27% | 73% | 146 |
| £52,000 - 77,999 | 23% | 77% | 66 |
| £78,000 a rhagor | 31% | 69% | 52 |
| **Y gyfran ddisgwyliedig** | **22%** | **78%** | 875 |

Yn yr un modd, fe ddarlunnir yn Nhabl 5.50 effeithiau bod mewn ALFf ar drosiant aelwydydd fferm o'u busnesau fferm. Sylwer yn yr achos hwn fod rhai o'r bandiau trosiant, oherwydd y niferoedd bach mewn rhai bandiau, wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

**Tabl 5.50 Effaith ALFf ar drosiant busnes fferm**

| Incwm Blynyddol | Heb fod mewn ALFf | ALFf | Cyfanswm yn yr Arolwg |
|---|---|---|---|
| Llai na £25,000 | 19% | 81% | **338** |
| £25,000 - 67,999 | 22% | 78% | **200** |
| £68,000 -£149,999 | 22% | 78% | **209** |
| £150,000 + | 32% | 68% | **149** |
| **Y gyfran ddisgwyliedig** | **22%** | **78%** | **896** |

Yma eto, câi aelwydydd a oedd heb fod mewn ALFf eu tangynrychioli yn y band isaf. Perfformiodd y ddau fand canol yn unol â'r disgwyl. Ond yn achos y band uchaf o drosiant, yr oedd aelwydydd fferm a oedd heb fod mewn ALFf wedi gwneud yn well o lawer na'r aelwydydd mewn ALFf.

### 5.8.8 Amryfal ffynonellau incwm ac ALFf

Yn Nhabl 5.51 dangosir y cyfrannau o aelwydydd fferm a oedd â mwy nag un ffynhonnell o incwm ac nad oeddent mewn ALFf o'u cymharu â chyfrannau'r aelwydydd fferm a oedd â mwy nag un ffynhonnell o incwm ac a oedd mewn ALFf.

**Tabl 5.51 Amryfal Ffynonellau Incwm ac ALFf**

| Nifer y Ffynonellau Incwm | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heb fod mewn ALFf | 6% | 33% | 30% | 24% | 7% |
| Mewn ALFf | 6% | 21% | 36% | 29% | 8% |

D.S. Cyfrifwyd sylfeini'r tabl hwn fel a ganlyn:

Heb fod mewn ALFf – Cyfanswm (226) – Dim ymateb (9) = 217

Mewn ALFf – Cyfanswm (783) – Dim ymateb (30) = 753

Yn Nhabl 5.51 dangosir nad oedd a wnelo bod mewn ALFf ryw lawer ag a oedd gan aelwyd fferm amrywiol lifoedd incwm neu beidio, nac â nifer y

llifoedd incwm hynny. Nid oedd hynny'n elfen gyson chwaith. Mae dau ganlyniad yn amlwg iawn. Yn gyntaf, mai llifoedd sengl o incwm oedd gan gyfrannau cyfartal o ffermydd a oedd heb fod mewn ALFf a ffermydd sydd mewn ALFf. Yn ail, bod dau lif incwm gan 11% yn fwy o ffermydd a oedd heb fod mewn ALFf.

### 5.8.9 Incwm o ffynonellau heblaw'r fferm ac ALFf

O ran incwm o ffynonellau heblaw'r fferm, yr oedd 77% o'r aelwydydd fferm a gâi incwm o ffynonellau heblaw'r fferm mewn ALFf ddynodedig.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Nod 1 y Prosiect – Nodi llifoedd incwm aelwydydd**

Yr oedd 60% (wedi bod) mewn cynllun amaeth-amgylcheddol

Enwodd 67% Reoliadau/ Biwrocratiaeth yn rhwystrau rhag ymuno â chynllun amaeth-amgylcheddol

Yr oedd gan 41% ffynonellau incwm heblaw'r fferm

Yr oedd 78% mewn ALFf ddynodedig

Câi statws ALFf effaith andwyol ar incwm

Yr oedd trosiant blynyddol 38% yn llai na £25,000

Yr oedd incwm blynyddol crynswth 18% o'r aelwydydd incwm yn llai na £10,000

Credai 14% mai'r Taliad Sengl oedd prif ffynhonnell eu hincwm ar hyn o bryd

Credai 23% mai'r Taliad Sengl fyddai prif ffynhonnell eu hincwm yn y dyfodol

**Nod 2 – Amlygu hyd a lled yr arallgyfeirio a'r aml-swyddi**

Nid oedd 90% yn cyflogi neb nad oedd yn aelod o'r teulu

Rhedai o leiaf 50% ohonynt o leiaf un o'r gweithgareddau arallgyfeirio a enwyd yn yr holiadur

Yr oedd 30% yn debygol o ymgymryd â rhagor o weithgareddau arallgyfeirio dros y pum mlynedd nesaf

Rhedai 10% ryw ffurf ar fusnes organig

**Nod 3 – Amlinellu'r ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP, ac ymchwilio i agweddau ymddygiadol**

Yn gyffredinol ni wyddai 16% am gynllun Glastir

Yn gyffredinol, yr oedd 42% yn 'debygol iawn' neu'n 'debygol' o ymrestru yng nghynllun Glastir

Nid oedd 36% o'r math 'amrywiol' o ffermydd yn gwybod am gynllun Glastir

Yr oedd 29% o'r math 'amrywiol' hynny o ffermydd a oedd yn gwybod am Glastir yn annhebygol o ymrestru

Pe câi'r Taliad Sengl ei ostwng, yr oedd 52% yn 'annhebygol' neu'n 'annhebygol iawn' o newid eu gweithrediadau ffermio.

**Nod 4 – Sefydlu gwytnwch a bregusrwydd aelwydydd o ran diwygio'r CAP**

Pe câi'r Taliad Sengl ei ostwng, yr oedd 27% yn 'debygol iawn' neu'n 'debygol' o adael ffermio

Yr oedd gan 60% olynydd tebygol i'r fferm

Yr oedd gan 47% gynlluniau olynu teuluol

**Canfyddiadau Allweddol Cyffredinol**

Yr oedd 74% o'r ffermydd unigol yn eiddo i deulu

Yr oedd 26% o'r cyfweleion yn fenywod a 74% yn ddynion. D.S. Gofynnodd y cyfwelwyr am gael siarad â'r unigolyn ar yr aelwyd fferm a wnâi'r penderfyniadau busnes.

Yr oedd gan 19% gynllun busnes ar gyfer eu gweithgareddau ffermio

Yr oedd 54% wedi ceisio cyngor

Yr oedd 65% yn defnyddio cyfrifiadur at ddibenion y busnes

Yr oedd gan 80% gysylltiad â'r Rhyngrwyd

## 6.1 Rhagymadrodd

Fel y dangosir yn Adran 4.4, 'Y Dulliau Dadansoddi', yr oedd cyflawni Nod Tri y prosiect yn gofyn am ymchwil ansoddol. Galwai Nod Tri am amlinelliad o'r ymatebion i'r diwygio posibl ar y CAP, ac ymchwiliad i agweddau ymddygiadol. I roi sylw i'r nod hwnnw, gofynnwyd i'r cyfweleion ddau gwestiwn penodol a gyflwynai sefyllfaoedd gwahanol. Atgynhyrchir y cwestiynau hynny isod:

**Cwestiwn 21.**

*Pe bai newidiadau mewn polisïau amaethyddol ar ôl 2013 yn arwain at ostyngiad mewn taliadau i ffermwyr, neu'n gofyn am newidiadau i arferion ffermio, er enghraifft, cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol, beth fyddech chi'n ei wneud?*

**Cwestiwn 22.**

*Pe bai costau mewnbwn yn parhau i godi, ochr yn ochr â gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm, beth fyddwch chi'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf?*

Cofnododd y cyfwelwyr yr ymatebion i'r cwestiynau hynny air am air. Astudiodd yr ymchwilwyr yr ymatebion a'u codio fel y dangosir isod. Sylwer y gallai ymateb gynnwys elfennau o fwy nag un cod. Bu'n rhaid i'r ymchwilwyr farnu pa god oedd yr un mwyaf priodol. Pwynt methodolegol pwysig yw i'r ymatebion gael eu rhestru yn ôl y codau post. Hynny yw, cododd y codau o ymatebion penagored y cyfweleion.

## 6.2 Codau ar gyfer Cwestiwn 21

Dyma'r codau ar gyfer strategaethau goroesi os bydd newidiadau mewn polisïau a chynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol (Cwestiwn 21):

1. Cario ymlaen â'r busnes fel arfer.
2. Ansicr – heb fod yn siŵr beth i'w wneud.
3. Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol neu ymaddasu i wneud hynny:
    - 3a yn rhagweithiol
    - 3b o'u hanfodd
4. Arallgyfeirio/amlswyddogaethol/aml-incwm.
5. Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa
6. Dad-ddwysáu/cwtogi ar faint busnes y fferm.
7. Gadael ffermio:
    - 7a Ymddeol
    - 7b Gwerthu'r fferm.

## 6.3 Codau ar gyfer Cwestiwn 22

Dyma'r codau ar gyfer y strategaethau goroesi yn achos gwasgfa cost/pris (Cwestiwn 22):

1. Cario ymlaen â'r busnes fel arfer
2. Torri costau (h.y. ffermio'n fwy darbodus)
3. Ansicrwydd – heb fod yn siŵr beth i'w wneud
4. Ffermio'n fwy amgylcheddol
5. Arallgyfeirio/amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth)
6. Arallgyfeirio/amlswyddogaethol (ym myd amaeth)
7. Dwysáu/helaethu'r raddfa
8. Dad-ddwysáu/lleihau maint busnes y fferm
9. Gadael ffermio
    - 9a Ymddeol
    - 9b Gwerthu'r fferm.

Ar sail y codio, datblygwyd newidynnau newydd a'u croestablu yn erbyn y math o fferm, maint y fferm, statws ALFf, ffynonellau incwm, a'r tri mynegai a ddatblygwyd ynghynt yn y broses ddadansoddi: sef amlswyddogaetholdeb, arallgyfeirio ac entrepreneuriaeth.

## 6.4 Y gyfradd ymateb

Un cyfwelai'n unig a fethodd ag ymateb i'r ddau gwestiwn ansoddol. Mae hynny'n golygu bod 1008 o'r 1009 o ymatebion posibl wedi bod i'r naill a'r llall o'r ddau gwestiwn – i bob pwrpas, cyfradd ymateb o 100%.

## 6.5 Ansawdd yr ymatebion

Amrywio wnaeth ansawdd a hyd yr ymatebion. Yr oedd ambell un mor fyr nes bod yn gwta. Tueddai'r ymatebwyr hynny i ateb y cwestiynau heb ymhelaethu, hyd yn oed petai'r cyfwelwr yn holi ymhellach. Rhoes ymatebwyr eraill atebion llawn a manwl a sôn hefyd am agweddau eraill ar fywyd y fferm. Cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol o bob un o'r ymatebion.

## 6.6 Dadansoddiad

Rhennir y dadansoddiad isod yn ddwy adran: un i bob cwestiwn. Dadansoddir yn gyntaf yr atebion i'r cwestiwn am newidiadau posibl mewn polisïau a chynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol.

## 6.7 Yr ymatebion i newidiadau posibl mewn polisïau a chynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol

Dyma'r cwestiwn eto:

Pe bai newidiadau mewn polisïau amaethyddol ar ôl 2013 yn arwain at ostyngiad mewn taliadau i ffermwyr, neu'n gofyn am newidiadau i arferion ffermio, er enghraifft, cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol, beth fyddech chi'n ei wneud?

### 6.7.1 Dadansoddi amlder

Cofnododd y rhan gyntaf o'r dadansoddiad amlder y codau. Yn Nhabl 6.1 dangosir yr amlderau a'r cyfrannau hynny. Darlunnir y dadansoddiad â dyfyniadau priodol o'r ymatebion.

**Tabl 6.1 Amlder y codau**

| Cod | Amlder | Y gyfran o'r sampl gyfan |
|---|---|---|
| Cario ymlaen â'r busnes fel arfer | 275 | 28% |
| Ansicr | 224 | 22% |
| Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol neu ymaddasu i wneud hynny – yn rhagweithiol | 61 | 6% |
| Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol neu ymaddasu i wneud hynny – o'u hanfodd | 11 | 1% |
| Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol/ aml-incwm | 40 | 4% |
| Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa | 101 | 10% |
| Dad-ddwysáu/cwtogi ar faint busnes y fferm | 153 | 15% |
| Gadael ffermio – Ymddeol | 39 | 4% |
| Gadael y diwydiant ffermio– Gwerthu'r fferm | 104 | 10% |
| Cyfanswm | 1008 | 100% |

### 6.7.2 Cario ymlaen â'r busnes fel arfer

Mae'r data'n dangos nad oedd y gyfran fwyaf o'r aelwydydd fferm a arolygwyd (28% neu bron un o bob tri) yn rhagweld gwneud unrhyw newid i'w busnes ffermio petai'r taliadau'n gostwng neu petai gofyn iddynt gynyddu eu cyfrifoldebau amgylcheddol. Rhoes y cyfweleion amrywiaeth o resymau dros gario ymlaen â'r busnes fel arfer.

I rai o'r ymatebwyr yn y categori hwn rhoddwyd ymatebion diwastraff – '*Bydda i'n dal ati*' – ond awgrymodd ymatebion eraill fod ffermio'n dipyn o frwydr:

*Bydda i'n brwydro 'mlaen – ac yn dilyn yr un polisi ag sydd gen i'n awr. Bydda i'n dal ati i ffermio gyda 'ngwartheg eidion fel rwy' bob amser wedi'i wneud.*

Cyfeiriodd eraill at y Taliad Sengl gan amlygu eu hagweddau at daliadau. Yr oedd y ffermwyr hynny'n trin y Taliad Sengl fel bonws y gellid ei dynnu'n ôl:

*Bydda i'n ceisio peidio â meddwl am y taliad sengl. Bydda i'n ceisio gweithio'r busnes heb dderbyn hynny'n elw. Rwy'n gwybod y bydd yn diflannu cyn hir, ac felly, os bydda i'n ceisio dal 'mlaen â 'musnes ac yn anwybyddu'r taliad, bydda i'n ei drin fel bonws.*

*Byddwn i'n cario mlaen fel dwi'n awr - am fy mod i'n ffermio fel dwi'n awr - ac yn teimlo nad ydy beth mae'r cynlluniau talu yn ei wneud yn berthnasol.*

Dadl eraill oedd na fyddai unrhyw newid yn effeithio arnynt am nad oeddent yn cael y Taliad Sengl a'u bod eisoes yn ffermio'n amgylcheddol:

*Rwy'n credu'n bod ni'n rhedeg ein lle ni'n addas i'r amgylchedd. Dydyn ni ddim yn defnyddio gwrtaith na chwistrell, a châi cynnydd yn y cyfrifoldebau amgylcheddol ddim effaith felly, dydw i ddim chwaith yn cael y taliad sengl ar hyn o bryd.*

*Dal ati fel ryden ni. Dwi'n eitha tirion wrth yr amgylchedd yn barod. Dyden ni ddim yn ffermio'n ddwys a dwi ddim yn meddwl y câi unrhyw newid ormod o effaith ar ein fferm ni.*

Yn y categori hwn yr oedd is-grŵp na fyddent yn newid eu harferion ffermio ond fe wrthwynebent newidiadau mewn polisïau, gorbwyslais tybiedig ar yr amgylchedd, a gorfod cynhyrchu llai o fwyd o ganlyniad i hynny:

*Ymladd yn ei erbyn drwy lobïo. Os bydd y pwyslais yn llawer, llawer trymach ar gadwraeth amgylcheddol, yn hytrach nag ar gynhyrchu bwyd, rwy'n credu y gwêl y cyhoedd lai o fwyd a phrinder bwyd – byddwn i'n pwysleisio wrth lywodraeth Cymru mai dyna'r ydyn ni'n ei bregethu ers oesoedd, a lobïo yn erbyn y materion hynny ynghylch cadwraeth. Does gen i ddim problem o ran gofalu am yr amgylchedd, ond pan wna i hynny bydd yn effeithio ar gynhyrchu bwyd ac ar faint y bydda i'n ei gynhyrchu.*

### 6.7.3 Ansicr – heb fod yn siŵr beth i'w wneud

Yr oedd y cyfweleion yn y categori ail fwyaf yn ansicr o'u hymateb i newidiadau posibl. Dywedodd y mwyafrif o'r cyfweleion yn y categori hwn, nid heb reswm, y byddai gofyn iddynt gael gwybod rhagor am unrhyw newid cyn iddynt allu ystyried eu safbwynt a llunio strategaeth. Ond amlygodd rhai o'r ymatebion yn y categori hwn broblemau gwaelodol. Er enghraifft, o astudio rhai ymatebion gellid dirnad bod y ffermwyr yn ystyried bod cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cyfyngu ar eu harferion ffermio:

*Bydd angen i ni gael gwybod pa gyfyngiadau fydd arnon ni cyn gweld sut y byddwn ni'n delio â nhw.*

*Byddai'n dibynnu beth fyddai'r cyfyngiadau ar ein harferion ni.*

*Mae'n debyg y byddwn i'n cwyno'n groch. Mae'r llywodraeth yn disgwyl i ni ddilyn gormod o reolau ac mae angen rhagor o oriau o lafur arnoch chi i roi'r newidiadau hynny ar waith.*

*Does gan y bobl sy 'uwch ein pennau', fel Llywodraeth y Cynulliad a'r prif weision sifil ac Ewrop ddim syniad bod y rheolau y maen nhw'n eu gosod yn rhai hurt ac anymarferol ar gyfer dyfodol ffermio.*

*Os bydd y cyfrifoldebau amgylcheddol yn ormod i ymuno â Glastir, dyna ddadwneud yr holl waith rydyn ni wedi'i wneud dros yr amgylchedd. Cawn ni weld.*

*Dydw i ddim am fy nghlymu fy hun â gormod o reolau a rheoliadau. Bydda i'n hoffi cadw pethau'n eitha agored.*

Yma eto, rhagwelai rhai ohonynt y byddent yn cynhyrchu llai o fwyd:

*Wn i ddim. Ond mae angen iddyn nhw stopio bod yn ddwl. Fydd neb yn*

*cynhyrchu bwyd os bydd pethau'n mynd 'mlaen fel hyn.*

*Os torran nhw lawer ar y taliad sengl, bydd pawb yn torri'n ôl ac yn bod yn fwy hunangynhaliol. Caiff chwarter y busnes magu da byw ei golli. Caiff y taliad sengl bob amser ei wario ar gynhyrchu bwyd.*

Roedd rhai cyfweleion yn poeni'n arbennig am y posibilrwydd o golli taliadau, ac awgrymai hynny y byddent yn ddibynnol:

*Wn i ddim – gallai bywyd fod yn anodd iawn heb gymorth.*

*Petaen ni'n cael arian iawn am ein llaeth, fyddai'r taliad sengl ddim mor bwysig. Wn i ddim, wir, beth fydden ni'n ei wneud.*

*Alla i ddim â dod i ben heb daliadau.*

*Pe câi'r arian ei gwtogi, byddai'r mwyafrif o ffermwyr yn mynd i'r wal. O ran pethau amgylcheddol, rydyn ni'n organig ac felly'n gwneud hynny'n barod. O'r cymorthdaliadau y daw hanner holl incwm y ffermydd. Felly, wn i ddim sut y bydden ni'n dod i ben petai hynny'n digwydd*.

*Allen ni ddim byw heb gymhorthdal . Wn i ddim beth fyddwn i'n ei wneud.*

*Daw hanner y cyfan o incwm ffermydd o'r cymorthdaliadau. Wn i ddim sut y bydden ni'n dod i ben petai hynny'n digwydd.*

Gobeithio mai dangos synnwyr digrifwch du wnaeth rhai o'r cyfweleion wrth sôn am eu lladd eu hunain.

*Chwilio am goeden uchel a darn o raff. Ond tan i hynny ddigwydd, gawn ni weld.*

*'Lladd fy hun.' Dwi'n credu'n bod ni'n boddi mewn cyfyngiadau amgylcheddol, a dyna pam na fydda i'n ymuno â'r un cynllun amgylcheddol. Mae gen i farn gref am beidio â defnyddio tir y gellid ei ffermio.*

### 6.7.4 Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol neu ymaddasu i wneud hynny: yn rhagweithiol

O ran ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol, yr oedd dau gategori. Y cyntaf, sef 6% o'r sampl, oedd y rhai a alwyd yn 'rhagweithiol', sef y rhai a ddefnyddiodd dermau fel '*cyflawni cyfrifoldebau amgylcheddol*'. Awgrymodd llawer o'r cyfweleion hynny eu bod eisoes yn ffermio'n gydnaws â'r amgylchedd. Ond er eu bod wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da, mynegodd rhai ohonynt bryderon eraill:

*Tynnu 'ngwallt o 'mhen! Twyll llwyr yw'r cyfan. Petai'r trethdalwyr yn gwybod beth maen nhw'n ei arllwys i bocedi'r ffermwyr, bydden nhw'n anobeithio. Mae'r cydbwysedd ar chwâl yn llwyr. Rwy'n barod iawn iawn i fynd ar hyd llwybrau amgylcheddol, ond mae 'nghydwybod yn dweud wrtha i ei fod yn wastraff llwyr ar arian cyhoeddus, ond byddai'n gwneud bywyd yn haws i mi ac mae hynny'n braf. Allwn ni ddim ond dal i fyw bywyd bras nes i rywun orfod codi'r darnau, ac nid ym myd amaeth yn unig fydd hynny. Trasiedi yw'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae cenhedlaeth o ffermwyr wedi'u colli am iddyn nhw fynd i chwilio am swyddi sydd â llai o oriau gweithio anghymdeithasol. Wn i ddim pwy fydd eisiau gwneud y gwaith 'ma.*

*Byddwn i'n cynyddu fy nghyfrifoldebau amgylcheddol ac, wrth gwrs, gwleidyddion a neb arall sy'n diffinio cyfrifoldebau amgylcheddol. Felly, rhaid i mi ddweud y byddwn i ychydig bach yn amheus o'u barn am yr hyn sy'n amgylcheddol gyfrifol.*

*Byddwn i'n fodlon cynyddu fy nghyfrifoldebau amgylcheddol.*

### 6.7.5 Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol neu ymaddasu i wneud hynny: o'u hanfodd

Yr oedd 1% o'r sampl o'u hanfodd o ymuno â chynllun neu'n ymuno petai'n talu'n well:

*Fe wnawn i gyn lleied â phosibl i gael cymaint o arian ag y gallwn i. Rydych chi'n amgylcheddwr, neu'n ffermwr a dim byd arall. Ffermwr a dim arall ydw i.*

*Byddwn i'n gwneud beth fyddai'n rhaid i mi ei wneud i gael y taliadau o gynlluniau amgylcheddol. Ond fe wnawn i gymaint o ffermio ag y gallwn i. Byddwn i'n ceisio manteisio ar beth bynnag y gallwn i. Byddai hynny'n golygu arallgyfeirio os na fydd magu stoc yn dod â thaliadau i chi.*

*Cynyddu'r cyfrifoldebau amgylcheddol, os bydd rhaid.*

*Gweld a allen i gynyddu'r ochr amgylcheddol ond, fel arall, pe na bawn i'n cael tâl byddwn i'n gorfod rhoi'r gorau iddi. Allen i ddim â fforddio mynd ymlaen.*

*Wel, bydden ni'n cydymffurfio. Rwy'n gwybod y bydd ffermydd mynydd Glastir fel ni'n ei chael hi'n anodd o'n cymharu â ffermydd ar dir is. Fel rheol, nhw yw'r rhai sydd agosaf at bentref. Ni yw'r rhai sy'n gorfod teithio ymhellach, ac mae hynny'n cynyddu costau. Dylai hi fod yn gyfartal.*

*Efallai y dylen ni fynd i'r afael â chadwraeth yr amgylchedd, ond dydy'r amgylchedd ddim yn darparu bwyd.*

*Pe bai newidiadau mewn polisïau'n arwain at ostwng y taliadau, byddai'n rhaid i ni ddod o hyd i ragor o arian o rywle arall, ac os byddai cynnydd yn y cyfrifoldebau amgylcheddol, bydden ni'n eu cyflawni ar yr amod nad oes gormod o waith papur.*

*Cyhyd â'u bod nhw'n ein talu ni, fe wnewn ni hynny.*

*Does dim ots 'da fi ragor o gyfrifoldebau. Bydda i'n derbyn cyfrifoldebau. Petaen nhw'n stopio'r arian, byddwch chi'n meddwl tybed a ddylwn i gario 'mlaen â'r cyfrifoldeb? Peidio â chael arian am gadw ewyllys da moesol. Os caiff y cymorth ariannol ei ostwng, ac os bydd disgwyl i ffermwyr gymryd llai o dâl, byddan nhw'n manteisio mwy ar ewyllys da. Byddwn i'n fodlon ei wneud e' tawn i'n cael rhagor o arian.*

*Ceisio gwneud cymaint â phosibl o arian o'r cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol.*

Yr oedd rhai wrthi'n ystyried amrywiaeth o bosibiliadau:

*Petai yna elw ariannol, byddai gen i ddiddordeb mewn newid i gyflawni'r cyfrifoldebau amgylcheddol ychwanegol. Os byddai hynny'n golygu na fyddai ffermio'n talu, byddwn i'n ystyried gwneud rhywbeth arall, rhoi'r gorau i ffermio neu rentu'r tir i rywun arall, neu'n gwneud rhywbeth arall.*

Ac yr oedd rhai'n poeni llawer iawn am y posibilrwydd o ostyngiad yn y Taliad Sengl:

*Dwi'n poeni'n arw am golli'r Taliad Sengl. Basa'n rhaid i ni ymuno â chynllun newydd i gael yr arian yn ôl, ond dwi'n dibynnu llawer ar y Taliad Sengl.*

*Byddai'n rhaid i ni ymateb i'r gofynion. Pan fyddwch chi'n dibynnu ar daliad, rhaid i chi addasu i ateb y gofynion. Fel arall, wnaiff y busnes ddim para*.

### 6.7.6 Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol/aml-incwm.

Gan adlewyrchu'r cyfrannau cymharol isel o aelwydydd fferm yn yr arolwg a oedd wedi arallgyfeirio, fel y dangosir gan y dadansoddiad o amlder yn Adran 5, bwriad 4% o'r sampl oedd arallgyfeirio neu chwilio am ffurfiau eraill ar incwm pe câi'r taliadau eu gostwng neu petai'n rhaid iddynt ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol.

I rai, yr oedd y posibilrwydd hwnnw'n diraddio rôl ffermio:

*Byddai'n golygu bod arallgyfeirio'n bwysicach na'r fferm.*

Rhagwelai eraill y byddai'n rhaid dod o hyd i waith y tu allan i ffermio:

*Aros i weld. Wn i ddim. Bydd yn rhaid i mi ddod o hyd i waith. Rwy'n 47 ac felly byddai'n dipyn o ymdrech, ond byddai'n rhaid i mi ddod o hyd i waith.*

*Ceisio dal ati i ffermio a dod o hyd i ryw waith arall y tu allan i ffermio.*

Yr oedd gan eraill gynlluniau i arallgyfeirio:

*Byddwn i'n stopio hawlio'r Taliad Sengl ac yn arallgyfeirio i fyd ceffylau. Mae'n*

*ddigon anodd ar hyn o bryd heb iddyn nhw ostwng y taliadau.*

*Efallai y bydden i'n gorfod ystyried newid o ffermio i rywbeth fyddai'n talu'n well, fel plannu cnydau ynni neu rywbeth.*

*Efallai y bydden ni'n ceisio arallgyfeirio, ond nid tan hynny, ac efallai y byddai'n rhaid i ni chwilio am rywbeth bryd hynny. Addasu rhai o adeiladau'r fferm. Mae 'na hen adeiladau y gallen ni eu haddasu – mae hynny'n bosibilrwydd.*

*Rwy'n barod i arallgyfeirio. Efallai y bydd yn rhaid i aelod o'r teulu weithio y tu allan i'r fferm neu i mi werthu pethau fel adeiladau segur.*

*Byddwn i'n ystyried tyfu cnydau ynni neu godi melinau gwynt.*

Poenai'r cyfwelai hwn am ddyfodol ffermwyr bach:

*Rhoi cynnig ar bethau eraill, fel melin wynt. Rwy'n credu y dylen nhw roi grantiau i'r ffermwyr bach, nid i'r ffermwyr mawr yn unig. Mae hi fel petaen nhw am wasgu'r ffermydd bach allan ohoni.*

Er bod y cyfwelai hwnnw'n awyddus i arallgyfeirio, roedd rheoliadau'r Parc Cenedlaethol yn ei rwystro:

*Byddwn i'n hoffi arallgyfeirio a chodi fferm wynt, ond châ i ddim gwneud hynny am ein bod ni yn y Parc Cenedlaethol ac alla i ddim gwneud dim byd felly.*

### 6.7.7 Dwysáu busnes y fferm/ helaethu'r raddfa

Cymharol fawr oedd y cyfrannau o ffermwyr a fyddai'n ymateb i'r sefyllfa arfaethedig drwy newid graddfa busnes eu fferm drwy ei gynyddu neu ei leihau: byddai 10% yn dewis ei helaethu a 15% yn ei leihau.

Dyma eiriau'r rhai a fyddai'n ystyried cynyddu maint y fferm:

*Ceisio cynyddu nifer yr erwau, efallai.*

*Ehangu – gan obeithio cael mwy o arian o'r farchnad nag o daliadau. Gobeithio y byddai hynny'n cynnal ein hincwm ni.*

*Byddai'n rhaid i mi gynhyrchu mwy rywsut. Pe bai'n dod i hynny, byddai'n rhaid i ni ystyried dewisiadau eraill oddi ar y fferm.*

*Gobeithio y byddai gynnon ni rhagor o anifeiliaid i gynhyrchu rhagor o incwm a gwneud iawn am y golled.*

*Cynhyrchu rhagor o arian drwy gadw rhagor o stoc.*

Er na wnaeth y cyfwelai hwnnw ddweud y byddai'n ehangu ei fusnes, mae ei ymateb yn awgrymu bod ganddo agwedd gadarnhaol at y posibilrwydd o ehangu:

*Petai'r Taliad Sengl yn dod i ben, byddai'r ddeddfwriaeth yn diflannu, ac felly rwy'n credu y byddai'n fater i mi gynhyrchu rhywbeth ar gyfer marchnad arbenigol – a pheidio â dibynnu ar y Taliad Sengl.*

### 6.7.8 Dad-ddwysáu/cwtogi ar faint busnes y fferm

Lleihau'r busnes wnâi'r cyfweleion hyn, ymhlith eraill:

*Efallai yr ystyriwn ni adael neu dorri'n ôl.*

*Cwtogi ar nifer yr anifeiliaid sydd gen i, mae'n debyg.*

*Cwtogi ar weithgarwch y fferm.*

*Gorfod torri'n ôl a gostwng nifer y peiriannau – llai o offer a llai o siediau.*

*Cadw llai o stoc.*

*Byddwn ni'n dal i ffermio ond bydd gynnon ni lai o anifeiliaid.*

*Cael gwared ar yr uned stoc fyw hefyd.*

*Dwi ddim yn siŵr. Cwtogi ar nifer y gwartheg, efallai. Fe all mai'r unig ateb fydd ceisio bod yn hunangynhaliol. Ceisio peidio â phrynu rhagor o silwair.*

*Petai'r taliadau'n cael eu gostwng byddai'n rhaid i ni ostwng niferoedd y stoc ond hyd yn oed bryd hynny fyddwn i ddim yn siŵr a fyddai'r busnes yn para.*

Yr oedd yr ymatebydd hwn wedi cynllunio strategaeth a gynhwysai'r amgylchedd ac addasiadau i'w arferion ffermio:

*Mae'r cyfan yn dibynnu ar yr arian ga' i am fy ŵyn. Os bydd pris ŵyn yn gostwng, mi ga' i wared ar y defaid tan y galla i wneud elw ohonyn nhw unwaith eto. Bydda i'n cwtogi ar wrtaith ac ati. Rwy'n gobeithio y bydd gan Glastir ail lefel o fynediad iddo i wneud gwaith cyfalaf. Ac os dechreua i gadw ieir a chael wyau maes, mae'n fwy na thebyg y bydda i'n cynyddu hynny ac yn cadw llai o ddefaid a gwartheg.*

### 6.7.9 Gadael ffermio: Ymddeol

O gofio bod ffermwyr yn heneiddio, yr oedd hi'n syndod gweld na fyddai ond 4% yn ystyried ymddeol os byddent yn wynebu'r newidiadau posibl. Ar y cyfan, yr oedd y cyfweleion yn y categori hwn yn tynnu at oedran ymddeol a byddent wedi'i gyrraedd erbyn 2013.

*Fwy na thebyg mai cario mlaen wnawn ni. Ond mae'n debyg y bydda i wedi ymddeol erbyn hynny.*

*Bydda i wedi ymddeol erbyn hynny.*

*Dywedwch wrthyn nhw beth i'w wneud â hwn'na! Mae'n bryd ymddeol! Does dim diben aredig tywod. Mae'n dibynnu beth wnaiff ddigwydd – ymddeol, efallai.*

*Os byddan nhw'n dileu taliadau'n fwy nag y maen nhw nawr, bydd pobl yn gadael byd amaeth yn llwyr. Mae ochr ddefaid y busnes eisoes yn cau. Byddwn i'n rhoi'r gorau i'r cyfan. Rwy'n tynnu at oedran ymddeol 'nawr beth bynnag.*

### 6.7.10 Gadael ffermio: Rhoi'r gorau i ffermio

Er hynny, byddai 10% o'r sampl yn peidio ag ymddeol ond yn gadael ffermio petaent yn wynebu gostyngiadau yn y taliadau a chynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol. Mae rhai o'r dyfyniadau isod yn dangos hyd a lled (a) y ddibyniaeth ar bolisïau a (b) y rhwystredigaeth ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn or-reoleiddio.

*Mae'n dibynnu ar hyd a lled y newidiadau polisi wnaiff ddigwydd, ond fe allai wneud i mi adael byd amaeth o bosib.*

*Wn i ddim beth fydden i'n ei wneud petai rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – rhoi'r gorau iddi.*

*Os nad oes cymorth ariannol, does dim posib parhau i ffermio yn yr ardal hon heb gael y cymorth hwnnw.*

*Os gwthian nhw gymaint o reoliadau amgylcheddol arnon ni, bydda i'n dewis gadael ffermio a chymryd swydd. Alla i ddim godde'r ffwdan mwyach.*

*Gadael ffermio am ei fod yn ormod o straen a thrafferth.*

*Bydden ni'n ystyried rhoi'r gorau i ffermio neu'n arallgyfeirio llawer iawn o'r hyn rydyn ni arni ar y foment. Does fawr o lewyrch ar bethau fel y mae hi.*

*Gosod y fferm. Pe bai'r taliad sengl yn mynd, allen i ddim gwneud bywoliaeth ac wn i ddim am neb fyddai'n gallu gwneud hynny.*

*Byddai'n rhaid i mi ystyried fy sefyllfa o ddifri. Petawn i'n methu â chael incwm o rywle arall, byddwn i'n rhoi'r gorau iddi.*

*Gorffen y cwbl lot. Rhagor o fiwrocratiaeth. Mae treulio rhagor o amser yn cydymffurfio â'r hyn sydd wedi'i ddweud wrthon ni, a llenwi rhagor o ffurflenni, yn tynnu oddi ar y ffermio'i hun. Dyw'r tir ddim yn cynhyrchu elw mawr. Dim ond eisiau ffermio rydw i! Mae arna i eisie bwydo'r genedl a gwneud bwyd da.*

*Rwy'n credu y byddwn i'n rhoi'r gorau i ffermio.*

*Rhoi'r gorau i ffermio, yn bendant.*

*Rhoi'r gorau iddi. Os oes bwriad i ostwng y taliad sengl, fydda i ddim yn gwybod beth rydw i'n ei wneud, ac mae cwestiynau dwl fel hyn yn fy ngwylltio i'n gaclwm. Pam ar y ddaear las y byddech chi'n gostwng y taliad sengl ac yn cynyddu cynlluniau cadwraeth amgylcheddol twp serch eu bod nhw wedi methu'n llwyr hyd yn hyn. Cofnodwch*

*hyn: mae'r diffyg adar yn codi arswyd arna i ac mae'r cynlluniau cadwraeth yn dda i ddim byd. Mae'r adar yn marw'n frawychus o gyflym ac mae llond y lle o'r rhai sy'n eu lladd nhw. Aeth ffermwr sy'n gymydog i ni ati i ladd a chladdu 200 o foch daear am eu bod nhw'n mynd i bwll silwair un dyn bob nos. Mae 'na broblemau aruthrol o ran y diciâu.*

### 6.7.11 Pwyntiau cyffredinol

Yr oedd y dyfyniad uchod yn trin a thrafod amryw o faterion llosg, ond tebyg oedd tôn ymateb cyfweleion eraill. Dyma rai ohonynt:

*Llwgu – am na allwn ni fyw ar yr amgylchedd. Rwy'n cytuno â pheidio â llygru afonydd a nentydd a phethau felly, ond fydd hi o ddim budd i neb os cadwn ni ddarnau o dir heb eu defnyddio nhw. Mae hynny'n dreth ar ein hadnoddau ni. Arian y trethdalwyr yw'r taliadau sengl.*

*Dydy'r agwedd at ffermio ddim yn iawn. Nid cynhyrchu yw'r nod. Rwy'n credu bod ffermwyr wedi lleihau eu stoc am eu bod yn gwybod y gallan nhw gael yr arian o'r taliad sengl.*

*Rwy'n credu mai'r peth gorau yw dileu'r CAP er mwyn i mi fwrw ymlaen â ffermio fy nhir fel rwy'n dymuno'i wneud heb i neb ymyrryd.*

*Ymddeol. Rydyn ni bob amser wedi ceisio bod yn gadwraethwyr. Rwy'n teimlo bod y cynlluniau amaeth-amgylcheddol bob amser wedi bod yn dda ond maen nhw'n mynd yn rhy bell nawr. Gan bwyll bach, mae'n cwm ni'n cau. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wrthi'n ffensio'r cwm ac maen nhw wedi cymryd y defaid i gyd. Mae hi'n union fel jyngl. Fydd pobl ddim yn gallu cyrraedd yr ardaloedd hyn am eu bod nhw'n bell ac yn anhygyrch. Gwlad wyllt a diffaith fydd 'ma. Fe hoffen ni gael mwy o reolaeth dros y dirwedd.*

## 6.8 Ymatebion i'r posibilrwydd o wasgfa cost/pris

Dyma Gwestiwn 22 yn yr holiadur unwaith eto:

Pe bai costau mewnbwn yn parhau i godi, ochr yn ochr â gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm, beth fyddwch chi'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf?

### 6.8.1 Dadansoddiad amlder

Fel yn achos Cwestiwn 21, cafodd yr ymatebion eu codio yn ôl y codau post. Yn Nhabl 6.2 dangosir amlder y codau a chyfrannau'r sampl gyfan. Darlunnir y dadansoddiad â dyfyniadau priodol o'r ymatebion. Unwaith eto, rhaid nodi nad oedd yr ymatebion a'r codau'n gwbl wahanol i'w gilydd: cafwyd gorgyffwrdd rhyngddynt.

**Tabl 6.2 Amlder y codau**

| Cod | Amlder | Y gyfran o'r sampl gyfan |
|---|---|---|
| Cario ymlaen â'r busnes fel arfer | 209 | 21% |
| Torri costau (h.y. ffermio'n fwy darbodus) | 117 | 12% |
| Ansicrwydd – heb fod yn siŵr beth i'w wneud | 162 | 16% |
| Ffermio'n fwy amgylcheddol | 13 | 1% |
| Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth) | 73 | 7% |
| Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol (ym myd amaeth) | 26 | 3% |
| Dwysáu/helaethu'r raddfa | 19 | 2% |
| Dad-ddwysáu/lleihau maint busnes y fferm | 114 | 11% |
| Gadael ffermio: Ymddeol | 43 | 4% |
| Gadael ffermio: Gwerthu'r fferm | 232 | 23% |
| Cyfanswm | 1008 | 100% |

### 6.8.2 Cario ymlaen â'r busnes fel arfer

Dywedodd ychydig dros un o bob pump o'r cyfweleion (21%, y categori ail fwyaf) y byddent yn bwrw ymlaen â busnes eu fferm fel arfer petai

gwasgfa cost/pris,. Dadl rhai oedd eu bod wedi'u cloi mewn i farchnadoedd penodol:

*Gweddïo am i brisiau wrth glwyd y fferm godi eto! Does gen i ddim grym fel ffarmwr llaeth organig – rwy' ar drugaredd pris y llaeth.*

*Dal ymlaen fel rydw i. Alla i ddim neidio at bob newid. Ym myd amaeth, allwch chi ddim newid cyfeiriad drwy'r amser. Mae'n rhy ddrud. Rhaid i chi fwrw ymlaen fel rydych chi a gwneud pethau mewn ffordd haws a symlach. Dyna'r cyfan y gallwch chi ei wneud.*

Credai eraill eu bod wedi'u magu'n ffermwyr a bod ganddynt gysylltiadau diwylliannol cryf â'u tir a'u ffordd o fyw:

*Byw'n fwy cynnil. Fi yw'r bumed genhedlaeth ar y fferm yma a'r mab yw'r chweched. Byddwn i'n hollol anfodlon rhoi'r gorau i'r fferm mewn dim.*

*Cario 'mlaen faswn i. Dach chi'n cael eich geni iddo fo.*

### 6.8.3 Torri costau (h.y. ffermio'n fwy darbodus)

Byddai mwy nag un o bob deg o'r cyfweleion (12%) yn parhau â'u gweithgareddau ffermio cyfredol ond yn rhoi mwy o sylw i ffermio'n ddarbodus ac yn effeithlon. Mae'r dyfyniadau'n dangos rhai o'r mesurau a gymerent:

*Byddwn i'n cwtogi ar y stoc a ga' i i mewn ac yn peidio â gwario cymaint ar borthiant.*

*Ceisio gwneud ein gwaith yn fwy effeithlon. Byddai'n rhaid i ni fod yn fwy gofalus wrth ddewis stoc.*

*Cwtogi ar ein gwariant – dim tractor newydd, dim car newydd, dim Land Rover newydd.*

*Fe geisia i gwtogi ar y costau llafur, costau'r peiriannau a cheisio bod yn effeithlon.*

*Dechrau byw'n gynnil yn gyflym iawn. Wn i ddim ym mha feysydd, a dweud y gwir. Porthiant, tanwydd a gwrtaith – dyna'r costau mwyaf. Byddwn i'n ystyried cwtogi costau'r system honno, am wn i. Peidio â gwario cymaint ar offer, ond gallai hynny fod yn gam gwag.*

*Rwy' wedi cyrraedd y terfyn erbyn hyn ac felly byddai'n rhaid lleihau'r costau. Llai o beiriannau a ffitiadau – ceisio cynilo lle bynnag y galla i.*

### 6.8.4 Ansicrwydd – heb fod yn siŵr beth i'w wneud

Mynegwyd eu pryderon gwaelodol wnaeth ymatebion yr 16% o'r cyfweleion a fynegodd ansicrwydd ynglŷn â'u hymateb i wasgfa cost/pris:

*Fe wyddoch chi beth mae ffermwyr yn ei wneud. Fe ddalian nhw i gynhyrchu ar gyfer y farchnad, hyd yn oed os gwnân nhw golled. Wn i ddim, felly, beth yw'r ateb.*

*Byw'n fwy cynnil. Torri'n ôl yn rhywle – ond does gen i ddim syniad ble.*

*Ceisio dal ein tir. Aros i weld.*

*Rhaid i ni wneud rhywbeth neu fe gollwn ni'n ffarm.*

*Wn i ddim ar hyn o bryd – ymosod arno pan ddaw. Ar hyn o bryd, mae ffermio'n wael. Mae gen i ddau fab a rhaid i mi feddwl amdanyn nhw hefyd. Rhaid i ni siarad fel teulu, ac alla i ddim ateb y cwestiwn drostyn nhw hefyd.*

*Wn i ddim. Beth allwch chi ei wneud? Dyna lle'r ydych chi wrthi'n ffermio ac o ystyried beth sy'n digwydd gyda'r llywodraeth, beth allwn ni ei wneud am hynny? Maen nhw'n gwastraffu arian ymhobman. Does dim byd y gallwn ni ei wneud.*

Yma eto,. dangosodd rhai ymatebion fod yna ddibynnu ar daliadau i ffermydd:

*Ar hyn o bryd, dydy ffermio ddim yn talu, a'r taliad sengl yw'r cyfan. Os caiff hwnnw ei ostwng yn 2013 bydd angen meddwl o ddifri. Os bydd y costau'n codi, fe awn ni i ddyled.*

*Wn i ddim am 'mod i ar ymyl y dibyn fel y mae hi. Y taliad sengl sy'n fy nghadw i fynd.*

A chafwyd rhai a soniodd am y posibilrwydd o'u lladd eu hunain:

*Rhaff hir a thrawst cadarn. Ceisio dal ati.*

*Bydd hynny'n ddychrynllyd. Mae'n fwy na thebyg mai saethu fy hun wnawn i.*

### 6.8.5 Ffermio'n fwy amgylcheddol

Un y cant yn unig (13/1008) o'r ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn ymateb i wasgfa cost/pris drwy fabwysiadu arferion ffermio a fyddai'n fwy cydnaws â'r amgylchedd. Ymhlith y mesurau hynny yr oedd newid y brid o dda byw:

*Cwtogi ar wrtaith, bwyd anifeiliaid ac, yn sicr, newid cydbwysedd y bridiau. Fe ddechreuon ni wneud hynny. Roedd gynnon ni ddefaid pedigri Suffolk ond fe gwtogon ni ar hynny a dod i mewn â math o famog fyddai'n pori'n well ar y llethrau. Petai'r sefyllfa ariannol yn ein gorfodi ni i wneud hynny, bydden ni'n newid yn llwyr i'r math yna o famog.*

*Cadw da byw sy'n haws eu cael i fyw oddi ar y tir, fel rhagor o famogiaid mynydd Cymreig.*

*Byddai'n rhaid i ni geisio torri costau ffermio a chynhyrchu llai. Byddai'n rhaid ffermio'n helaethach a pheidio â ffermio mor ddwys.*

### 6.8.6 Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth)

Yn gynharach yn adroddiad hwn fe nodwyd y lefelau cymharol isel o weithgareddau arallgyfeirio. O'r 7% o'r sampl a ddywedodd y byddent yn arallgyfeirio y tu allan i fyd amaeth, yr oedd rhai wrthi eisoes:

*Gallen ni gynyddu'r ochr gontractio i'r busnes.*

*Gwneud yn union beth rydyn ni'n ei wneud nawr. Yn y bôn, arallgyfeirio sy'n cadw'r fferm i fynd.*

*Gan 'mod i'n derbyn nad oes llawer o arian mewn ffermio, byddwn i'n troi ychydig yn fwy at dwristiaeth drwy ehangu'r gwersyll.*

*Byddwn i'n ceisio ehangu'r ochr geffylau i bethau, fel cael rhagor o stablau ac amwynderau. Gwneud i'r gŵr weithio oriau ychwanegol.*

*Rhoi mwy o sylw i'r arallgyfeirio. Cynyddu fy menthyciad, mae'n debyg, i gadw'r busnes i fynd. Efallai y byddai'n rhaid i mi werthu rhywbeth i ostwng y benthyciad i lefel dderbyniol.*

*Cario 'mlaen fel rydyn ni. Allwn ni ddim â gadael byd amaeth. Gweithio'n galetach y tu allan i'r fferm – ein swyddi y tu allan sy'n cadw'r fferm i fynd.*

I eraill, menter newydd fyddai'n galw:

*Cwtogi ar nifer y da byw a throi at felinau gwynt, ynni gwynt.*

*Arallgyfeirio – mae'n fwy na thebyg y bydden ni'n gorfod chwilio am swyddi y tu allan i fyd amaeth, a byddai'n rhaid i'r fferm fod yn eilbeth i'r rheiny.*

Lled-awgrymodd rhai ohonynt fod eu sefyllfa ariannol yn anodd:

*Edrych ar ein proses arallgyfeirio i weld a allwn ni wneud mwy o elw ohoni. Os na allwn ni, efallai y bydd yn rhaid i ni adael byd amaeth a'r busnes.*

*Byddai'n anodd – ceisio dod o hyd i swydd y tu allan.*

Awgrymodd eraill nad oedd prisiau'n rhy wael ar hyn o bryd:

*Os bydd y prisiau'n dal fel rydyn nhw, fydd hi ddim yn rhy wael, ond os syrthian nhw eto bydden ni'n torri'n ôl eto. Petai hynny'n digwydd, byddwn i'n gorfod dod o hyd i waith arall, fel gwaith ar beiriannau. Mae hwnnw wedi tawelu tipyn ers i sefyllfa'r busnesau adeiladu waethygu, ond fe ddôn nhw'n ôl, mae'n debyg.*

*Mae hi'n well eleni – prisiau ŵyn a gwartheg yn well. Ond mae cost peiriannau wedi codi'n aruthrol. Bydden ni'n torri'n ôl arnyn nhw ac yn gwneud gwaith arall.*

### 6.8.7 Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol (ym myd amaeth)

Prin oedd y cyfweleion (3% neu 26/ 1008) a fyddai'n arallgyfeirio o fewn byd amaeth:

*Ystyried prynu ieir i ddodwy wyau a gweld ydy pethau'n iawn fel 'na a mentro ffor' 'na efallai. Os na wnawn ni bres o wartheg a defaid, bydd rhaid i ni gael gwared arnyn nhw.*

*Canolbwyntio mwy ar gynhyrchu cnydau ynni, mae'n debyg.*

### 6.8.8 Dwysáu/helaethu'r raddfa

O ran addasu graddfa'r gweithgareddau ffermio i ateb her gwasgfa cost/pris, byddai 2% o'r cyfweleion yn ehangu mewn ymdrech i gynnal neu gynyddu incwm busnes y fferm:

*Byddwn i'n ehangu ychydig, mae'n debyg.*

*Ceisio cynyddu'r llaeth a gynhyrchwn ni. O bosib, cynyddu nifer y gwartheg eidion sydd gynnon ni.*

### 6.8.9 Dad-ddwysáu/lleihau maint busnes y fferm

Byddai mwy nag un o bob deg (11%) o'r cyfweleion yn cwtogi ar eu gweithgareddau ffermio ac yn ceisio bod yn fwy effeithlon a lleihau eu costau, a hynny weithiau drwy gynhyrchu rhagor o gnydau porthiant:

*Fydd dim dewis ond bod yn fwy effeithlon, lleihau nifer y da byw a gofyn cyngor.*

*O bosib, cwtogi ar yr ochr ffermio a gosod rhagor o'r tir ar rent. Gallen ni hefyd ystyried tyfu cnydau porthiant eraill i gwtogi ar gost prynu'r porthiant a cheisio gwneud y ffarm yn fwy hunangynhaliol. Efallai yr ystyriwn ni newid y systemau cynhyrchu drwy gael mathau eraill o dda byw nad ydy'r porthiant iddyn nhw mor gostus.*

Yma eto, cafwyd arwyddion bod ffermydd yn dibynnu ar y taliadau:

*Dylwn i allu byw ar daliadau sengl a pheidio â chadw anifeiliaid*

### 6.8.10 Gadael ffermio: Ymddeol

Y gyfran o'r cyfweleion a fyddai'n ymddeol pe bai gwasga cost/pris oedd 4%. Fel yn achos y cwestiwn a awgrymai newidiadau mewn taliadau i ffermydd ac mewn cyfrifoldebau amgylcheddol, y duedd oedd iddynt fod yn tynnu at oedran ymddeol.

*Ystyried prysuro'r cynlluniau i ymddeol, i werthu neu i osod tir ar rent neu rywbeth.*

*Gwerthu'r ffarm ac ymddeol. Does dim dewis os nad oes digon o elw. Peth dwl fyddai cario ymlaen. Os gwnawn ni arallgyfeirio, byddwn ni'n dal i gystadlu yn erbyn yr archfarchnadoedd mawr. Fe allech chi ddod o hyd i farchnad arbenigol neu adael byd amaeth, ac rydyn ni'n cyrraedd yr oedran lle rydyn ni'n debygol o adael. Er i ni aros am y 10 mlynedd diwethaf i bethau wella, dydy hynny ddim yn digwydd ac mae'n fwy na thebyg, felly, mai gadael wnawn ni rhag i ni golli rhagor.*

### 6.8.11 Gadael ffermio: Gwerthu'r fferm

Y cod/categori mwyaf oedd 23% (232/1008), sef y rhai a fyddai, am amrywiaeth o resymau, yn gadael ffermio petai gwasgfa cost/ pris. I rai, penderfyniad economaidd ar sail diffyg elw fyddai hwnnw:

*Petaen ni ddim yn gwneud arian, fyddai dim pwynt dal ati.*

*Os byddan nhw'n dal i ostwng, byddai llawer o ffermwyr llaeth yn rhoi'r gorau iddi. Petaen ni'n torri digon ar ein costau a'r gorbenion yn dal yn ormod, wnaen ni ddim digon o elw ac yna fe fydden ni, yn groes i'r graen, yn ymddeol o ffermio.*

*Gwerthu'r ffarm. Alla i byth â chynhyrchu rhywbeth yn rhatach na rhywun arall.*

Barn eraill oedd bod chwant y cyhoedd am fwydydd rhad, a rôl yr archfarchnadoedd, yn ffactorau a oedd yn gwneud drwg i ffermwyr Prydain:

*Os bydd y prisiau wrth glwyd y fferm yn gostwng, cawn ni'n gorfodi i adael y diwydiant yn fwy na thebyg. Dydyn ni ddim yn mynd i gynhyrchu bwyd ar golled. Fydd dim dewis, felly. Bydd rhaid i ni orffen a gadael i'r cyhoedd ym Mhrydain fewnforio bwyd o Dde America neu rywle. Gadael i archfarchnadoedd Prydain ddweud o ble maen nhw'n mynd i gael eu bwyd os cawn ni'n gorfodi i adael ffermio. Mae Tesco a'r rheina i gyd yn mewnforio bwyd o Tsieina. Does dim pwynt i mi brotestio.*

Cyfeiriodd cyfweleion fel y rhain at sefyllfa ariannol fregus byd amaeth:

*Byddwn i'n mynd yn fethdalwr.*

*Meddwl am adael byd amaeth. Rydyn ni wedi cyrraedd y gwaelod un yn barod.*

*Byddai'n rhaid i mi fynd yn fethdalwr. Does dim ffordd arall o oroesi.*

Eisoes yn yr adroddiad hwn fe drafodwyd problemau olyniaeth:

*Gadael ffermio. Fyddai fy mab yn bendant, ddim yn ymgymryd â'r fferm.*

Ac yr oedd y cyfwelai hwn fel petai'n cyfeirio at y dyb bod gormod o gyfyngiadau amgylcheddol ar ffermwyr:

*Datgofrestru'r ffarm a'i throi'n dir i fywyd gwyllt.*

### 6.8.12 Pwyntiau cyffredinol

Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch gwasgfa cost/pris, gwnaeth rhai o'r cyfweleion bwyntiau cyffredinol. Dadleuodd y cyfwelai hwn, er enghraifft, y gellid gwneud rhagor i hyrwyddo nwyddau Cymreig:

*Bydd hynny'n ei gwneud hi'n anodd iawn i bob un ohonon ni. Dwi ddim yn credu y dylid gadael i ni fethu neu fe fydden ni i gyd yn mynd yn fethdalwyr. Mae Cymru wedi gwneud gwaith da wrth farchnata nwyddau Cymreig ond fe hoffwn i weld tipyn mwy ohono.*

A gwnaeth y cyfwelai hwn bwyntiau am y rhwystrau a gâi eu gosod, yn ei farn ef, ar ffordd ffermwyr: colli hanes a diwylliant; a diffyg cydymdeimlad cyffredinol y cyhoedd a Llywodraeth y Cynulliad â ffermio a ffermwyr.

*Wel, rydw i wir yn ystyried gorffen gyda da byw. Wela i ddim pwynt ceisio dringo dros far sy'n cael ei godi drwy'r amser. Fe ges i fy ngeni a 'magu i gynhyrchu bwyd ac mae fy nheulu 'di byw yn y dyffryn yma am fil o flynyddoedd. Daethon nhw yma o Ffrainc ym 1066 a'r cyfan rydyn ni wedi'i wneud yw cynhyrchu. Mae'n sefyllfa drist. Does gan fy nghymydog ddim diddordeb mewn ffermio. Fyddai e ddim yn gwybod y gwahaniaeth rhwng pen blaen a phen ôl buwch. Mae'n meddwl bod llaeth yn dod allan o botel. Mae'n drueni mawr, ond does neb fel petai'n poeni. Rwy' newydd gael pecyn oddi wrth y Cynulliad yn gofyn i mi nodi pob dafad unigol ar fy fferm. Wela i mo'r pwynt mewn nodi anifeiliaid diniwed.*

### 6.8.13 Tuag at Ddadansoddiad Integredig

Isod, cyflwynir y canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad ansoddol hwn.

Yn yr adran sy'n dilyn (Adran 7) ceir dadansoddiad typolegol. Mewn adran ddadansoddi derfynol (Adran 8) caiff y dadansoddiadau ansoddol a thypolegol eu plethu i'w gilydd.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Os bydd newid yn y polisïau a chynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol:**

Byddai 28% yn cario ymlaen â'r busnes fel arfer

Byddai ar 22% angen rhagor o wybodaeth cyn cynllunio'u strategaethau neu na fyddent yn gwybod beth i'w wneud

Byddai 10% yn gwerthu'r fferm ac yn gadael byd amaeth.

Byddai'r gweddill yn mynd ar drywydd amrywiol strategaethau arallgyfeirio, cwtogi, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, busnesau eraill neu'n ymddeol.

**Petai gwasgfa cost/pris:**

Byddai 21% yn cario ymlaen â'r busnes fel arfer

Fyddai 16% ddim yn gwybod beth i'w wneud

Byddai 23% yn gwerthu'r fferm neu'n mynd yn fethdalwyr

Byddai'r gweddill yn mynd ar drywydd amrywiol strategaethau arallgyfeirio, cwtogi, cynlluniau amaeth-amgylcheddol, busnesau eraill neu'n ymddeol.

**Pwyntiau Cyffredinol:**

Mynegwyd pryder nad oedd na Llywodraeth y Cynulliad na'r cyhoedd yn deall ffermio a ffermwyr.

Prif ddiben ffermio oedd cynhyrchu bwyd, ond aethai hynny'n angof.

Yr oedd diogelu'r amgylchedd wedi mynd yn rhy bell

Yr oedd gormod o fiwrocratiaeth a rheoliadau

Cyfeiriodd rhai cyfweleion at eu cysylltiadau diwylliannol a hanesyddol cryf â byd amaeth

Yr oedd rhai ffermwyr yn dibynnu ar daliadau

Credai rhai ffermwyr fod dibyniaeth eang ar daliadau

## 7.1 Rhagymadrodd

Fel y trafodwyd yn Adran 4 - 'Y Dulliau Dadansoddi' – fe grëwyd mynegeion typolegol drwy gyfrwng proses a olygai nodi cwestiynau a oedd â chynnwys a oedd yn gymwys i fynegai; aseinio sgorau (pwysol) i'r cwestiynau hynny; a dynodi amrediad i bob mynegai (gweler Atodiad 2). Crëwyd tri mynegai, sef:

- Arallgyfeirio
- Amlswyddogaetholdeb
- Entrepreneuriaeth

Ar gyfer pob mynegai unigol fe gyfansymiwyd y sgorau a gafwyd gan yr aelwydydd fferm yn yr arolwg. Gan ddefnyddio cymedr rhifyddol y sgorau'n ganolbwynt, rhannwyd y sampl yn ddau grŵp, sef grŵp uwchlaw'r cyfartaledd a grŵp islaw'r cyfartaledd. Yna, gwnaed gwaith croestablu yn erbyn y math o fferm, maint y fferm, oedran y sawl a wnâi'r penderfyniadau, y rhanbarth amaethyddol, statws ALFf ac incwm.

Yn y dadansoddiadau isod, mae canrannau a gaiff eu cyflwyno a'u trafod yn cynrychioli cyfrannau o'r boblogaeth o'r categori penodol sy'n cael ei ystyried.

## 7.2 Mynegai o arallgyfeirio

Gellir diffinio arallgyfeirio fel datblygu gweithgareddau anamaethyddol ar y fferm i helpu i gynnal daliad y fferm.

### 7.2.1 Arallgyfeirio mewn Termau Crynswth

Yn Nhabl 7.1 dangosir dosbarthiad crynswth aelwydydd fferm yn y mynegai hwn.


**Tabl 7.1 Mynegai o Arallgyfeirio - dosbarthiad**

| | Amlder | Canran |
|---|---|---|
| Islaw'r cyfartaledd | 578 | 57% |
| Uwchlaw'r cyfartaledd | 431 | 43% |

Dangosir felly fod 57% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd islaw cymedr neu gyfartaledd y sgôr ar y mynegai o arallgyfeirio – yr oedd 43% uwchlaw cyfartaledd y sgôr. Yr oedd hyd at 24 o bwyntiau ar gael. Y sgôr gymedrig oedd 10 pwynt.

Yn Ffigur 7.1 ceir siart sy'n dangos dosbarthiad y mynegai o arallgyfeirio.

**Ffigur 7.1 Y Mynegai o Arallgyfeirio – Dosbarthiad**




Yn yr histogram yn Ffigur 7.1 gwelir dosbarthiad sy'n tueddu at sgorau islaw'r cyfartaledd. Dylid nodi bod 50% o'r sampl gyffredinol yn rhedeg o leiaf un math o weithgarwch arallgyfeirio (gweler Adran 5.2 a Thabl 5.6).

### 7.2.2 Arallgyfeirio a'r Math o Fferm

**Tabl 7.2 Arallgyfeirio a'r Math o Fferm**

| Y Prif Fath o Fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Llaeth | 69% | 31% |
| Cig Eidion | 54% | 46% |
| Defaid | 61% | 39% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 36% | 64% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **57%** | **43%** |

Yn Nhabl 7.2 gwelir mai'r ffermydd llaeth yn yr arolwg oedd y rhai lleiaf tebygol o arallgyfeirio a bod 69% o'r ffermydd llaeth islaw cymedr y mynegai o arallgyfeirio. Yr oedd cyfran gymharol uchel o ffermydd defaid, 61% ohonynt, hefyd islaw cymedr y mynegai. Ffermydd y tu allan i brif ffrwd y mathau o ffermydd, sef llaeth, cig eidion a defaid, oedd â'r cyfrannau uchaf, sef 66%, uwchlaw cymedr y mynegai o arallgyfeirio.

### 7.2.3 Arallgyfeirio a Maint Economaidd y Fferm

Yn Nhabl 7.3 gwelir sut yr amrywiai'r mynegai o arallgyfeirio yn ôl maint economaidd y ffermydd yn yr arolwg.

**Tabl 7.3 Arallgyfeirio a Maint Economaidd y Fferm**

| Maint Economaidd y Fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bach Iawn | 57% | 43% |
| Bach | 55% | 45% |
| Canolig | 60% | 40% |
| Mawr/Mawr Iawn | 60% | 40% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **57%** | **43%** |

Wrth i faint economaidd y fferm gynyddu, y duedd oedd gweld llai o arallgyfeirio.

### 7.2.4 Arallgyfeirio ac Oedran yr ymatebydd

**Tabl 7.4 Arallgyfeirio ac Oedran**

| Oedran | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| 18 - 34 | 43% | 57% |
| 35 - 44 | 51% | 49% |
| 45 - 54 | 45% | 55% |
| 55 - 64 | 61% | 39% |
| 65+ | 72% | 29% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **57%** | **43%** |

Yn Nhabl 7.4 gwelir bod tuedd hyd at 54 oed i fwy o ffermydd fod uwchlaw cymedr y mynegai o arallgyfeirio, ond y duedd yw troi ychydig ar i lawr a gwastatáu rhwng 35 a 44 oed. Ond tuedd i'r gwrthwyneb a welwyd yn y ddau grŵp hŷn, sef 55-64 a thros 65 oed, a cheir cyfrannau mwy a chynyddol islaw cymedr y mynegai o arallgyfeirio.

### 7.2.5 Arallgyfeirio a Rhanbarth

**Tabl 7.5 Arallgyfeirio a Rhanbarth**

| Rhanbarth Amaethyddol | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Y Gogledd Ddwyrain | 61% | 39% |
| Y Gogledd Orllewin | 54% | 47% |
| Powys | 59% | 41% |
| Ceredigion | 54% | 46% |
| Sir Gaerfyrddin | 63% | 37% |
| Sir Benfro | 57% | 43% |
| Y De | 48% | 52% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **57%** | **43%** |

Yr unig ranbarth â chyfran helaethach uwchlaw'r cymedr ar gyfer arallgyfeirio oedd y De, sef 52%.

### 7.2.6 Arallgyfeirio ac ALFf

**Tabl 7.6 Arallgyfeirio ac ALFf**

| Lleoliad yr aelwyd fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Heb fod mewn ALFf | 56% | 44% |
| Mewn ALFf | 58% | 42% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **57%** | **43%** |

Yr oedd y cyfrannau o'r ffermydd islaw'r cymedr ar gyfer arallgyfeirio yng nghategorïau 'mewn ALFf' a 'heb fod mewn ALFf' yn debyg i'r cyfrannau

cyffredinol ar gyfer sampl yr arolwg. Ar sail y data hynny, nid oedd statws o ran ALFf fel petai'n effeithio ar y mynegai o arallgyfeirio.

### 7.2.7 Arallgyfeirio a'r Brif Ffynhonnell Incwm

**Tabl 7.7 Arallgyfeirio a'r Brif Ffynhonnell Incwm**

| Ffynhonnell Incwm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Y Farchnad | 63% | 37% |
| Y Taliad Sengl | 52% | 49% |
| Cynllun am-amg ac ALFf | Niferoedd isel | Niferoedd isel |
| Arallgyfeirio | 32% | 68% |
| Swyddi eraill oddi ar y fferm | 51% | 49% |
| Ffynonellau Cymysg o Incwm | 57% | 43% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **57%** | **43%** |

Yn ôl y disgwyl, gan yr aelwydydd fferm a enwodd 'arallgyfeirio' yn brif ffynhonnell eu hincwm yr oedd y gyfran uchaf, 68%, uwchlaw cymedr y mynegai o arallgyfeirio. Y duedd oedd i aelwydydd fferm a oedd â phrif ffynonellau eraill o incwm, megis incymau a chymorthdaliadau cysylltiedig-â-ffermio, fod â sgorau a chyfrannau islaw cymedr y mynegai o arallgyfeirio.

Y gyfran fwyaf islaw cymedr y mynegai oedd y 63% o'r aelwydydd fferm a enwodd 'y farchnad' yn brif ffynhonnell eu hincwm.

## 7.3 Mynegai o amlswyddogaetholdeb

Gellid diffinio amlswyddogaetholdeb fel hyd a lled cyfraniad ffermydd, y tu hwnt i'w swyddogaeth gychwynnol o gynhyrchu bwyd a ffibr, i fanteision amgylcheddol megis cadwraeth tir, rheoli adnoddau naturiol adnewyddadwy yn gynaladwy; diogelu bioamrywiaeth; ac agweddau economaidd- gymdeithasol. Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol a'r taliadau cysylltiedig yn cynnig cyfleoedd i aelwydydd fferm ymgymryd ag amryw byd o agweddau ar amlswyddogaetholdeb.

### 7.3.1 Amlswyddogaetholdeb mewn Termau Crynswth


Yn Nhabl 7.8 dangosir dosbarthiad crynswth aelwydydd fferm yn y mynegai hwn. Lluniwyd y mynegai o amlswyddogaetholdeb yn bennaf o amgylch ymuno â'r amrywiaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Canlyniad hynny yw'r duedd i'w adeiladwaith fod yn ddeuaidd – tuedd aelwydydd fferm oedd sgorio'n uchel neu'n isel.

**Tabl 7.8 Mynegai o Amlswyddogaetholdeb - dosbarthiad**

| | Amlder | Canran |
|---|---|---|
| Islaw'r cyfartaledd | 405 | 40% |
| Uwchlaw'r cyfartaledd | 604 | 60% |

Yn y tabl gwelir bod 60% o'r sampl uwchlaw cyfartaledd y mynegai hwn. Ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb gellid cael sgôr hyd at 40 pwynt, a chymedr y sgorau oedd 13. Fel y gwelir yn Ffigur 7.2, yr oedd y dosbarthiad yn ddeufodd, sef grŵp a sgorau isel a grŵp â sgorau cymharol uchel heb fawr o aelwydydd fferm yn yr amrediad canol a rhai'n perfformio'n dda iawn.

**Ffigur 7.2 Y Mynegai o Amlswyddogaetholdeb: Dosbarthiad**




### 7.3.2 Amlswyddogaetholdeb a'r Math o Fferm

**Tabl 7.9 Amlswyddogaetholdeb a'r Math o Fferm**

| Y Prif Fath o Fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Llaeth | 49% | 51% |
| Cig Eidion | 41% | 59% |
| Defaid | 33% | 67% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 52% | 48% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **40%** | **60%** |

O'r tri phrif fath o fferm, rhagorodd ffermydd defaid a ffermydd cig eidion ar ffermydd llaeth o ran eu hamlswyddogaetholdeb, ond yr oedd i bob un o'r tri math o fferm gyfrannau helaethach uwchlaw cymedr y mynegai. Yr oedd ffermydd defaid 67% uwchlaw cymedr y mynegai o'i gymharu â 59% yn achos ffermydd cig eidion a 51% yn achos ffermydd llaeth.

### 7.3.3 Amlswyddogaetholdeb a Maint y Fferm

**Tabl 7.10 Amlswyddogaetholdeb a Maint y Fferm**

| Maint y Fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bach iawn | 52% | 48% |
| Bach | 33% | 67% |
| Canolig | 33% | 67% |
| Mawr/Mawr iawn | 41% | 59% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **40%** | **60%** |

O ran maint y fferm ac amlswyddogaetholdeb, ffermydd bach iawn a wnaeth waethaf, sef 48%

uwchlaw cymedr y mynegai. Yr oedd y categorïau eraill o faint ffermydd i gyd â chyfrannau uwchlaw'r cymedr o 60% a rhagor – ac eithrio ffermydd Mawr/Mawr iawn a oedd â 59%, sef bron 60%.

### 7.3.4 Amlswyddogaetholdeb ac Oedran

**Tabl 7.11 Amlswyddogaetholdeb ac Oedran**

| Oedran | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| 18 - 34 | 54% | 46% |
| 35 - 44 | 35% | 65% |
| 45 - 54 | 35% | 65% |
| 55 - 64 | 39% | 61% |
| 65+ | 47% | 53% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **40%** | **60%** |

Y duedd o ran oedran oedd i amlswyddogaetholdeb gynyddu gydag oedran tan 55 oed, pryd yr oedd y duedd i gynyddu yn arafu. Yr oedd hynny'n debyg i'r perthnasoedd rhwng oedran yr ymatebydd ac arallgyfeirio.

### 7.3.5 Amlswyddogaetholdeb a Rhanbarth

**Tabl 7.12 Amlswyddogaetholdeb a Rhanbarth**

| Rhanbarth Amaethyddol | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Y Gogledd Ddwyrain | 48% | 52% |
| Y Gogledd Orllewin | 33% | 68% |
| Powys | 35% | 65% |
| Ceredigion | 39% | 61% |
| Sir Gaerfyrddin | 44% | 56% |
| Sir Benfro | 34% | 66% |
| Y De | 48% | 52% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **40%** | **60%** |

Yr oedd pob rhanbarth uwchlaw cymedr y mynegai o amlswyddogaetholdeb. Y sgorau uchaf oedd y Gogledd Orllewin (68%), Sir Benfro (66%) a Phowys (65%).

### 7.3.6 Amlswyddogaetholdeb ac ALFf

**Tabl 7.13 Amlswyddogaetholdeb ac ALFf**

| Lleoliad yr aelwyd fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Heb fod mewn ALFf | 54% | 46% |
| Mewn ALFf | 36% | 64% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **40%** | **60%** |

Gwelwyd gwahaniaeth pendant rhwng y ffermydd mewn ALFf a'r rhai sydd heb fod mewn ALFf o ran eu hamlswyddogaetholdeb. Yr oedd gan y ffermydd mewn ALFf gyfrannau o 64% uwchlaw cymedr y mynegai o'i gymharu â 46% uwchlaw cymedr y mynegai yn achos y ffermydd sydd heb fod mewn ALFf. Mae hynny'n cyd-fynd â'r cyfleoedd helaethach i gyfrannu i fanteision amgylcheddol megis cadwraeth tir, rheoli adnoddau naturiol adnewyddadwy yn gynaladwy a diogelu bioamrywiaeth mewn ardaloedd llai ffafriol.

### 7.3.7 Amlswyddogaetholdeb a'r Brif Ffynhonnell Incwm

**Tabl 7.14 Amlswyddogaetholdeb a'r Brif Ffynhonnell Incwm**

| Ffynhonnell Incwm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Y Farchnad | 39% | 61% |
| Y Taliad Sengl | 30% | 70% |
| Cynllun am-amg ac ALFf | Niferoedd isel | Niferoedd isel |
| Arallgyfeirio | 56% | 44% |
| Swyddi eraill oddi ar y fferm | 48% | 52% |
| Ffynonellau Cymysg o Incwm | 43% | 57% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **40%** | **60%** |

Y rhai a wnaeth orau oedd y rhai a enwodd y Taliad Sengl a'r farchnad yn brif ffynhonnell eu hincwm. Yr oedd i'r aelwydydd fferm a enwodd ffynonellau cymysg (e.e. gan roi'r un pwys i'r farchnad, y Taliad Sengl ac arallgyfeirio) hefyd gyfrannu uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer amlswyddogaetholdeb, sef 57%. Yr aelwydydd fferm a enwodd arallgyfeirio'n brif ffynhonnell eu hincwm oedd yr unig rai â sgôr islaw'r cyfartaledd o ran amlswyddogaetholdeb.

## 7.4 MYNEGAI O ENTREPRENEURIAETH

Gellir diffinio Entrepreneuriaeth fel gallu, sgiliau a meddylfryd ffermwyr o ran cynnull adnoddau a datblygiadau arloesol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gael mynediad i wahanol farchnadoedd.

### 7.4.1 Mynegai o Entrepreneuriaeth mewn Termau Crynswth


Yn Nhabl 7.15 dangosir dosbarthiad crynswth aelwydydd fferm yn y mynegai hwn.

**Tabl 7.15 Mynegai o Entrepreneuriaeth – dosbarthiad**

| | Amlder | Canran |
|---|---|---|
| Islaw'r Cyfartaledd | 472 | 47% |
| Uwchlaw'r Cyfartaledd | 537 | 53% |

Yr oedd modd cael sgôr o hyd at 52 o bwyntiau am entrepreneuriaeth. Fel y dangosir yn Ffigur 7.3, cymedr y sgorau oedd 23 o bwyntiau. Yn Ffigur 7.3 darlunnir dosbarthiad cyfrwng cymharol wastad o amgylch y cymedr, ac mae'r cymedr yn agos at ganolbwynt yr ystod.

**Ffigur 7.3 Mynegai o Entrepreneuriaeth: Dosbarthiad**




### 7.4.2 Mynegai o Entrepreneuriaeth a'r Math o Fferm

**Tabl 7.16 Entrepreneuriaeth a'r Math o Fferm**

| Y Prif Fath o Fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Llaeth | 35% | 65% |
| Cig Eidion | 49% | 51% |
| Defaid | 53% | 47% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 33% | 67% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **47%** | **53%** |

Ffermydd defaid oedd yr unig math o fferm â chyfran helaethach islaw'r cyfartaledd, sef 53%, ar y mynegai o entrepreneuriaeth. I bob pwrpas, yr oedd y cyfrannau o ffermydd cig eidion uwchlaw ac islaw'r cyfartaledd yn gyfartal, a chafwyd cyfrannau uchel uwchlaw'r cyfartaledd gan ffermydd llaeth, sef 65%, a'r mathau amrywiol o ffermydd, sef 67%.

### 7.4.3 Mynegai o Entrepreneuriaeth a Maint Economaidd y Fferm

**Tabl 7.17 Entrepreneuriaeth a Maint Economaidd y Fferm**

| Maint y Fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bach iawn | 56% | 44% |
| Bach | 53% | 47% |
| Canolig | 37% | 63% |
| Mawr/Mawr Iawn | 24% | 76% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **47%** | **53%** |

Yn sicr, yr oedd graddiant tuag i fyny o ran maint economaidd y fferm. Rhagorodd y ffermydd mawr a mawr iawn o lawer ar y lleill ar y mynegai o

entrepreneuriaeth. Yn achos ffermydd bach iawn a bach, cafwyd cyfrannau helaethach islaw'r cyfartaledd.

### 7.4.4 Mynegai o Entrepreneuriaeth ac Oedran

**Tabl 7.18 Entrepreneuriaeth ac Oedran**

| Oedran | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| 18 - 34 | 23% | 77% |
| 35 - 44 | 34% | 66% |
| 45 - 54 | 35% | 65% |
| 55 - 64 | 53% | 47% |
| 65+ | 61% | 39% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **47%** | **53%** |

Gwelwyd bod gweithgarwch entrepreneuraidd yn helaethach ymhlith y grŵp oedran ifancaf, sef 18-34, ac iddo aros ar lefel uchel tan 54 oed ac yna iddo syrthio islaw'r cyfartaledd yn y grwpiau dros 55 oed.

### 7.4.5 Mynegai o Entrepreneuriaeth a Rhanbarth

**Tabl 7.19 Entrepreneuriaeth a Rhanbarth**

| Rhanbarth Amaethyddol | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Y Gogledd Ddwyrain | 47% | 53% |
| Y Gogledd Orllewin | 43% | 57% |
| Powys | 48% | 52% |
| Ceredigion | 48% | 52% |
| Sir Gaerfyrddin | 53% | 47% |
| Sir Benfro | 39% | 61% |
| Y De | 45% | 55% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **47%** | **53%** |

Sir Benfro wnaeth orau ar y mynegai o entrepreneuriaeth, sef 61% uwchlaw'r cyfartaledd, a sir gyfagos, Sir Gaerfyrddin, oedd yr unig ranbarth amaethyddol islaw'r cyfartaledd, sef 53% islaw'r cyfartaledd.

### 7.4.6 Mynegai o Entrepreneuriaeth ac ALFf

**Tabl 7.20 Entrepreneuriaeth ac ALFf**

| Lleoliad yr aelwyd fferm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Heb fod mewn ALFf | 37% | 63% |
| Mewn ALFf | 50% | 50% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **47%** | **53%** |

Er bod yr un cyfrannau gan aelwydydd fferm mewn ALFf, yr oedd gan aelwydydd fferm a oedd heb fod mewn ALFf 63% uwchlaw'r cyfartaledd.

### 7.4.7 Mynegai o Entrepreneuriaeth a Ffynhonnell Incwm

**Tabl 7.21 Entrepreneuriaeth a Ffynhonnell Incwm**

| Ffynhonnell Incwm | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Y Farchnad | 44% | 56% |
| Y Taliad Sengl | 47% | 53% |
| Cynllun am-amg ac ALFf | Niferoedd isel | Niferoedd isel |
| Arallgyfeirio | 35% | 65% |
| Swyddi eraill oddi ar y fferm | 49% | 51% |
| Ffynonellau Cymysg o Incwm | 57% | 43% |
| **Cyfanswm yr Arolwg** | **47%** | **53%** |

Y grŵp a wnaeth orau yma oedd yr aelwydydd fferm a enwodd arallgyfeirio'n brif ffynhonnell eu hincwm.

## 7.5 Dadansoddiad integredig

Isod, cyflwynir y canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad typolegol. Caiff y dadansoddiad typolegol ei ddwyn ymlaen i Adran 8 a'i gydblethu â'r dadansoddiad ansoddol a gafwyd yn Adran 6.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

### Mynegai o Arallgyfeirio

Yr oedd 43% o'r aelwydydd fferm uwchlaw cyfartaledd y sgorau

Gan eu bod yn 69% islaw'r cyfartaledd, ffermydd llaeth oedd y rhai lleiaf tebyg o arallgyfeirio

Gan eu bod yn 64% uwchlaw'r cyfartaledd, ffermydd â gweithgareddau amrywiol (heblaw llaeth, cig eidion neu ddefaid) oedd y rhai mwyaf tebygol o arallgyfeirio

Yr oedd y grwpiau oedran iau yn debycach o arallgyfeirio – ar ôl 54 oed yr oedd y perfformiad islaw'r cyfartaledd

### Mynegai o Amlswyddogaetholdeb

Yr oedd 60% uwchlaw cyfartaledd y sgorau

Ffermydd defaid a wnaeth orau – cafwyd sgorau uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer: defaid, sef 67%, cig eidion, 59%, a llaeth, 51%

Ffermydd bach iawn a wnaeth waethaf, sef 52% islaw'r cyfartaledd

Cynyddu gydag oedran wnâi amlswyddogaetholdeb tan 54 oed

Yr oedd y ffermydd mewn ALFf 64% uwchlaw'r cyfartaledd o'i gymharu â 46% uwchlaw'r cyfartaledd yn achos ffermydd sydd heb fod mewn ALFf

### Mynegai o Entrepreneuriaeth

Yr oedd 53% uwchlaw'r cyfartaledd

Cafodd ffermydd llaeth a'r mathau amrywiol o ffermydd gyfrannau uwchlaw'r cyfartaledd, sef 65% yn achos y cyntaf a 67% yn achos yr olaf

Ffermydd mawr/mawr iawn a wnaeth orau, sef 76% uwchlaw'r cyfartaledd

Ceid mwy o weithgarwch entrepreneuraidd yn y grŵp oedran ifancaf, sef 18-34, ac fe arhosai ar lefel uchel tan 54 oed ac yn disgyn islaw'r cyfartaledd yn y grwpiau dros 55 oed

Er i aelwydydd fferm mewn ALFf gofnodi cyfrannau cyfartal uwchlaw ac islaw'r cyfartaledd, yr oedd gan aelwydydd fferm sydd heb fod mewn ALFf 63% uwchlaw'r cyfartaledd.

## 8.1 Rhagymadrodd

Yn yr adran hon cynigir dadansoddiad terfynol drwy ddod â'r dadansoddiad ansoddol o Adran 6 a'r dadansoddiad typolegol o Adran 7 ynghyd. Ar sail y dadansoddiad hwnnw, caiff mesurau o wytnwch a bregusrwydd eu sefydlu a'u trafod.

## 8.2 Newidynnau ansoddol

Seiliwyd y dadansoddiad ansoddol yn Adran 6 ar yr ymatebion i ddau gwestiwn penagored (C21 ac C22). Atgynhyrchir y cwestiynau hynny isod:

**Cwestiwn 21**. Pe bai newidiadau mewn polisïau amaethyddol ar ôl 2013 yn arwain at ostyngiad mewn taliadau i ffermwyr, neu'n gofyn am newidiadau i arferion ffermio, er enghraifft, cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol, beth fyddech chi'n ei wneud?

**Cwestiwn 22**. Pe bai costau mewnbwn yn parhau i godi, ochr yn ochr â gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm, beth fyddwch chi'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf?

Sefydlwyd y newidynnau ar sail y dadansoddiad ansoddol drwy grwpio atebion yr aelwydydd fferm i C21 ac C22 yn themâu. Cafodd pob un o'r newidynnau seiliedig-ar-thema ei godio fel arwydd o wytnwch neu fregusrwydd. I bob pwrpas, cafodd pob aelwyd fferm a ymatebodd i'r cwestiynau agored ei chodio'n aelwyd wydn neu fregus o ran y sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd yn C21 ac C22. Yn Nhablau 8.1 ac 8.2 dangosir y newidynnau a'r codau thematig hynny.

**Tabl 8.1 C21 – Newidynnau Thematig wedi'u Codio ar sail y Dadansoddiad Ansoddol**

| Bregus = B<br>Gwydn = G | C21<br>Newidynnau Thematig |
|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer. |
| B | Ansicr |
| B | Dad-ddwysáu/ cwtogi ar faint busnes y fferm. |
| B | Gadael ffermio – ymddeol |
| B | Gadael ffermio – gwerthu'r fferm. |
| G | Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol/ aml-incwm. |
| G | Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – yn rhagweithiol |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – o'u hanfodd |

**Tabl 8.2 C22 – Newidynnau Thematig wedi'u Codio ar sail y Dadansoddiad Ansoddol**

| Bregus = B<br>Gwydn = G | C22<br>Newidynnau Thematig |
|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer |
| B | Ansicrwydd |
| B | Dad-ddwysáu |
| B | Gadael ffermio – ymddeol |
| B | Gadael ffermio – gwerthu'r fferm |
| G | Torri costau |
| G | Ffermio'n fwy amgylcheddol |
| G | Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth) |
| G | Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol (ym myd amaeth) |
| G | Dwysáu/helaethu'r raddfa |

## 8.3 Y cyfrannau cyffredinol o wytnwch a bregusrwydd

Yn Nhabl 8.3 dangosir y cyfrannau cyffredinol o wytnwch a bregusrwydd ar gyfer y cyfan o'r sampl o 1009 o aelwydydd fferm.

**Tabl 8.3 Aelwydydd Fferm Gwydn a Bregus yn Gyffredinol**

| | C21 | C22 |
|---|---|---|
| Bregus | 68% | 75% |
| Gwydn | 32% | 25% |

Yn y tabl, gwelir bod 68% o'r aelwydydd fferm yn yr arolwg yn fregus yn nhermau C21, sef eu hymatebion i newidiadau mewn polisïau a allai arwain at ostwng y taliadau i ffermwyr neu fynnu newidiadau mewn arferion ffermio, megis cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol.

Yn yr un modd, fe ddangosir yn y tabl fod 75% o'r aelwydydd fferm yn fregus yn nhermau C22, sef sefyllfa a allai weld costau'r mewnbynnau'n dal i godi ond y prisiau wrth glwyd y fferm yn gostwng.

Yn y tablau sy'n dilyn yn adran 8.3 fe gymharir, ar gyfer C21 ac C22, y cyfrannau o aelwydydd fferm gwydn a bregus yn y poblogaethau o gategorïau penodol sydd â'r cyfrannau o aelwydydd fferm gwydn a bregus ym mhoblogaeth yr arolwg yn gyffredinol.

### 8.3.1 Gwytnwch/Bregusrwydd a'r Math o Fferm

Yn Nhabl 8.4 a Thabl 8.5 dangosir gwytnwch/bregusrwydd yn nhermau'r math o fferm ar gyfer C21 ac C22.

**Tabl 8.4 C21 – Gwytnwch/Bregusrwydd a'r math o fferm**

| C21 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Llaeth | 64% | 36% |
| Cig Eidion | 71% | 29% |
| Defaid | 67% | 33% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 68% | 32% |
| Yn gyffredinol | 68% | 32% |

**Tabl 8.5 C22 – Gwytnwch/Bregusrwydd a'r math o fferm**

| C22 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Llaeth | 70% | 30% |
| Cig Eidion | 80% | 20% |
| Defaid | 76% | 24% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 69% | 31% |
| Yn gyffredinol | 75% | 25% |

Yn Nhablau 8.4 ac 8.5 gwelir bod tuedd i'r cymarebau o ffermydd bregus i rai gwydn adlewyrchu'r cymarebau cyffredinol ar gyfer sefyllfaoedd C21 ac C22. Ond gan ffermydd cig eidion yr oedd y cyfrannau uchaf o ffermydd bregus yn achos C21 ac C22, a ffermydd defaid oedd â'r cyfrannau nesaf atynt.

### 8.3.2 Gwytnwch/Bregusrwydd a maint y fferm

Yn Nhabl 8.6 a Thabl 8.7 dangosir gwytnwch/bregusrwydd o ran maint economaidd y fferm ar gyfer C21 ac C22.

**Tabl 8.6 C21 – Gwytnwch/Bregusrwydd a maint economaidd y fferm**

| C21 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Bach iawn | 76% | 24% |
| Bach | 64% | 36% |
| Canolig | 68% | 32% |
| Mawr/Mawr Iawn | 56% | 44% |
| Yn gyffredinol | 68% | 32% |

**Tabl 8.7 C22 – Gwytnwch/Bregusrwydd a maint economaidd y fferm**

| C22 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Bach Iawn | 86% | 15% |
| Bach | 74% | 26% |
| Canolig | 68% | 32% |
| Mawr/Mawr Iawn | 66% | 34% |
| Yn gyffredinol | 75% | 25% |

Yn Nhablau 8.6 a 8.7 dangosir bod tuedd i fregusrwydd gynyddu wrth i faint y fferm leihau.

### 8.3.3 Gwytnwch/Bregusrwydd ac Oedran

Yn Nhabl 8.8 a Thabl 8.9 dangosir gwytnwch/bregusrwydd yn nhermau oedran y cyfwelai yn achos C21 ac C22.

**Tabl 8.8 C21 – Gwytnwch/ Bregusrwydd ac oedran y cyfwelai**

| C21 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| 18 - 34 | 82% | 18% |
| 35 - 44 | 64% | 36% |
| 45 - 54 | 59% | 41% |
| 55 - 64 | 68% | 32% |
| 65+ | 76% | 24% |
| Yn gyffredinol | 68% | 33% |

Yn Nhabl 8.8 gwelir bod aelwydydd fferm a arweinir gan ffermwyr dan 35 oed yn fwy bregus o ran newidiadau mewn polisïau. Er i'r lefelau o fregusrwydd ostwng yn achos grwpiau oedran 35-44 a 45-54, cynyddent yn achos y rhai dros 54 oed.

**Tabl 8.9 C22 – Gwytnwch/Bregusrwydd ac oedran y cyfwelai**

| C22 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| 18 – 34 | 56% | 44% |
| 35 – 44 | 66% | 34% |
| 45 – 54 | 68% | 32% |
| 55 – 64 | 80% | 20% |
| 65+ | 85% | 15% |
| Yn gyffredinol | 75% | 25% |

Fel y gwelir o Dabl 8.9 ar gyfer C22 – sefyllfa'r wasgfa cost/pris – y grŵp oedran ifancaf oedd wytnaf ac fe gynyddai bregusrwydd gydag oedran.

### 8.3.4 Gwytnwch/Bregusrwydd ac ALFf

**Tabl 8.10 C21 – Gwytnwch/ Bregusrwydd a statws ALFf**

| C21 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Heb fod mewn ALFf | 64% | 36% |
| Mewn ALFf | 69% | 31% |
| Yn gyffredinol | 68% | 32% |

**Tabl 8.11 C22 – Gwytnwch/ Bregusrwydd a statws ALFf**

| C22 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Heb fod mewn ALFf | 70% | 30% |
| Mewn ALFf | 77% | 23% |
| Yn gyffredinol | 75% | 25% |

Yn Nhablau 8.10 ac 8.11 dangosir bod aelwydydd fferm mewn ALFf yn fwy bregus o ran y sefyllfa newid polisi a sefyllfa gwasgfa cost/pris. Sylwer bod 78% o holl boblogaeth yr arolwg mewn ALFf ddynodedig.

### 8.3.4 Gwytnwch/Bregusrwydd ac Incwm yr Aelwydydd Fferm

Yn Nhabl 8.12 a Thabl 8.13 dangosir y perthnasoedd rhwng Gwytnwch/ Bregusrwydd ac incwm blynyddol yr aelwydydd fferm.

**Tabl 8.12 C21 – Gwytnwch/ Bregusrwydd ac Incwm yr Aelwydydd Fferm**

| C21 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Llai na £10, 000 | 74% | 26% |
| £10,000 - 15,499 | 70% | 30% |
| £15,500 - 20,999 | 67% | 33% |
| £21,000 - 30,999 | 64% | 36% |
| £31,000 - 51,999 | 64% | 36% |
| £52,000 - 77,999 | 59% | 41% |
| £78,000 a rhagor | 67% | 33% |
| Yn gyffredinol | 67% | 33% |

**Tabl 8.13 C22 – Gwytnwch/ Bregusrwydd ac Incwm yr Aelwydydd Fferm**

| C22 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Llai na £10, 000 | 81% | 19% |
| £10,000 - 15,499 | 74% | 26% |
| £15,500 - 20,999 | 73% | 27% |
| £21,000 - 30,999 | 73% | 27% |
| £31,000 - 51,999 | 74% | 26% |
| £52,000 - 77,999 | 74% | 26% |
| £78,000 a rhagor | 67% | 33% |
| Yn gyffredinol | 74% | 26% |

Er bod y bandiau incwm blynyddol â chyfrannau mwyafrifol o aelwydydd fferm bregus, fe welir o'r tablau fod perthynas rhwng incwm is a graddau uwch o fregusrwydd.

### 8.3.6 Gwytnwch/Bregusrwydd a Glastir

Gofynnwyd i'r cyfweleion pa mor debyg yr oeddent o ymrestru â Glastir, y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd sydd ar y gweill ac a fydd yn disodli'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol ac yn fodd i gael taliadau ALFf. Ar sail Adran 5.3.4, yr oedd 84% o'r aelwydydd fferm yn ymwybodol o gynllun Glastir. O'r aelwydydd fferm a oedd yn ymwybodol o gynllun Glastir, yr oedd 50% yn debygol iawn neu'n debygol o ymuno â'r cynllun; yr oedd 13% ohonynt yn annhebygol neu'n annhebygol iawn o ymuno; ac yr oedd angen rhagor o wybodaeth ar 37%.

Yn Nhabl 8.14 a Thabl 8.15 dangosir gwytnwch/bregusrwydd yr aelwydydd fferm hynny yn nhermau C21 ac C22.

**Tabl 8.14 C21 – Gwytnwch/ Bregusrwydd a Bwriadau o ran ymuno â Glastir**

| | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Tebygol iawn + Tebygol | 61% | 39% |
| Annhebygol + Annhebygol iawn | 78% | 22% |
| Angen gwybod rhagor | 67% | 33% |
| Yn gyffredinol | 66% | 34% |

**Tabl 8.15 C22 – Gwytnwch/ Bregusrwydd a Bwriadau o ran ymuno â Glastir**

| | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Tebygol iawn + Tebygol | 69% | 31% |
| Annhebygol + Annhebygol iawn | 82% | 18% |
| Angen gwybod rhagor | 79% | 21% |
| Yn gyffredinol | 74% | 26% |

Yn y naill sefyllfa a'r llall, sef newidiadau mewn polisïau a gwasgfa cost/pris, yr oedd yr aelwydydd fferm a oedd yn debyg o ymuno â Glastir yn wytnach na'r rhai a oedd yn annhebyg o ymuno. Y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a oedd yn annhebygol o ymuno fod yn fregus. Y duedd oedd i aelwydydd yr oedd angen rhagor o wybodaeth am Glastir arnynt fod ychydig bach yn fwy bregus.

Yn Nhabl 8.16 a Thabl 8.17 cymharir gwytnwch/bregusrwydd yr aelwydydd fferm a oedd yn ymwybodol o gynllun Glastir â'r aelwydydd a oedd heb fod yn ymwybodol ohono, o ran C21 ac C22.

**Tabl 8.16 C21 – Gwytnwch/ Bregusrwydd ac ymwybyddiaeth o gynllun Glastir**

| Ymwybodol | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Ydynt | 74% | 26% |
| Nac ydynt | 81% | 19% |
| Yn gyffredinol | 75% | 25% |

**Tabl 8.17 C22 – Gwytnwch/ Bregusrwydd ac ymwybyddiaeth o gynllun Glastir**

| Ymwybodol | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Ydynt | 74% | 26% |
| Nac ydynt | 81% | 19% |
| Yn gyffredinol | 75% | 25% |

Yn achosion C21 ac C22, yr oedd yr aelwydydd fferm a oedd yn ymwybodol o gynllun Glastir yn wytnach.

### 8.3.7 Gwytnwch/Bregusrwydd a Chynlluniau Busnes

Yn Nhabl 8.18 a Thabl 8.19 cymharir gwytnwch/bregusrwydd yr aelwydydd fferm a oedd â chynllun busnes â'r rhai a oedd heb un.

**Tabl 8.18 C21 Gwytnwch/ Bregusrwydd a Chynllun Busnes**

| C21 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Oeddent | 63% | 37% |
| Nac oeddent | 69% | 31% |
| Yn gyffredinol | 68% | 32% |

**Tabl 8.19 C22 Gwytnwch/ Bregusrwydd a Chynllun Busnes**

| C22 | Bregus | Gwydn |
|---|---|---|
| Oeddent | 73% | 27% |
| Nac oeddent | 76% | 24% |
| Yn gyffredinol | 75% | 25% |

Yn y tablau hynny fe welir, yn achos C21 ac C22, fod gan y poblogaethau cyffredinol o aelwydydd fferm a oedd â chynllun busnes gyfrannau helaethach o aelwydydd gwydn nag aelwydydd bregus.

## 8.4 Integreiddio'r Newidynnau Ansoddol a'r Mynegeion

Yn y tablau sy'n dilyn yn adran 8.4 dangosir y perthnasoedd rhwng y ddau grŵp (uwchlaw'r cyfartaledd ac islaw'r cyfartaledd) ar bob un o'r tri mynegai (arallgyfeirio, amlswyddogaetholdeb ac entrepreneuriaeth) a'r newidynnau thematig a sefydlwyd ar sail y dadansoddiad ansoddol.

Hynny yw, dangosir y cyfrannau o aelwydydd ffermio sydd wedi'u codio neu wedi'u haseinio i bob newidyn thematig unigol a sgoriodd uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd yn y mynegai perthnasol.

Yn achos pob un o'r tri mynegai, ceir tabl sy'n dangos y newidynnau thematig ar gyfer C21 ac C22.

Yn ogystal, cyflwynir tablau sy'n dangos y cyfrannau cyffredinol ar gyfer pob mynegai unigol, a'r newidynnau ansoddol thematig ar gyfer C21 ac C22.

Hynny yw, yn achos C21 ac C22, cafodd poblogaeth yr arolwg ei chodio'n rhai gwydn neu'n rhai bregus. Yn y tablau hyn dangosir y cyfrannau o'r grwpiau gwydn a bregus hynny a sgoriodd uwchlaw'r cyfartaledd neu islaw'r cyfartaledd ym mhob mynegai unigol.

### 8.4.1 Integreiddio'r Newidynnau Ansoddol a'r Mynegai o Arallgyfeirio

**Tabl 8.20 C21 – Mynegai o Arallgyfeirio/Newidynnau ansoddol**

| Bregus = B<br>Gwydn = G | C21 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer – aros yr un fath | 61% | 39% |
| B | Ansicrwydd | 62% | 38% |
| B | Dad-ddwysáu/cwtogi ar faint busnes y fferm. | 50% | 50% |
| B | Gadael ffermio – ymddeol | 80% | 21% |
| B | Gadael ffermio– rhoi'r gorau iddi/gwerthu'r fferm. | 60% | 40% |
| G | Arallgyfeirio/amlswyddogaethol/aml-incwm | 36% | 64% |
| G | Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa | 82% | 18% |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – yn rhagweithiol | 41% | 59% |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – o'u hanfodd | 57% | 43% |
| | Yn gyffredinol | 57% | 43% |

Ar y cyfan, y data hynny yw'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl, sef sgorau uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o newidynnau gwydn ac fel arall yn achos y newidynnau bregus. Anomaledd ynddynt yw'r canlyniad ar gyfer y newidyn gwydn 'Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa'. Niferoedd isel (11) oedd i'r newidyn hwn. O ganlyniad, cafodd y sgorau ar y cyrion effaith anghymesur ar gymedr y newidyn.

Yn Nhabl 8.21 dangosir y perthnasoedd ar gyfer C22 rhwng y ddau grŵp (uwchlaw'r cyfartaledd ac islaw'r cyfartaledd) ar y mynegai o arallgyfeirio a'r newidynnau a sefydlwyd ar sail y dadansoddiad ansoddol.

**Tabl 8.21 C22 - Mynegai o Arallgyfeirio/Newidynnau ansoddol**

| Bregus = B<br>Gwydn = G | C22 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer | 65% | 35% |
| B | Ansicrwydd | 60% | 40% |
| B | Dad-ddwysáu | 55% | 45% |
| B | Gadael ffermio – ymddeol | 74% | 26% |
| B | Gadael ffermio – gwerthu'r fferm | 60% | 40% |
| G | Torri costau | 56% | 44% |
| G | Ffermio'n fwy amgylcheddol | 23% | 77% |
| G | Arallgyfeirio / amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth) | 34% | 66% |
| G | Arallgyfeirio / amlswyddogaethol (ym myd amaeth) | 42% | 58% |
| G | Dwysáu / helaethu'r raddfa | 37% | 63% |
| | Yn gyffredinol | 57% | 43% |

Ym mhob achos ond un mae'r sgorau islaw'r cyfartaledd ar gyfer newidynnau bregus ac uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer newidynnau gwydn. Gellir esbonio'r anomaledd yn y newidyn 'Torri costau' drwy awgrymu y gall fod datgysylltiad rhwng arallgyfeirio a thorri costau. Er bod y bwriad i ffermio'n fwy darbodus yn dynodi pwyll a gwytnwch, nid yw'n arwydd, o reidrwydd, fod aelwyd fferm yn ymwneud â gweithgareddau arallgyfeirio.

Yn Nhabl 8.23 a Thabl 8.24 dangosir y cyfrannau cyffredinol ar gyfer y mynegai o arallgyfeirio ar gyfer C21 a'r newidynnau ansoddol ar gyfer C22.

**Tabl 8.23 C21 – Mynegai cyffredinol o Arallgyfeirio/Newidynnau ansoddol**

| C21 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bregus | 61% | 39% |
| Gwydn | 49% | 51% |
| Yn gyffredinol | 57% | 43% |

**Tabl 8.24 C22 – Mynegai cyffredinol o Arallgyfeirio/Newidynnau ansoddol**

| C22 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bregus | 61% | 39% |
| Gwydn | 45% | 55% |
| Yn gyffredinol | 57% | 43% |

Ar sail y data hynny a'r dadansoddiad ohonynt, gelir casglu bod cydberthynas rhwng sgorau islaw'r cyfartaledd a bregusrwydd, a rhwng sgorau uwchlaw'r cyfartaledd a gwytnwch, ar y mynegai o arallgyfeirio. Hynny yw, y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a sgoriodd uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o arallgyfeirio fod yn wydn. Ar y llaw arall, y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a sgoriodd islaw'r cyfartaledd ar y mynegai o arallgyfeirio fod yn fregus. [13]

### 8.4.2 Integreiddio'r Newidynnau Ansoddol a'r Mynegai o Amlswyddogaetholdeb

Yn Nhabl 8.25 dangosir y perthnasoedd ar gyfer C21 rhwng y ddau grŵp (uwchlaw'r cyfartaledd ac islaw'r cyfartaledd) ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb a'r newidynnau a sefydlwyd ar sail y dadansoddiad ansoddol.

[13] I roi prawf ar arwyddocâd ystadegol y perthnasoedd hynny, yn achos data C21 ac C22 ill dau, defnyddiwyd Chi-sgwâr Pearson i roi prawf ar ragdybiaeth nwl nad oedd perthynas rhwng y sgôr arallgyfeirio a gwytnwch/bregusrwydd. Gwrthodwyd y rhagdybiaethau nwl, a dangosai hynny fod tebygolrwydd o 95% nad perthnasoedd ar hap oeddent.

**Tabl 8.25 C21 - Mynegai o Amlswyddogaetholdeb/Newidynnau ansoddol**

| Bregus = B<br>Gwydn = G | C21 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer – aros yr un fath | 47% | 53% |
| B | Ansicrwydd | 42% | 59% |
| B | Dad-ddwysáu/cwtogi ar faint busnes y fferm. | 30% | 70% |
| B | Gadael ffermio – ymddeol | 41% | 59% |
| B | Gadael ffermio– rhoi'r gorau iddi/gwerthu'r fferm. | 49% | 51% |
| G | Arallgyfeirio/amlswyddogaethol/aml-incwm | 23% | 77% |
| G | Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa | 27% | 73% |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – yn rhagweithiol | 31% | 69% |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – o'u hanfodd | 36% | 64% |
| | Yn gyffredinol | 40% | 60% |

Yn Nhabl 8.26 dangosir y perthnasoedd ar gyfer C22 rhwng y ddau grŵp (uwchlaw'r cyfartaledd ac islaw'r cyfartaledd) ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb a'r newidynnau a sefydlwyd ar sail y dadansoddiad ansoddol.

**Tabl 8.26 C22 - Mynegai o Amlswyddogaetholdeb/Newidynnau ansoddol**

| Bregus = B<br>Gwydn = G | C22 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer | 46% | 55% |
| B | Ansicrwydd | 43% | 57% |
| B | Dad-ddwysáu | 34% | 66% |
| B | Gadael ffermio – ymddeol | 33% | 67% |
| B | Gadael ffermio – gwerthu'r fferm | 44% | 56% |
| G | Torri costau | 31% | 69% |
| G | Ffermio'n fwy amgylcheddol | 46% | 54% |
| G | Arallgyfeirio / amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth) | 34% | 66% |
| G | Arallgyfeirio / amlswyddogaethol (ym myd amaeth) | 39% | 62% |
| G | Dwysáu / helaethu'r raddfa | 32% | 68% |
| | Yn gyffredinol | 40% | 60% |

Fel y trafodwyd yn Adran 7.3.1, yr oedd y mynegai o amlswyddogaetholdeb wedi'i lunio'n bennaf o amgylch ymuno â'r ystod o gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Tuedd ei adeiladwaith, felly, oedd bod yn ddeuaidd. Arweiniodd hynny at y dosbarthiad deufodd yn Ffigur 7.2 a'r dosbarthiad cyffredinol o 40% islaw'r cyfartaledd a 60% uwchlaw'r cyfartaledd, gan amlygu mwy o wahaniaeth oddi wrth y cymedr na'r mynegeion o arallgyfeirio ac entrepreneuriaeth. Gan fod y mynegai o amlswyddogaetholdeb yn is o ran cyfrannedd na'r cymedrau ar gyfer arallgyfeirio neu entrepreneuriaeth, ceid gogwydd tuag at sgorau uwchlaw'r cyfartaledd. Yn Nhablau 8.27 a 8.28 dangosir y cyfrannau cyffredinol ar gyfer y mynegai o arallgyfeirio a'r newidynnau ansoddol ar gyfer C21 ac C22.

**Tabl 8.27 C21 – Mynegai Cyffredinol o Amlswyddogaetholdeb/Newidynnau ansoddol**

| C21 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bregus | 44% | 56% |
| Gwydn | 32% | 68% |
| Yn gyffredinol | 40% | 60% |

**Tabl 8.28 C22 – Mynegai Cyffredinol o Amlswyddogaetholdeb/Newidynnau ansoddol**

| C22 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bregus | 42% | 58% |
| Gwydn | 33% | 67% |
| Yn gyffredinol | 40% | 60% |

Yn achos C21 ac C22 ill dau yr oedd y cyfrannau uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer gwytnwch yn fwy, ac ar gyfer islaw'r cyfartaledd yn llai, na'r cyfrannau cyfatebol ar gyfer bregusrwydd. Ar sail y data hynny a'r dadansoddiad, gellir casglu bod cydberthynas rhwng sgorau islaw'r cyfartaledd a bregusrwydd a rhwng sgorau uwchlaw'r cyfartaledd a gwytnwch ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb. Hynny yw, y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a sgoriodd uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb fod yn wydn. Ar y llaw arall, y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a sgoriodd islaw'r cyfartaledd ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb fod yn fregus.[14]

### 8.4.3 Integreiddio'r Newidynnau Ansoddol a'r Mynegai o Entrepreneuriaeth

Yn Nhabl 8.29 dangosir y cyfrannau cyffredinol ar gyfer y mynegai o entrepreneuriaeth a'r newidynnau ansoddol ar gyfer C21.

Ar y cyfan, y data hynny yw'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl, sef sgorau uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o newidynnau gwydn ac fel arall yn achos y newidynnau bregus. Dangosir hynny gliriaf yn achos y newidynnau gwydn, sef 'Arallgyfeirio/ amlswyddogaethol/aml-incwm' ac 'Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – yn rhagweithiol'. Gellir esbonio'r anomaledd yn achos 'Dad-ddwysáu busnes y fferm' drwy ddweud bod aelwydydd fferm yn torri'n ôl ar weithgareddau creiddiol y fferm ac yn symud i fusnesau eraill.

[14] Yn yr un modd ag yn achos y perthnasoedd rhwng sgorau ar y mynegai o arallgyfeirio a'r newidynnau ansoddol, defnyddiwyd Chi-sgwâr Pearson i roi prawf ar y perthnasoedd hynny.

**Tabl 8.29 C21 – Mynegai Cyffredinol o Entrepreneuriaeth/Newidynnau ansoddol**

| Bregus = B Gwydn = G | C21 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer – aros yr un fath | 51% | 49% |
| B | Ansicrwydd | 51% | 49% |
| B | Dad-ddwysáu busnes y fferm. | 35% | 65% |
| B | Gadael ffermio – ymddeol | 62% | 39% |
| B | Gadael ffermio – rhoi'r gorau iddi/gwerthu'r fferm. | 58% | 42% |
| G | Arallgyfeirio/amlswyddogaethol/aml-incwm. | 25% | 75% |
| G | Dwysáu busnes y fferm/helaethu'r raddfa | 55% | 46% |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – yn rhagweithiol | 29% | 71% |
| G | Ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau amgylcheddol – o'u hanfodd | 46% | 54% |
| | Yn gyffredinol | 47% | 53% |

Yn Nhabl 8.30 dangosir y cyfrannau cyffredinol ar gyfer y mynegai o entrepreneuriaeth a'r newidynnau ansoddol ar gyfer C22.

**Tabl 8.30 C22 – Mynegai Cyffredinol o Entrepreneuriaeth/Newidynnau ansoddol**

| Bregus = B Gwydn = G | C22 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| B | Cario ymlaen â'r busnes fel arfer | 58% | 42% |
| B | Ansicrwydd | 44% | 56% |
| B | Dad-ddwysáu | 47% | 54% |
| B | Gadael ffermio – ymddeol | 63% | 37% |
| B | Gadael ffermio – gwerthu'r fferm | 52% | 48% |
| G | Torri costau | 35% | 65% |
| G | Ffermio'n fwy amgylcheddol | 31% | 69% |
| G | Arallgyfeirio / amlswyddogaethol (y tu allan i fyd amaeth) | 32% | 69% |
| G | Arallgyfeirio / amlswyddogaethol (ym myd amaeth) | 31% | 69% |
| G | Dwysáu / helaethu'r raddfa | 11% | 90% |
| | Yn gyffredinol | 47% | 53% |

Yn Nhabl 8.30 dangosir bod perthnasoedd clir rhwng sgorau uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o entrepreneuriaeth a gwytnwch. Yn yr un modd, ceid perthnasoedd clir rhwng sgorau islaw'r cyfartaledd a bregusrwydd ar gyfer y newidyn 'Cario ymlaen â'r busnes fel arfer' a'r ddau newidyn 'Gadael ffermio'. Er bod rhywfaint o amwysedd yn achos y newidynnau 'Ansicrwydd' a 'Ddad-ddwysáu', yr oedd y newidynnau bregus eraill yn dangos bod perthnasoedd clir rhwng sgorau islaw'r cyfartaledd ar y mynegai entrepreneuriaeth a bregusrwydd.

**Tabl 8.31 C21 – Mynegai Cyffredinol o Entrepreneuriaeth/Newidynnau ansoddol**

| C21 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bregus | 52% | 48% |
| Gwydn | 37% | 63% |
| Yn gyffredinol | 47% | 53% |

**Tabl 8.32 C22 – Mynegai Cyffredinol o Entrepreneuriaeth/Newidynnau ansoddol**

| C22 | Islaw'r Cyfartaledd | Uwchlaw'r Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Bregus | 52% | 48% |
| Gwydn | 31% | 69% |
| Yn gyffredinol | 47% | 53% |

Ar sail y darlun cyffredinol o'r perthnasoedd rhwng entrepreneuriaeth ac agweddau'r aelwydydd fferm gellir casglu bod cydberthynas rhwng sgorau islaw'r cyfartaledd a bregusrwydd a sgorau uwchlaw'r cyfartaledd a gwytnwch ar y mynegai o entrepreneuriaeth. Hynny yw, y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a sgoriodd uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o entrepreneuriaeth fod yn wydn. Ar y llaw arall, y duedd oedd i aelwydydd fferm a sgoriodd islaw'r cyfartaledd ar y mynegai o entrepreneuriaeth fod yn fregus[15].

## 8.5 Bregusrwydd a Gadael ffermio

Ar sail y dadansoddiad, gwelwyd bod aelwydydd fferm a allai 'Adael ffermio' yn grŵp bregus o bwys. Yn Nhabl 8.33 dangosir maint cyffredinol y grŵp gadael, ac yn Nhabl 8.34 dangosir sut yr oedd y grŵp hwnnw'n amrywio yn ôl y math o fferm yn achos sefyllfaoedd C21 ac C22.

**Tabl 8.33 C21 ac C22 – Grŵp gadael**

| | Nifer | Cyfran o'r arolwg |
|---|---|---|
| **C21-Gadael** | 143 | 14% |
| **C22-Gadael** | 275 | 27% |

**Tabl 8.34 C21 ac C22 – Y grŵp gadael yn ôl y math o fferm**

| Y Prif Fath o Fferm | C21 - Gadael | C22 – Gadael |
|---|---|---|
| Llaeth | 17% | 22% |
| Cig Eidion | 25% | 26% |
| Defaid | 42% | 36% |
| Amrywiol – Cnydau, Dofednod, Garddwriaeth ac Eraill | 10% | 8% |
| Heb Wybod neu Wedi Gwrthod | 6% | 7% |
| Yn gyffredinol | 100% | 100% |

Yn Nhabl 8.34 dangosir mai ffermydd defaid, yn achos y sefyllfaoedd a awgrymwyd yn C21 ac C22, oedd y math o aelwyd fferm a oedd debycaf o adael ffermio.

[15] Defnyddiwyd Chi-sgwâr Pearson i roi prawf ar y perthnasoedd hynny.

## Y CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Yn achos C21 – sefyllfa lle gallai newidiadau posibl mewn polisïau arwain at ostwng taliadau i ffermwyr neu fynnu newidiadau mewn arferion ffermio, megis cynyddu cyfrifoldebau amgylcheddol.**

Ar y cyfan, yr oedd 68% o'r aelwydydd fferm yn fregus

Yr oedd 71% o'r ffermydd cig eidion yn fregus

Aelwydydd fferm dan arweiniad ffermwyr dan 35 oed oedd y rhai mwyaf bregus

Ar ôl 54 oed, y duedd oedd i fregusrwydd i gynyddu unwaith eto

Y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a oedd yn annhebygol o ymuno â Glastir fod yn fregus

Y duedd oedd i aelwydydd fferm yr oedd angen iddynt gael gwybod rhagor am gynllun Glastir fod ychydig bach yn fwy bregus

Yr oedd yr aelwydydd fferm a oedd yn ymwybodol o gynllun Glastir yn fwy gwydn

Yr oedd yr aelwydydd fferm a oedd â chynllun busnes yn fwy gwydn

**Yn achos C22 – sefyllfa a welai gostau'r mewnbynnau'n dal i godi ond prisiau wrth glwyd y fferm yn gostwng.**

Ar y cyfan, yr oedd 75% o'r aelwydydd fferm yn fregus

Yr oedd 80% o'r ffermydd cig eidion yn fregus

Y grŵp oedran ifancaf oedd y mwyaf gwydn ac fe gynyddai bregusrwydd gydag oedran

Yr oedd yr aelwydydd fferm a oedd â chynllun busnes yn fwy gwydn

Y duedd oedd i'r aelwydydd fferm a oedd yn annhebygol o ymuno â Glastir fod yn fregus

Y duedd oedd i aelwydydd fferm yr oedd angen iddynt gael gwybod rhagor am gynllun Glastir fod ychydig bach yn fwy bregus

Yr oedd yr aelwydydd fferm a oedd yn ymwybodol o gynllun Glastir yn fwy gwydn

**Canfyddiadau Allweddol Cyffredinol**

Y duedd oedd i fregusrwydd gynyddu wrth i faint y fferm leihau

Cafwyd bod aelwydydd fferm a allai 'Adael ffermio' yn grŵp bregus o bwys – o fewn y grŵp hwnnw, ffermydd defaid oedd â'r gyfran fwyaf

Y duedd oedd i aelwydydd fferm mewn ALFf fod yn fwy bregus

Yr oedd perthynas rhwng incwm is a chyfraddau helaethach o fregusrwydd

## 9.1 Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag arolwg o fil a rhagor o aelwydydd fferm yng Nghymru. O ystyried y ffordd y lluniwyd y sampl, o ran maint economaidd y fferm, a'r ymdriniaeth ddaearyddol, yr oedd yr arolwg yn gynrychioliadol o aelwydydd fferm yng Nghymru.

Gwnaed yr arolwg drwy ddefnyddio holiadur dros y ffôn i gael data meintiol ac ansoddol. Dadansoddir y data hynny ar sail amlder a chymariaethau, a hefyd drwy groestablu newidynnau. Yn ogystal, lluniodd yr ymchwilwyr newidynnau cymhleth ar sail y data er mwyn ymchwilio'n ddyfnach i rai perthnasoedd.

Yn yr adroddiad hwn ceir pedair adran sy'n cyflwyno sylwadau ar bedair lefel o ddadansoddi. Yn Adran 5 ceir dadansoddiadau o amlder a chroestabliadau yn bennaf. Mae'r dadansoddiad hwnnw'n fodd i gynnig darlun o gyfansoddiad yr aelwydydd fferm yn yr arolwg; eu proffiliau o ran incwm; a sut y rhoesant sylw i faterion fel arallgyfeirio, rheoli'r busnes, a thechnoleg gwybodaeth. Yn Adran 6 dadansoddir yr atebion i'r ddau gwestiwn ansoddol a ofynnwyd i'r aelwydydd fferm. Gan fod y dadansoddiad ansoddol yn Adran 6 yn defnyddio codau a sefydlwyd ar sail y data yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt, mae'r dadansoddiad yn Adran 6 yn cynnig cipolygon ar farn aelwydydd fferm ledled Cymru, a sut y gallent weithredu wrth wynebu sefyllfaoedd penodol a oedd yn ymwneud â pholisïau, taliadau a'r marchnadoedd. Y ddau gwestiwn a ofynnwyd yn y sefyllfaoedd hynny oedd:

**Cwestiwn 21. Pe bai newidiadau mewn polisïau amaethyddol ar ôl 2013 yn arwain at ostyngiad mewn taliadau i ffermwyr, neu'n gofyn am newidiadau i arferion ffermio, er enghraifft, cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol, beth fyddech chi'n ei wneud?**

**Cwestiwn 22. Pe bai costau mewnbwn yn parhau i godi, ochr yn ochr â gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm, beth fyddwch chi'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf?**

Yn Adran 7 ceir dadansoddiad typolegol sy'n categoreiddio aelwydydd fferm yn dri modd neu Fynegai o arferion ffermio, sef Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth. Lluniwyd y Mynegeion hynny ar sail y data. Cynigiant fesur o hyd a lled ymrwymiad aelwydydd fferm ledled Cymru i ymwrthod â chynhyrchu cynnyrch amaethyddol ac, felly, o'u gwytnwch a'u bregusrwydd os bydd newidiadau ym myd amaeth ac mewn polisïau.

Yn Adran 8 fe gydblethir y dadansoddiadau a wnaed yn Adran 6 ac Adran 7. Mae'r dadansoddiad integredig hwnnw'n rhoi sylw i Nodau 3 a 4 y Prosiect ac yn nodi aelwydydd fferm bregus a gwydn yn nhermau canrannau.

Ar ddiwedd pob un o Adrannau 5, 6, 7 ac 8 ceir crynodeb ar ffurf pwyntiau bwled o'r canfyddiadau allweddol. Nid bwriad yr adran gloi hon yw ailrestru'r canfyddiadau hynny, ond eu cynnull mewn ffordd a allai fod yn ddefnyddiol wrth roi sylw i nodau'r prosiect. Dyma nodau'r prosiect fel y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y Cynulliad:

Nod 1 Nodi llifoedd incwm aelwydydd drwy asesu cyfanswm incwm aelwydydd fferm o weithgareddau ffermio a gweithgareddau heblaw ffermio;

Nod 2 Amlygu hyd a lled yr arallgyfeirio a'r aml-swyddi;

Nod 3 Amlinellu'r ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP, ac ymchwilio i agweddau ymddygiadol;

Nod 4 Sefydlu gwytnwch a bregusrwydd aelwydydd o ran diwygio'r CAP;

Nod 5 Darparu tystiolaeth sy'n fodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith ei pholisïau a bwydo hynny i'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig. Rhagwelir y ceir data hydredol drwy ailwneud yr arolwg bob tair blynedd.

Yn fras, rhoir sylw i Nod 1 drwy ddadansoddi'r data am incwm; i Nod 2 drwy ddadansoddi'r data am arallgyfeirio a gweithgareddau eraill; ac i Nod 3 a Nod 4 drwy'r dadansoddiadau ansoddol, typolegol ac integredig. Nod 5 yw thema lywodraethol yr ymchwil.

**Nod 1 – Ffynonellau incwm aelwydydd fferm yng Nghymru**

Fel y nodir ym mhrif gorff yr adroddiad, mae incwm yn fater sensitif ac yn aml ceir lefel isel o ymateb i gwestiynau arolygon am incwm. Ond cafwyd ymateb da iawn i'r cwestiynau am incwm yn yr arolwg hwn gan i 87% o'r cyfweleion ymateb iddynt. Ar ben hynny, cafwyd lefel hyd yn oed yn uwch o ymateb i'r cwestiynau am ffynonellau eu hincwm ac am eu dibyniaeth gymharol ar y ffynonellau incwm hynny: ymatebodd 99% o'r cyfweleion i'r cwestiynau hynny.

Yr oedd trosiant busnes cyfran fawr (38%) o'r ffermydd yn llai na £25,000 y flwyddyn, ac ymhlith y ffermydd bach iawn a bach yr oedd y ffermydd hynny gan mwyaf. Ffermydd llaeth oedd â'r trosiant mwyaf.

O ran Cyfanswm Incwm Blynyddol yr Aelwyd, nid oedd y duedd i ffermydd mawr a mawr iawn fod â chyfanswm helaethach o incwm ond i'w gweld yn yr amrediad o lai na £10,000, lle'r oedd ffermydd mawr a mawr iawn yn brin, a niferoedd helaethach o ffermydd bach a bach iawn, ac yn yr ystodau uwchlaw £52,000, lle'r oedd y sefyllfa fel arall. O ran y math o fferm, y duedd oedd i ffermydd llaeth fod â'r incwm blynyddol mwyaf. Dangosodd y dadansoddiad hefyd fod 28% o'r sampl heb fod mewn Ardal Lai Ffafriol [ALFf] a bod tuedd i'r aelwydydd fferm hynny fod â mwy o incwm blynyddol na'r rhai mewn ALFf.

O ran ffynonellau eu hincwm, credai 50% o aelwydydd fferm mai'r farchnad oedd prif ffynhonnell eu hincwm. Er hynny, credai 14% mai'r Taliad Sengl a ddarparai'r gyfran fwyaf o incwm yr aelwyd. [16]

Dylid nodi bod 27% – pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol beth a wnaent pe bai'r Taliad Sengl yn cael ei ostwng (Adran 5.4.1) – yn debygol neu'n debygol iawn o adael ffermio.

I 15% o'r sampl, prif ffynhonnell incwm y fferm oedd yr incwm y deuid ag ef i'r aelwyd gan aelodau o'r teulu o waith oddi ar y fferm – câi 41% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd incwm o ffynonellau nad oeddent yn gysylltiedig â'r fferm na byd amaeth. Ac er nad oedd taliadau o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn brif ffynhonnell incwm ond i 2%, ac er bod cyfrannau bach o'r cyfweleion o'r farn y byddai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ffynonellau pwysig o incwm yn y dyfodol, credai 7% o aelwydydd mai gweithgareddau arallgyfeirio oedd prif ffynhonnell eu hincwm – gweithredai 50% o'r aelwydydd fferm ryw ffurf ar arallgyfeirio.

---

[16] Yr oedd problem, mae'n debyg, ynghylch canfyddiad. Mae'r data gan yr FBS yn Nhabl 2.6 yn yr adroddiad hwn yn dangos i ffermydd mewn ALFfoedd dynodedig yng Nghymru gael 113% o'u hincwm yn 2009 o'r Taliad Sengl.

Ffermydd llaeth oedd debycaf o gael y gyfran fwyaf o incwm yr aelwyd o'r farchnad; gwnâi 80% hynny. Ffermydd cig eidion a ffermydd defaid a ddangosodd y ddibyniaeth fwyaf ar y Taliad Sengl – 17% yn y naill gategori a'r llall. A chan fathau amrywiol o fferm yr oedd y gyfran fwyaf (29%) a gredai mai arallgyfeirio oedd prif ffynhonnell eu hincwm.

O edrych i'r dyfodol, credai 50% o'r cyfweleion, yn gyffredinol. mai'r farchnad fyddai'n dal i fod yn brif ffynhonnell eu hincwm. Ond ar draws meintiau'r ffermydd, yr oedd tuedd i ffermydd bach iawn, fel grŵp, ddibynnu llai ar y farchnad fel ffynhonnell incwm at y dyfodol. Yr oedd ffermydd bach iawn yn debycach na ffermydd yn yr un o'r categorïau eraill o faint y fferm o roi mwy o bwys posibl ar gael incwm o gyflogau aelodau eraill o'r aelwyd oddi ar y fferm ac o arallgyfeirio.

O ran y Taliad Sengl, ffermydd bach iawn a roddai'r pwys posibl lleiaf arno ac, yn yr un modd, ychydig o bwys a roddai ffermydd mawr/mawr iawn arno at y dyfodol. Ar y llaw arall, credai cyfrannau cymharol fawr o ffermydd bach a chanolig y byddai'r Taliad Sengl yn ffynhonnell bwysig o incwm iddynt at y dyfodol.

O ran y math o fferm, credai 76% o'r ffermydd llaeth mai'r farchnad fyddai eu ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol; barnai 30% o'r ffermydd defaid mai'r Taliad Sengl fyddai eu ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol; a chredai 37% o'r ffermydd o fath amrywiol mai arallgyfeirio fyddai eu ffynhonnell bwysicaf o incwm yn y dyfodol.

Cefnogwyd yr awgrymiadau a'r rhagolygon hynny gan y dadansoddiad ansoddol yn Adran 6. Ynddo, dangoswyd y byddai newidiadau mewn polisïau – a'r rheiny o bosibl yn cwtogi ar y taliadau i ffermydd – ynghyd ag amodau anffafriol yn y farchnad o'r mathau a awgrymwyd uchod – yn golygu y byddai cyfrannau arwyddocaol o sampl yr arolwg yn mynd ymlaen â'u busnes fel arfer, neu heb wybod beth i'w wneud, neu'n gwerthu'r fferm neu'n mynd yn fethdalwyr. Dadlennodd y dadansoddiad ansoddol i unigolion ddweud eu bod yn ddibynnol ar y Taliad Sengl a bod canfyddiad o ddibyniaeth eang ar y Taliad hwnnw.

I grynhoi. Er mai'r farchnad oedd ffynhonnell bwysicaf incwm y mwyafrif o aelwydydd fferm ar y pryd, dibynnai cryn gyfran o'r aelwydydd yn drwm ar y Taliad Sengl ac ar incwm aelodau o'r aelodau o'r tu allan i'r fferm. Credai 50% o'r sampl mai'r farchnad fyddai'n dal i fod yn ffynhonnell bwysicaf eu hincwm. Y duedd oedd i ffermydd bach iawn a ffermydd o fath amrywiol ddibynnu llai ar y farchnad fel ffynhonnell incwm at y dyfodol. Rhoddai'r mathau hynny o fferm fwy o bwys ar incwm o swyddi aelodau eraill o'r aelwyd oddi ar y fferm, ac o arallgyfeirio. Credai cyfrannau cymharol fawr o ffermydd bach a chanolig, a ffermydd defaid a ffermydd cig eidion, y byddai'r Taliad Sengl yn ffynhonnell bwysig o'u hincwm yn y dyfodol. Ond cyfrannau bach yn unig o'r cyfweleion a gredai y byddai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn ffynonellau pwysig o incwm yn y dyfodol.

Y newyddion drwg o'r dadansoddiad hwn yw bod y cyfraddau uchel o ddibynnu ar y farchnad ac ar y Taliad Sengl am eu hincwm yn arwydd y gallai'r aelwydydd fferm sydd â'r nodweddion hynny wynebu problemau ariannol pe câi'r Taliad Sengl ei ostwng neu petai amodau'r farchnad yn dirywio.

Ar y llaw arall, y newyddion da o'r dadansoddiad hwn yw bod lefelau cymharol uchel o ffermydd yn cael, ac yn rhagweld y cânt eu hincwm o weithgareddau oddi ar y fferm ac o arallgyfeirio. Gellid dehongli hynny'n arwydd bod yr aelwydydd fferm hynny wrthi'n ymwrthod â dibynnu ar

gynhyrchu cynnyrch amaethyddol ac yn mynd i'r afael â'r paradeim o ddatblygu gwledig sy'n dod i'r amlwg ac a amlinellwyd yn Adran 2. Trafodir rhagor ar y paradeim hwnnw yn y Casgliadau.

**Nod 2 – Hyd a lled yr arallgyfeirio a'r aml-swyddi**

Gan ddefnyddio'r diffiniad o arallgyfeirio fel 'Datblygu gweithgareddau anamaethyddol ar y fferm i helpu i gynnal daliad y fferm', mae'r data o brif destun yr adroddiad yn dangos bod 50% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd yn gweithredu rhyw fath o weithgarwch arallgyfeirio.

Dangosir y data hynny yn y tabl isod a dynnwyd o Adran 5 yn nhestun y prif adroddiad.

| | Wrthi'n eu Rhedeg |
|---|---|
| Gwasanaethau amaethyddol (e.e. contractio) | 21% |
| Prosesu bwyd ar y fferm | 4% |
| Manwerthu bwyd ar y fferm (e.e. siop fferm) | 5% |
| Contractio anamaethyddol | 9% |
| Llety ar y fferm (e.e. gwely a brecwast, hunanarlwyo) | 10% |
| Ceffylau (e.e. stablau hurio, pori, llwybrau marchogaeth, gwersi marchogaeth) | 7% |
| Gweithgareddau hamdden eraill ar y fferm (chwaraeon, ffermydd agored) | 4% |
| Prydlesu adeiladau | 5% |
| Prydlesu tir – Defnydd amaethyddol | 8% |
| Prydlesu tir – Defnydd anamaethyddol e.e. prosiectau ynni adnewyddadwy | 2% |
| Eraill | 8% |

Gwelir yn y tabl mai contractio amaethyddol oedd y gweithgarwch a gyflawnid gan y gyfran fwyaf, sef 21%. Y duedd fyddai i unrhyw ehangu ar y math hwnnw o weithgarwch ddibynnu ar fodolaeth sefyllfa lle byddai ffermwyr eraill yn dal i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol. Gellid dweud bod prydlesu tir at ddefnydd amaethyddol, sef busnes a gyflawnid gan 8%, hefyd yn dibynnu ar gynnal y lefelau cyfredol, o leiaf, o gynhyrchu cynnyrch amaethyddol.

Gellid dadlau mai strategaeth well i aelwydydd fferm fyddai ehangu i rai o'r gweithgareddau eraill ar y rhestr, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag agenda twristiaeth ac agenda ynni amgen.

Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau arallgyfeirio y soniodd y cyfweleion amdanynt ac a anelid at farchnadoedd newydd, yr oedd garddwriaeth; da byw eraill megis moch, byfflos dŵr, lamas ac estrys; cnydau ynni; cnydau diwydiannol megis ffibr ac olewau; a chnydau organig a da byw organig.

O ran cynhyrchion organig, yr oedd 10% o gyfanswm yr aelwydydd fferm yn cynhyrchu cnydau organig neu dda byw organig neu'r ddau i ryw raddau. O ran y math o fferm, yr oedd 35% o'r 'cynhyrchwyr organig' hynny'n ffermydd defaid a 27% yn ffermydd cig eidion. Ffermydd llaeth oedd 15% o gyfanswm y cynhyrchwyr organig a ffermydd amrywiol oedd 17%.

Yr oedd cysylltiad hefyd rhwng y gweithgareddau arallgyfeirio y mae aelwydydd fferm unigol niferoedd bach ohonynt yn ymgymryd â hwy â'r agenda twristiaeth ac ynni amgen. Yn eu plith yr oedd coedwigaeth (gan gynnwys cynhyrchu coed tân); ffermydd a thyrbinau gwynt; safleoedd carafanau; prydlesu tir ar gyfer mastiau telathrebu; llety cŵn; cneifio defaid dan gontract; magu cŵn; cynlluniau marchnata cyfnewid llafur [LETS]; saethu; prydlesu glannau afonydd; masnachwyr bwydydd anifeiliaid; defnydd cofrestredig o ffermydd ar gyfer gwneud ffilmiau; atgyweirio tractorau; prosiectau anghenion arbennig; ac amrywiaeth o gyrsiau gweithgareddau gwledig fel plygu perthi, toi, gwaith helyg, bugeilio,

codi adeiladau clom a gwneud cyryglau. Byddai rhai o'r gweithgareddau arallgyfeirio hynny'n bosibiliadau da ar gyfer twristiaeth a chyrsiau y codid ffi i'w dilyn.

Pan ofynnwyd a oeddent yn debyg o ymgymryd â rhagor o weithgareddau arallgyfeirio dros y pum mlynedd nesaf, dywedodd 30% o'r cyfweleion, yn ôl y dadansoddiad, eu bod yn debygol neu'n debygol iawn o ehangu eu gweithgareddau arallgyfeirio. Ond enwodd y cyfweleion amrywiaeth o bethau a allai, yn eu barn hwy, eu rhwystro rhag cyflawni eu cynlluniau i arallgyfeirio. Yn eu plith yr oedd darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth annigonol; enillion ariannol isel; problemau o ran gallu personél y fferm a'u hyfforddi; deddfwriaeth a rheoliadau; a chaniatâd cynllunio. O ran pwysigrwydd arallgyfeirio yn y dyfodol, cafwyd rhywfaint o amwysedd neu anghydseiniant gwybyddol; credai 42% o'r cyfweleion y gallai arallgyfeirio fod yn bwysig i'w haelwyd ond credai 81% y gallai fod yn bwysig i aelwydydd fferm ledled Cymru.

O ran hyd a lled cyflawni mwy nag un swydd, yr oedd gan 28% o'r bobl a atebodd y cwestiynau hynny swydd neu fusnes nad oedd yn gysylltiedig â'r fferm na byd amaeth. Yn ogystal, mewn 36% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd, yr oedd gan aelodau eraill o'r aelwyd swydd neu fusnes nad oedd yn gysylltiedig â'r fferm na byd amaeth ond a gyfrannai i incwm yr aelwyd. Ar y cyfan, câi 41% o'r aelwydydd fferm a arolygwyd incwm o ffynonellau nad oeddent yn gysylltiedig â'r fferm na byd amaeth. Fel y dangoswyd uchod, yn achos 17% o sampl yr arolwg, incwm o ffynhonnell oddi ar y fferm oedd prif ffynhonnell cyfanswm incwm yr aelwyd.

Gan edrych i'r dyfodol, credai 15% o'r cyfanswm a arolygwyd mai incwm o ffynonellau heblaw'r fferm fyddai'r ffynhonnell bwysicaf o incwm aelwyd. Yr oedd gan gyfrannau helaethach o ffermydd bach iawn, ac i raddau llai, ffermydd bach, lifoedd incwm i'r aelwyd o weithgareddau heblaw'r fferm. Yn ogystal, yr oedd ffermydd bach iawn yn debycach o gredu mai incwm o ffynonellau heblaw'r fferm fyddai bwysicaf iddynt yn y dyfodol. Po fwyaf y fferm, lleiaf yn y byd oedd y pwys a roid ar incwm o ffynonellau heblaw'r fferm.

Fe welwyd, felly, fod lefelau cymharol uchel o swyddi oddi ar y fferm ac, o'i gymryd yn fras, o arallgyfeirio. Ar sail y dadansoddiad, awgrymir bod dwy broblem bwysig yn codi. Yn gyntaf, bod angen darparu rhagor o gyfleoedd i gael swyddi oddi ar ffermydd, yn enwedig yng nghefn gwlad – a hynny o ran swyddi a mynediad i swyddi. Yn ail, os bwriedir hybu arallgyfeirio, dylid gwneud hynny ar ffurfiau sy'n cysylltu ag agenda megis twristiaeth, marchnadoedd arbenigol ac ynni amgen yn hytrach na chynhyrchu cynnyrch amaethyddol.

**Nod 3 – Ymatebion posibl i ddiwygio'r CAP, ac agweddau ymddygiadol**

**Nod 4 – Gwytnwch a bregusrwydd aelwydydd o ran diwygio'r CAP**

Y cam gorau yw crynhoi gyda'i gilydd y dadansoddiadau sy'n rhoi sylw i Nod 3 a Nod 4 y prosiect. Yn wir, i ryw raddau, ac o ganlyniad i natur orgyffyrddol nodau'r prosiect, mae'r dadansoddiad cynharach yn Adran 5 yn rhoi rhywfaint o sylw i Nod 4, sef sefydlu gwytnwch a bregusrwydd aelwydydd o ran diwygio'r CAP. Hynny yw, y duedd fydd i'r aelwydydd sydd â ffynonellau o incwm oddi ar y fferm ac sydd wedi arallgyfeirio fod yn wytnach wrth wynebu'r posibilrwydd y caiff y CAP ei ddiwygio. Yn yr un modd, y duedd fydd i'r aelwydydd fferm sy'n dibynnu ar y Taliad Sengl a'r rhai sy'n dibynnu ar gynhyrchu cynnyrch amaethyddol fod yn fregus os diwygir y CAP.

***Dadansoddiad ansoddol***

Mae'r dadansoddiad ansoddol yn rhoi gwybod i ni am agweddau penodol ar agweddau ymddygiadol aelwydydd fferm yng Nghymru. Mae'r dyfyniadau o eiriau'r cyfweleion yn cynnig persbectifau unigolion. Mae'r dadansoddiad ansoddol, er enghraifft, yn datgelu hyn: petai diwygio polisïau'n mynnu bod ffermwyr yn ymgymryd â rhagor o gyfrifoldeb amgylcheddol, byddai 6% yn gwneud hynny'n rhagweithiol fel strategaeth ac 1% yn gwneud hynny o'u hanfodd. Yn ogystal, mynegodd cyfweleion yn y dadansoddiad ansoddol bryderon nad oedd na Llywodraeth y Cynulliad na'r cyhoedd yn deall ffermio a ffermwyr; mai prif ddiben ffermio oedd cynhyrchu bwyd, ond aethai hynny'n angof; a bod diogelu'r amgylchedd wedi mynd yn rhy bell.

Yn fwy cyffredinol, teimlwyd bod rhai cyfweleion yn ansicr o le ffermwyr mewn byd sy'n newid, yn enwedig o ran yr hyn a dybient oedd yn groestynnu rhwng cynhyrchu bwyd a diogelu'r amgylchedd. Er i rai deimlo y caent eu gorfodi i adael byd amaeth, teimlad llawer o'r cyfweleion oedd eu bod ynghlwm wrth eu tir oherwydd eu geni yno, eu cysylltiad â'r lle a'r diwylliant, a'u hawydd i drosglwyddo'r fferm i genedlaethau olynol. Ond credai llawer na fyddai hynny'n bosibl. Adlewyrchir y pryderon hynny gan y data ar olyniaeth: yr oedd gan 60% ohonynt olynydd tebygol i'r fferm a chan 47% gynlluniau ar gyfer olyniaeth deuluol.

Canlyniad codio'r ymatebion unigol oedd creu darlun mwy cyffredinol o ymateb posibl ffermwyr yng Nghymru i ddiwygio'r CAP ac o'u hagweddau ymddygiadol.

Cynlluniwyd i'r codau adlewyrchu'r ymatebion i'r sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd yn y ddau gwestiwn penagored a hefyd agweddau'r ffermwyr at oblygiadau'r sefyllfaoedd hynny (Nod 3). Ond dechreuant awgrymu raddau o wytnwch a bregusrwydd mewn aelwydydd fferm yng Nghymru (Nod 4). Rhoir sylw dyfnach i Nod 4 y prosiect drwy integreiddio'r codau ansoddol â'r mynegeion a sefydlwyd gan y dadansoddiad typolegol yn Adran 7.

***Dadansoddiad typolegol***

Lluniodd yr ymchwilwyr dri mynegai, sef Arallgyfeirio, Amlswyddogaetholdeb ac Entrepreneuriaeth. Yn Adran 4 ac Atodiad 2 fe ddisgrifir y broses o lunio'r newidynnau cymhleth hynny ar gyfer y gwaith dadansoddi.

Arallgyfeirio – diffinnir hwn fel datblygu gweithgareddau anamaethyddol ar y fferm i helpu i gynnal daliad y fferm.

Yr hyn a ddatgelodd y dadansoddiad typolegol oedd mai ffermydd llaeth, o'r tri phrif fath o fferm, oedd y rhai lleiaf tebygol o arallgyfeirio, bod ffermydd defaid ychydig bach yn llai tebygol o arallgyfeirio, ac mai ffermydd cig eidion a gafodd y sgorau uchaf am arallgyfeirio. Ond y mathau o fferm â'r sgorau uchaf am arallgyfeirio oedd 'mathau eraill', megis garddwriaeth, cnydau a magu da byw amgen. O ran maint y fferm, ffermydd bach iawn (43% uwchlaw'r cyfartaledd), ffermydd bach (45%) a ffermydd canolig (40%) wnaeth orau ar y mynegai o arallgyfeirio. Y grŵp o ffermydd mawr a mawr iawn oedd â'r gyfran uchaf o ffermydd isel eu sgôr am arallgyfeirio, sef 58%.

Amlswyddogaetholdeb – diffinnir hwn fel hyd a lled cyfraniad ffermydd, y tu hwnt i'w swyddogaeth gychwynnol o gynhyrchu bwyd a ffibr, i fanteision amgylcheddol megis cadwraeth tir, rheoli adnoddau naturiol adnewyddadwy yn gynaladwy; diogelu bioamrywiaeth; ac agweddau economaidd-gymdeithasol.

O'r tri phrif fath o fferm, ffermydd defaid wnaeth orau o ran amlswyddogaetholdeb gan fod 67% ohonynt uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai. Gan ffermydd cig eidion y cafwyd y canlyniadau ail uchaf, sef 59% uwchlaw'r cyfartaledd. Rhagorodd pob un o'r tri phrif fath o ffermydd, sef defaid, cig eidion a llaeth, ar y mathau 'eraill' o ffermydd.

O ran maint y fferm ac amlswyddogaetholdeb, y ffermydd bach iawn a wnaeth waethaf, sef 48% uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai. Ffermydd bach a chanolig oedd â'r cyfrannau uchaf uwchlaw'r cyfartaledd o ran amlswyddogaetholdeb, sef 67% yn achos y naill fath a'r llall.

Mae amlswyddogaetholdeb wedi'i blethu i'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Yma, yr oedd 84% o sampl yr arolwg yn ymwybodol o gynllun Glastir, y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, ac er bod 50% o'r rhai a oedd yn ymwybodol ohono yn debygol o ymuno ag ef, golygai hynny fod gan 50% bryderon. Ar bob lefel yn y dadansoddiad, cafwyd pryderon amlwg ynglŷn â'r datblygu sydd ar rôl amlswyddogaethol ffermydd. Er enghraifft, er bod 60% o'r cyfweleion (wedi bod) mewn cynllun amaeth-amgylcheddol, cyfeiriwyd at rwystrau rhag ymuno. Yn eu plith, yr oedd rheoliadau a biwrocratiaeth; gwrthdrawiadau â busnes creiddiol y fferm; y costau gweinyddol; yr enillion ariannol isel; a chyngor a chymorth annigonol.

Entrepreneuriaeth – diffinnir hwn fel gallu, sgiliau a meddylfryd ffermwyr o ran cynnull adnoddau a datblygiadau arloesol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gael mynediad i wahanol farchnadoedd.

Y perfformwyr mwyaf blaenllaw ar y mynegai o entrepreneuriaeth oedd y mathau amrywiol o ffermydd, sef 67% uwchlaw'r cyfartaledd, a ffermydd llaeth, sef 65%. Gellir ystyried bod safle arbennig i ffermydd llaeth fel 'entrepreneuriaid arbenigol'. Hynny yw, maent wedi'u cloi i mewn i farchnadoedd penodol a bydd ffermwyr llaeth entrepreneuraidd yn chwilio am ffyrdd i sicrhau cymaint o elw â phosibl o'r marchnadoedd hynny. Sgôr y ffermydd cig eidion oedd 49%, a'r ffermydd defaid a gafodd y sgorau isaf, sef 47% uwchlaw'r cyfartaledd.

O ran maint y fferm, gwnaeth ffermydd mawr/mawr iawn yn well o lawer na'r categorïau eraill o feintiau fferm ar y mynegai entrepreneuraidd: y cyfrannau oedd 36% ar gyfer sgorau uwchlaw'r cyfartaledd a 37% ar gyfer y sgorau uchaf. Yr oedd y ffermydd canolig hefyd â mwy o ffermydd yn hanner uchaf y mynegai. Ar y llaw arall, yr oedd gan ffermydd bach a bach iawn gyfrannau mwy ynghyd â sgorau islaw'r cyfartaledd a sgorau isaf. Dangosodd y mynegai o entrepreneuriaeth raddiant pendant o'r ffermwyr mwy-o-faint â sgorau entrepreneuraidd uchel i lawr i ffermydd bach â sgorau isel.

Amlygodd lefelau eraill o ddadansoddi rai problemau hefyd ynghylch parodrwydd aelwydydd fferm ledled Cymru i fod yn entrepreneuraidd. Er enghraifft, mewn ymateb i gwestiwn uniongyrchol am eu bwriadau, cyfrannau bach yn unig o sampl yr arolwg a fyddai'n newid eu harferion busnes neu'n cychwyn busnesau newydd. Yn ogystal, 19% yn unig ohonynt oedd â chynllun busnes.

### *Dadansoddiad Integredig*

Yna, cafodd y Dadansoddiad Typolegol – a ddefnyddiai fynegeion o arallgyfeirio, amlswyddogaetholdeb ac entrepreneuriaeth – ei gydblethu â'r Dadansoddiad Ansoddol cynharach. Gwnaed hynny drwy godio eilaidd ar y newidynnau a sefydlwyd gan y Dadansoddiad Ansoddol i ddangos 'Gwytnwch' neu 'Fregusrwydd'.

Esgorodd y Dadansoddiad Integredig ar dair lefel o fesurau o wytnwch a bregusrwydd ynghylch diwygio'r CAP ac ynghylch gwasgfa cost/pris bosibl. Yn gyntaf, fe esgorodd ar fesurau o wytnwch a bregusrwydd, mewn termau crynswth, bob un o'r tri mynegai. Yn ail, sefydlwyd mesurau o wytnwch a bregusrwydd ar gyfer amrywiaeth o newidynnau megis y math o fferm, maint y fferm, oedran, statws ALFf, incwm, rhanbarth amaethyddol, Glastir, a grŵp bregus

pwysig, sef y rhai a allai adael ffermio. Yn olaf, cynhyrchwyd cyfrannau ar gyfer gwytnwch a bregusrwydd y sampl gyfan. Yn Nhabl 8.15, a atgynhyrchir o Adran 8, dangosir y mesurau cyffredinol hynny o wytnwch a bregusrwydd.

**Tabl 8.15 Aelwydydd Fferm Gwydn a Bregus yn gyffredinol**

| | C21 | C22 |
|---|---|---|
| Bregus | 68% | 75% |
| Gwydn | 32% | 25% |

Yn y tabl, gwelir bod 68% o aelwydydd fferm yn yr arolwg yn fregus o ran C21. Hynny yw, eu hymatebion i newidiadau mewn polisïau a allai arwain at ostwng y taliadau i ffermwyr neu fynnu newidiadau mewn arferion ffermio, megis cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol.

Yn y tabl gwelir bod 75% o aelwydydd fferm yn fregus o ran C22. Hynny yw, sefyllfa bosibl lle gwelid costau'r mewnbynnau yn dal i godi ond y prisiau wrth glwyd y fferm yn gostwng – y wasgfa cost/pris.

## Casgliadau: Rhoi Sylw i Nod Pump

I gloi, trown at Nod 5 y prosiect, sef darparu tystiolaeth sy'n fodd i Lywodraeth y Cynulliad fonitro effaith ei pholisïau a bwydo hynny i'r broses o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig. Ac ailadrodd pwynt a wnaed ar ddechrau'r adran olaf hon, ceir cryn orgyffwrdd rhwng nodau'r prosiect ymchwil hwn. Hynny yw, mae Nodau 1, 2, 3 a 4 wedi'u cyfeirio i raddau helaeth at Nod 5 a hwy, gyda'i gilydd, yw Nod 5.

Mae'r prosiect hwn yn ychwanegu gwerth at ymchwil bresennol arall ac ymchwil flaenorol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n llenwi bwlch yn y dystiolaeth ynghylch ymchwil i amaethyddiaeth a chefn gwlad Cymru o ran cyflwr gweithgareddau busnes ffermydd Cymru ac agweddau ffermwyr Cymru at amrywiaeth o faterion amserol sy'n gysylltiedig â pholisïau ar amaethyddiaeth a datblygu cefn gwlad. Yn ail, mae'r arolwg yn darparu cronfa ddata sy'n cysylltu â gwaith sydd wedi'i gwblhau gan AWC megis yr Astudiaeth Gwmpasu o'r Eco-Economi (AWC, 2006)[17] a'r Adroddiad ar Ardaloedd Gwledig Anghysbell (AWC, 2009).[18] Yn ogystal, bydd yn cysylltu ag ymchwil i'r Gymru wledig yn y dyfodol.

Mae'r ymchwil yn nodi tystiolaeth o bwy sy'n gwneud beth a pha strategaethau sydd ganddynt. Mae'n dangos bod tuedd i ffermydd Cymru fod yn rhai teuluol a bod ganddynt gysylltiadau cryf â'r tir o ran eu hanes, eu diwylliant a'u lleoliad. Ar sail y dadansoddiad, gwelir bod tri chlwstwr o aelwydydd fferm yng Nghymru. Nid yw perthyn i un o'r clystyrau hynny'n rhwystro perthyn i glwstwr arall. Gall aelwyd fferm arddangos nodweddion un clwstwr mewn rhai agweddau ar ei gweithrediadau a nodweddion clwstwr gwahanol mewn rhai eraill. Er bod aelodau pob un o'r tri chlwstwr yn cydnabod y tensiynau a'r croestyniadau rhwng cynhyrchu bwyd, diogelu a sicrhau cadwraeth yr amgylchedd, a datblygu gwledig, mae rhai ohonynt mewn gwell sefyllfa na'i gilydd i ddatrys y tensiynau a'r croestyniadau hynny.

### Y Clwstwr o'r rhai sy'n ei 'Chael hi'n anodd' neu rhai a 'Allai Adael Ffermio'

Yn gyntaf, ceir clwstwr sy'n tueddu i'w chael hi'n anodd addasu i newidiadau

---

17 Arsyllfa Wledig Cymru (2006) Asesu Eco-economi'r Gymru Wledig. Prifysgol Caerdydd: Yr Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Arsyllfa Wledig Cymru

18 Arsyllfa Wledig Cymru (2009) Ardaloedd Gwledig Anghysbell. Prifysgol Caerdydd: Yr Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Arsyllfa Wledig Cymru

mewn polisïau, i chwiwiau'r farchnad ac i'r pwyslais helaethach ar yr amgylchedd a datblygu cefn gwlad. Os gostyngir y taliadau, os cynyddir y cyfrifoldebau amgylcheddol neu os gwelir cyflwr y farchnad yn dirywio, gall aelodau o'r clwstwr hwn yn hawdd ymddeol yn gynnar neu adael ffermio drwy werthu'r fferm neu fynd yn fethdalwyr.

Os ceir sefyllfa lle bydd polisïau'n newid lle bydd cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol, yr oedd y clwstwr hwn o'r rhai a 'allai adael' yn 14% o gyfanswm y sampl a arolygwyd. O ran y sefyllfa cost/pris, awgrymodd 27% o gyfanswm y sampl a arolygwyd y byddent yn ymddeol, yn gwerthu'r fferm neu'n mynd yn fethdalwyr.

Mae'r dadansoddiad o amlder yn Adran 5 yn darparu dimensiwn arall i'r clwstwr hwnnw. Pan ofynnwyd cwestiwn uniongyrchol iddynt, sef beth y byddent yn ei wneud pe gostyngid y Taliad Sengl (Adran 5.4.1), yr oedd 27% yn debygol neu'n debygol iawn o adael ffermio.

Ffermydd defaid oedd â'r cyfrannau uchaf a fyddai'n gadael ffermio, sef 42% o'r rhai a fyddai'n gadael ffermio petai polisïau'n newid a chyfrifoldebau amgylcheddol yn cynyddu, a 36% o'r rhai a fyddai'n gadael ffermio petai gwasgfa cost/pris barhaus.

Fe geid, felly, gyfrannau uchel o aelwydydd fferm a ganfyddai eu bod yn fregus ac y gallent adael ffermio. Gallai tri ffactor ddwysáu goblygiadau'r sefyllfa honno. Yn gyntaf, cyfran gymharol isel o'r aelwydydd fferm, 47% ohonynt, oedd â chynlluniau olynu. Yn ail, 60% o'r aelwydydd fferm oedd ag olynydd tebygol. Yn drydydd, dangosodd yr arolwg fod ffermwyr yn boblogaeth sy'n heneiddio: yr oedd 31% ohonynt yn 55-64 oed a 25% dros 65 oed.

### Y Clwstwr sy'n 'Dibynnu ar y Polisi'

Yn ail, ceir yr aelwydydd fferm sy'n dibynnu ar y Taliad Sengl, sy'n dibynnu ar gynhyrchedd amaethyddol ac sydd heb fod yn agored i newid. Awgrymwyd y nodweddion hynny gan y data am incwm a chan y data ansoddol.

Mae'r data allweddol yn ymwneud ag incwm. Er i 50%, yn gyffredinol, gredu mai'r farchnad oedd prif ffynhonnell eu hincwm, barnai 14% mai'r Taliad Sengl oedd prif ffynhonnell eu hincwm. Fel y crybwyllwyd ynghynt, fe all fod problem canfyddiad yma. Awgrymai'r data o Arolwg o Fusnesau Fferm yn 2009, a welir yn y tabl yn Adran 2, fod lefelau llawer uwch o ddibyniaeth ar y Taliad Sengl. Yn ôl data'r arolwg hwnnw, câi ffermydd llaeth 46% o incwm busnes y fferm o'r Taliad Sengl, ffermydd da byw a borai ar dir isel, 93%; a ffermydd da byw a borai mewn ALFfoedd, 113%. Mae data'r Arolwg hefyd yn dangos i bob math o fferm yng Nghymru, heblaw am ffermydd llaeth, wneud colled ar ei gynnyrch amaethyddol. Efallai i rai o'r cyfweleion yn arolwg AWC gymryd y Taliad Sengl yn ganiataol a'i anwybyddu fel cydran o gyfanswm incwm yr aelwyd.

Gan edrych i'r dyfodol, dangosodd y data o arolwg AWC fod y mwyafrif o ffermydd yn dal i ddibynnu ar y farchnad am incwm yr aelwyd yn y dyfodol ond i'r ddibyniaeth ar y Taliad Sengl am incwm godi i 23%.

Hyd yn oed os anwybyddir y broblem o ganfyddiad, mae'r Arolwg o Fusnesau Fferm ac arolwg AWC yn awgrymu bod clwstwr o aelwydydd fferm yn dibynnu gormod ar y Taliad Sengl. Y duedd fydd i aelodau'r clwstwr hwnnw fod yn fregus o ran diwygio'r CAP, newidiadau mewn polisïau, ac amodau'r farchnad.

### Y Clwstwr 'Rhagweithiol'

Yn y trydydd clwstwr ceir aelwydydd fferm yng Nghymru sydd wedi arallgyfeirio, sydd ag amryw o lifoedd

incwm, sy'n agored i fusnesau a chyfleoedd entrepreneuraidd newydd, ac sy'n cofleidio cyfrifoldeb amgylcheddol a gofynion y paradeim datblygu-gwledig sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, yr oedd 41% o sampl yr arolwg â ffynonellau incwm heblaw'r fferm; yr oedd 50% yn ymwneud â rhyw fath o weithgarwch arallgyfeirio, ac yr oedd 43% uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai o arallgyfeirio. O ran entrepreneuriaeth, yr oedd 53% uwchlaw'r cyfartaledd ar y mynegai. Tuedd ymatebion y clwstwr hwn i'r sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd wrthynt oedd ceisio gwella'u gweithrediadau presennol a chwilio am gyfleoedd newydd a marchnadoedd newydd.

Mae gan aelodau'r clwstwr hwn lefel uwch o wytnwch i weithio drwy amgylchedd o newidiadau mewn polisïau ac ansicrwydd yn y farchnad, a llwyddo ynddo.

Yn ogystal, gallwn ni ddechrau gweld sut y gall gweithgareddau arallgyfeirio, amlswyddogaethol ac entrepreneuraidd gynnig y potensial i yrru yn ei flaen y paradeim datblygu-gwledig newydd sy'n dod i'r amlwg ac i fod yn sylfaen bosibl i eco-economi cefn gwlad Cymru.


### Y paradeim datblygu-gwledig sy'n dod i'r amlwg

Er hynny, drwy'r mynegai o amlswyddogaetholdeb y gwelwn ni gliriaf y cysylltiadau â'r paradeim datblygu-gwledig sy'n dod i'r amlwg. Ar y mynegai o amlswyddogaetholdeb, yr oedd 60% o sampl yr arolwg uwchlaw'r cyfartaledd.

Dadl Marsden a Sonnino (2008)[19] yw bod rhaid i weithgareddau, er mwyn iddynt fod yn amlswyddogaethol, ychwanegu gwerth at amaethyddiaeth; cyfrannu i sector amaethyddol newydd – un sy'n cyfateb i anghenion cyfnewidiol y gymdeithas ehangach; a bod yn ffyrdd i ddatblygu cefn gwlad drwy wneud defnydd newydd ac arloesol o adnoddau cefn gwlad. Gan ddibynnu ar natur y gweithgareddau hynny, gellir dadlau bod cysylltiadau a gorgyffwrdd helaeth rhwng gweithgareddau amlswyddogaethol a gweithgareddau arallgyfeirio ac entrepreneuraidd.

Fel rheol, bydd tair agwedd i fusnesau fferm traddodiadol, sef gweithgareddau amaethyddol, defnyddio adnoddau, a pherthnasoedd â'u bro, fel y dangosir yn Ffigur 2.2, a atgynhyrchir o Adran 2.

**Ffigur 2.2 Tair ochr y busnes amaethyddol:**




*TRADITIONAL RURAL ECONOMY* –
YR ECONOMI GWLEDIG TRADDODIADOL
*Production of commodities* – Cynhyrchu nwyddau
*Land resources* – Adnoddau tir
*Mobilisation of resources* – Defnyddio adnoddau

**Ffynhonnell: Van der Ploeg ac eraill (2002)** [20]

Caiff perthnasoedd y tair agwedd hynny eu hatgynhyrchu a'u trawsffurfio'n gymdeithasol wrth i ffermwyr ymateb i ofynion marchnadoedd newydd a newidiadau mewn polisïau drwy geisio ailbrisio ac ailddiffinio'u strwythurau economaidd


[19] Marsden, T a Sonnino, R (2008) Rural development and the regional state: Denying multifunctional agriculture in the UK. Journal of Rural Studies 24, 422 – 431.

[20] Van der Ploeg, J. D., Long, A a Banks, J goln (2002) *Living Countrysides: Rural Development Processes in Europe: The State of the Art*. (Yr Iseldiroedd: Elsevier)

a'u hadnoddau a sefydlu cysylltiadau newydd ag actorion ac asiantaethau newydd. Caiff gweithgareddau economaidd traddodiadol cefn gwlad a byd amaeth eu trawsffurfio, eu harallgyfeirio a'u hehangu mewn prosesau a ddisgrifir yn y llenyddiaeth academaidd, fel *dyfnhau, ehangu* ac *ailwreiddio*.

Gallai enghreifftiau nodweddiadol o *ddyfnhau* gynnwys ffermio organig; cynhyrchu bwydydd o safon ar y fferm; a sicrhau mai taith fer sydd o'r cynhyrchu i'r defnyddio drwy werthu i farchnadoedd lleol megis marchnadoedd ffermwyr. Mae'r rhyngweithio â'r amgylchedd gwledig yn cynnig enghreifftiau o *ehangu*, megis darparu cadwraeth natur, amaeth-dwristiaeth, gweithgareddau hamdden, chwaraeon ac amwynderau, treftadaeth, a chnydau ynni. Pan gaiff busnesau gwledig eu *hailwreiddio*, bydd gofyn bod â setiau newydd neu wahanol o adnoddau ar gyfer gweithgareddau megis cynhyrchu ynni amgen, cynnal digwyddiadau arbennig, rhedeg gweithgareddau ceffylau, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Darlunnir y perthnasoedd newydd hynny yn Ffigur 2.3.

**Ffigur 2.3 Dynameg datblygu gwledig ar lefel busnes**




*RURAL ECO-ECONOMY* –
YR ECO-ECONOMI GWLEDIG
*Production of commodities* – Cynhyrchu nwyddau
*Land resources* – Adnoddau tir
*Mobilisation of resources* – Defnyddio adnoddau
*Deepening* – Dyfnhau
*Shorter value added chains* –
Cadwyni gwerth ychwanegol byrrach
*Organics* – Cynhyrchion organig
*Broadening* – Ehangu
*Sport* – Chwaraeon
*New on farm activities…* -
Gweithgareddau newydd ar y fferm
*Nature conservation* – Cadwraeth natur
*Agri-environment schemes* –
Cynlluniau amaeth-amgylcheddol
*Opening up the land resources* - Agor adnoddau'r tir
*Regrounding* – Ailwreiddio
*Energy production* – Cynhyrchu ynni
*Events* – Digwyddiadau
*Heritage* – Treftadaeth
*ICT* – TGCh
*equine* – marchogaeth

**Ffynhonnell: Van der Ploeg ac eraill (2002)**

Mae'r arolwg hwn o aelwydydd fferm yng Nghymru wedi dal enghreifftiau gweithiol o weithgareddau *dyfnhau, ehangu* ac *ailwreiddio* y gallwn ni weld ynddynt arwyddion o'r paradeim datblygu-gwledig sy'n dod i'r amlwg, a'r potensial i osod sylfaen i eco-economi cefn gwlad Cymru.

Er hynny, rhaid cydnabod y bydd llawer, ond nid pob un, o'r gweithgareddau *dyfnhau, ehangu* ac *ailwreiddio* yn dal i ddibynnu, i amrywiol raddau, ar y taliadau sy'n gysylltiedig â chynlluniau amaeth-amgylcheddol ac ar amrywiaeth o grantiau a mentrau polisi eraill.

## Atodiad 1

AROLWG AELWYDYDD FFERM  (FERSIWN GYMRAEG)

Bore da / Prynhawn da / Noswaith dda, a fyddai'n bosib siarad â ……………

Fy enw i yw …………. ac rwy'n gweithio i gwmni o'r enw 'Opinion Research Services'. Rydym wedi ein comisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd ag astudiaeth bwysig sydd wedi ei datblygu mewn ymgynghoriad â'r undebau ffermio. Rydym yn gweithio i Arsyllfa Wledig Cymru, sy'n ganolfan ymchwil annibynnol ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth, a bydd y wybodaeth a gesglir fel rhan o'r astudiaeth yn cael eu hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr ymchwil hon yn rhoi sylw i aelwydydd fferm yng Nghymru. Mae'r arolwg hwn yn gwbl ar wahân i'r Arolwg Busnes Fferm (Farm Business Survey).
Nid oes rheidrwydd arnoch i gymryd rhan yn yr arolwg.
Cyn mynd ymhellach, ai chi sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r fferm?
(IE / NA)

(OS 'NA' YW'R ATEB – Y CYFWELYDD I WNEUD APWYNTIAD I SIARAD Â'R PERSON SY'N GWNEUD PENDERFYNIADAU YNGLŶN Â'R FFERM.) OS 'IE' YW'R ATEB, EWCH YMLAEN.

Fel y soniwyd uchod, bydd yr ymchwil yn rhoi sylw i aelwydydd fferm yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar faterion arbennig sydd o bwys i aelwydydd fferm, er enghraifft arallgyfeirio amaethyddol, mentrau i ffwrdd o'r fferm, a'r cymorth sydd ar gael i aelwydydd fferm. Bydd yr ymchwil hefyd yn gyfle i chi ddylanwadu ar bolisi mewn modd a fydd yn helpu aelwydydd fferm yng Nghymru.

A fyddai'n gyfleus i ni gynnal yr arolwg nawr?
CYFWELYDD: OS 'NA' YW'R ATEB, TREFNWCH APWYNTIAD. OS 'YDY' YW'R ATEB, EWCH YMLAEN.

Cyn dechrau, hoffwn bwysleisio y gellir recordio pob galwad at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd a bydd unrhyw wybodaeth a gesglir fel rhan o'r ymchwil yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol.

Ddylai'r arolwg gymryd dim mwy na 20 munud i'w gwblhau.

YN GYNTAF, RHAI CWESTIYNAU YN YMWNEUD Â'CH FFERM

1. O ran daliadaeth eich fferm: a yw'r fferm:
NODYN I'R CYFWELYDD: RHESTRWCH YR OPSIYNAU ISOD.
DIM OND UN ATEB SYDD EI ANGEN.

Ym mherchnogaeth y teulu ❑

Wedi'i rhentu ❑

Cymysg / Cyfuniad o'r ddau ❑

DDIM YN GWYBOD
GWRTHOD ATEB

2. Gan eich cynnwys chi, faint o bobl sy'n gweithio ar y fferm?
CYFWELYDD: RHESTRWCH YR OPSIYNAU ISOD A NODWCH NIFER Y BOBL YM MHOB CATEGORI. OS 'DIM' YW'R ATEB, NODWCH '0'.

Aelodau o'r teulu _____

Amser llawn (nad ydynt yn aelod o'r teulu) _____

Rhan-amser (nad ydynt yn aelod o'r teulu) _____

Gweithwyr tymhorol neu achlysurol _____

DDIM YN GWYBOD
GWRTHOD ATEB

3 (a). O ran y prif fusnes ar y fferm, beth yw eich prif fentrau?
NODYN I'R CYFWELYDD – PEIDIWCH Â DARLLEN Y RHESTR ISOD. HOLWCH FEL BO ANGEN GAN DDEFNYDDIO'R RHESTR ISOD. TICIWCH BOB CATEGORI SY'N CAEL EI GRYBWYLL.

Godro ❑
Gwartheg ❑
Defaid ❑
Arbenigwyr dofednod ❑
Ydau ❑
Cnydau porthiant ❑
Garddwriaeth ❑
Arall
(Nodwch)…………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………….
DDIM YN GWYBOD
GWRTHOD ATEB

(b) Rhestrwch eich mentrau yn nhrefn eu pwysigrwydd i'r busnes fferm (gan ddechrau gyda rhif 1 am y bwysicaf)?
NODYN I'R CYFWELYDD: RHESTRWCH Y MENTRAU OS OES ANGEN.
DADANSODDIAD – PWRPAS Y CWESTIWN HWN YW RHESTRI'R MENTRAU A DEWISWYD YN Y CWESTIWN BLAENOROL. OS OND UN FENTER A DDEWISWYD O'R RHESTR, EWCH I C4.

DDIM YN GWYBOD
GWRTHOD ATEB

4. Pa rai o'r mentrau canlynol sy'n weithredol ar eich fferm ar hyn o bryd, neu fyddech yn eu hystyried yn y dyfodol?
CYFWELYDD: RHESTRWCH Y CATEGORÏAU YN Y TABL ISOD A RHOWCH EGLURHAD OS OES ANGEN. OS NAD YW'R MENTRAU YN WEITHREDOL AR HYN O BRYD, GOFYNNWCH A YDYNT YN CAEL EU HYSTYRIED AI PEIDIO.
DIM OND 1 ATEB I BOB RHES.

| | Cyfredol | Ystyried | Ddim yn ei ystyried |
|---|---|---|---|
| Garddwriaeth | | | |
| Da byw amgen (e.e. moch, byfflos dŵr, lamas, estrys ac ati) | | | |
| Cnydau ynni | | | |
| Cnydau diwydiannol (e.e. ffibr, olew ac ati.) | | | |
| Cnydau organig | | | |
| Da byw organig | | | |

5. Pa rwystrau ydych chi'n eu hwynebu, neu'n rhagweld gorfod eu hwynebu, wrth redeg eich busnes fferm?
CYFWELYDD – PEIDIWCH Â DARLLEN Y RHESTR ISOD, OND HOLWCH YMHELLACH FEL BO ANGEN. TICIWCH BOB CATEGORI SY'N CAEL EI GRYBWYLL.

- Costau sefydlu ❑
- Gwybodaeth ❑
- Cymorth / cyngor annigonol ❑
- Elw ariannol ❑
- Cymhwysedd personél y fferm ❑
- Hyfforddiant ❑
- Rheoliadau ❑
- Trafnidiaeth ❑
- Amheuon ynghylch polisïau'r Undeb Ewropeaidd a'r PAC ❑
- Olyniaeth ❑

Arall – CYFWELYDD I NODI
……………………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………

Dim un o'r uchod ❑ DADANSODDIAD: COD SENGL

6. A ydych yn bwriadu ehangu busnes craidd eich fferm yn ystod y pum mlynedd nesaf?
NODYN I'R CYFWELYDD: RHESTRWCH YR OPSIYNAU

Ehangu
Cynnal DADANSODDIAD – EWCH I 6a
Lleihau Gweithgareddau DADANSODDIAD – EWCH I 6a

NODYN I'R CYFWELYDD: PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN:
DDIM YN GWYBOD DADANSODDIAD – EWCH I C7
GWRTHOD ATEB DADANSODDIAD – EWCH I C7

6 (a) A oes gennych unrhyw reswm arbennig dros beidio ag ehangu busnes eich fferm?
NODYN I'R CYFWELYDD: YSGRIFENNWCH YR ATEB GAIR AM AIR, HOLWCH FEL BO ANGEN (e.e. unrhyw resymau arbennig?)

Dim rheswm arbennig ❑

…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………

7. Nodwch pa rai o'r mentrau arallgyfeirio canlynol yr ydych yn eu darparu ar hyn o bryd?
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH Y RHESTR ALLAN

| | Yn weithredol | Ddim yn weithredol | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau amaethyddol (e.e. contractio) | | | |
| Prosesu bwyd ar y fferm | | | |
| Manwerthu bwyd ar y fferm (e.e. siop fferm) | | | |
| Contractio anamaethyddol | | | |
| Llety fferm (e.e. gwely a brecwast, hunanddarpar) | | | |
| Ceffylau (e.e. stablau hurio, pori, llwybrau marchogaeth, gwersi marchogaeth) | | | |
| Math arall o weithgaredd hamdden ar y fferm (e.e. chwaraeon, ffermydd agored) | | | |
| Lesio adeiladau | | | |
| Lesio tir – at ddefnydd amaethyddol | | | |
| Lesio tir – at ddefnydd ar wahân i amaethyddiaeth e.e. prosiectau ynni adnewyddadwy | | | |
| Arall 1– nodwch ychydig o fanylion am y gweithgaredd(au) ……………………………………<br>Arall 2<br><br>Arall 3 | | | |

8(a). A ydych chi'n bwriadu ymgymryd ag unrhyw weithgareddau arallgyfeirio ychwanegol yn ystod y pum mlynedd nesaf?
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD.

Tebygol iawn
Tebygol
Annhebygol
Annhebygol iawn
Dim o gwbl

NODYN I'R CYFWELYDD: PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN
Ddim yn gwybod
Gwrthod ateb

DADANSODDIAD: OS 'TEBYGOL IAWN' NEU 'TEBYGOL' YW'R ATEB EWCH I C8(b).
DADANSODDIAD: OS 'ANNHEBYGOL', ANNHEBYGOL IAWN' NEU 'DIM O GWBL' YW'R ATEB EWCH I C9(b).

8b) Pa fath o weithgaredd(au) ydych chi'n bwriadu datblygu?
NODYN I'R CYFWELYDD: YSGRIFENNWCH YR ATEB AIR AM AIR. HOLWCH FEL BO ANGEN (e.e. unrhyw weithgareddau eraill?)
………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………
………………………………………………

9 (a). Yn eich barn chi, a oes unrhyw rwystrau penodol yn gysylltiedig â mentrau arallgyfeirio?
NODYN I'R CYFWELYDD: PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN. HOLWCH FEL BO ANGEN. TICIWCH BOB CATEGORI SY'N CAEL EI GRYBWYLL (GELLIR DEWIS MWY NAG UN).

Costau sefydlu ❑
Costau gweinyddol ❑
Gwybodaeth ❑
Cymorth / cyngor ariannol ❑
Elw ariannol ❑
Cymhwysedd personél y fferm ❑
Hyfforddiant ❑
Deddfwriaeth ❑
Trafnidiaeth ❑
Sgiliau ❑
Argaeledd / ansawdd Band Eang ❑
Arall – Cyfwelydd i nodi'r ateb
……………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………

Dim ❑ DADANSODDIAD: COD SENGL
DADANSODDIAD – EWCH I C10.

9 (b) A oes gennych unrhyw reswm arbennig dros beidio ag ehangu busnes eich fferm? NODYN I'R CYFWELYDD: YSGRIFENNWCH YR ATEB AIR AM AIR. HOLWCH FEL BO ANGEN (e.e. unrhyw resymau arbennig?)

Dim rheswm arbennig ❑

………………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………

10. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw mentrau arallgyfeirio i:
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH Y DEWISIADAU ISOD.

a) Ddyfodol eich aelwyd fferm yn ystod y deng mlynedd nesaf?

Pwysig iawn Pwysig Dim barn Ddim yn bwysig Ddim yn bwysig o gwbl

b) Ddyfodol aelwydydd fferm yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd nesaf?

Pwysig iawn Pwysig Dim barn Ddim yn bwysig Ddim yn bwysig o gwbl

11 (a). A ydych chi'n gweithio mewn swydd, neu'n rhedeg menter (llawn-amser / rhan-amser) nad yw'n ymwneud ag amaethyddiaeth ond sy'n cyfrannu at incwm yr aelwyd?

YDW / NAC YDW

DADANSODDIAD: OS 'NAC YDW' YW'R ATEB EWCH I C11(c). OS 'YDW' YW'R ATEB EWCH YMLAEN.

11(b) Beth yw teitl y swydd / natur y fenter?
NODYN I'R CYFWELYDD: YSGRIFENNWCH YR ATEB AIR AM AIR.

11 (c). A oes unrhyw aelod arall o'ch aelwyd fferm yn gweithio mewn swydd neu'n rhedeg busnes (amser-llawn / rhan-amser) nad yw'n ymwneud ag amaethyddiaeth ond sy'n cyfrannu at incwm yr aelwyd?
NODYN I'R CYFWELYDD: OS 'OES' YW'R ATEB
NODWCH FAINT O BOBL ISOD.

Oes ___________

Nac oes - DADANSODDIAD: EWCH I C12

11 (d) Ar gyfer pob person a gyfrifwyd uchod, nodwch eu perthynas â chi a theitl y swydd / natur y fenter.

DADANSODDIAD – DARPERIR GWYBODAETH YCHWANEGOL AM BERTHYNAS POB PERSON Â'R YMATEBYDD AC AM DEITL Y SWYDD(I) ISOD.

Person 1/2/3/4 ac ati:

Perthynas â chi:

Partner ❑
Mab ❑
Merch ❑
Ŵyr ❑
Wyres ❑
Rhiant ❑
Arall (Nodwch) ❑

Teitl y swydd / Natur y busnes

NODYN I'R CYFWELYDD: YSGRIFENNWCH YR ATEB AIR AM AIR.

**MAE'R CWESTIYNAU CANLYNOL YN YMWNEUD Â'R CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL**

12. A yw eich fferm wedi'i chofrestru ar gynllun amaeth-amgylcheddol / cynllun cadwraeth, neu erioed wedi bod yn gysylltiedig ag un? YDY / NAC YDY

DADANSODDIAD: OS 'NAC YDY' YW'R ATEB EWCH I C16.

13. Nodwch pa rai o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol rydych chi wedi ymuno â nhw, naill ai ar hyn o bryd neu yn y gorffennol?
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD

| Cynllun | Ar hyn o bryd | Yn y gorffennol | Erioed |
|---|---|---|---|
| Tir Mynydd | | | |
| Tir Cynnal | | | |
| Tir Gofal | | | |
| Cynllun ffermio organig | | | |
| Coetiroedd Gwell i Gymru | | | |
| Arall - e.e. rheoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) (NODWCH) | | | |

14. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw (neu oedd) y taliadau a ddarparwyd fel rhan o'r cynlluniau uchod i'ch aelwyd fferm?

NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD

Pwysig iawn    Pwysig    Dim barn    Ddim yn bwysig    Ddim yn bwysig o gwbl

15. Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau sy'n wynebu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol?
NODYN I'R CYFWELYDD: PEIDIWCH Â DARLLEN Y RHESTR ALLAN. HOLWCH FEL BO ANGEN. TICIWCH BOB CATEGORI SY'N CAEL EI GRYBWYLL (GELLIR DEWIS MWY NAG UN). OS NAD YDYNT YN BERTHNASOL, NODWCH 'DIM'.

Costau sefydlu ❑
Costau gweinyddol ❑
Gwybodaeth ❑
Cymorth / cyngor annigonol ❑
Elw ariannol ❑
Cymhwysedd personél y fferm ❑
Hyfforddiant ❑
Rheoliadau ❑
Gwrthdrawiad â busnes craidd y fferm ❑
Biwrocratiaeth ❑
Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru wedi mynd heibio ❑

Arall – Cyfwelydd i nodi
…………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………

Dim ❑

16. A ydych yn ymwybodol o gynllun GLASTIR? YDW / NAC YDW

DADANSODDIAD: OS 'NAC YDW' YW'R ATEB EWCH I C18.

17. Ar y cyntaf o Ionawr 2012, bydd cynllun GLASTIR yn disodli'r pedwar cynllun amaeth-amgylcheddol presennol. Pa mor debygol ydych chi o ymuno â GLASTIR? A yw hyn yn…?
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD:

| | Tebygol iawn | Tebygol | Annhebygol | Annhebygol iawn | Angen mwy o wybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Cofrestru i ymuno â GLASTIR | | | | | |

18. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw cadwraeth amgylcheddol i ddyfodol eich aelwyd fferm?
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD:

Pwysig iawn Pwysig Dim barn Ddim yn bwysig Ddim yn bwysig o gwbl

19. Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydyw eich bod yn medru cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel ar y fferm?
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD:

Pwysig iawn Pwysig Dim barn Ddim yn bwysig Ddim yn bwysig o gwbl

NAWR, YCHYDIG O GWESTIYNAU YN YMWNEUD Â GOGWYDD MARCHNATA

20. Fel rhan o'r diwygio presennol ar y PAC, mae'n bosib iawn y bydd newidiadau i'r taliadau sengl ar ôl 2013. Pe bai hyn yn digwydd, a fyddech yn ystyried unrhyw un o'r opsiynau canlynol:

| | Tebygol iawn | Tebygol | Annhebygol | Annhebygol iawn |
|---|---|---|---|---|
| Newid i fath arall o ffermio | | | | |
| Ehangu gweithgareddau amaethyddol presennol | | | | |
| Ehangu gweithgareddau arallgyfeirio presennol | | | | |
| Sefydlu gweithgareddau arallgyfeirio newydd | | | | |
| Gadael y diwydiant ffermio | | | | |
| Ddim yn gwybod | | | | |

21. Pe bai newidiadau mewn polisïau amaethyddol ar ôl 2013 yn arwain at ostyngiad mewn taliadau i ffermwyr, neu'n gofyn am newidiadau i arferion ffermio (er enghraifft, cynnydd mewn cyfrifoldebau amgylcheddol) beth fyddech chi'n ei wneud?
NODYN I'R CYFWELYDD: YSGRIFENNWCH YR ATEB AIR AM AIR. HOLWCH FEL BO ANGEN (e.e. unrhyw beth arall?)
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………

22. Pe bai costau mewnbwn yn parhau i godi, ochr yn ochr â gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm ar ôl 2013, beth fyddwch chi'n ei wneud dros y pum mlynedd nesaf?
NODYN I'R CYFWELYDD: YSGRIFENNWCH YR ATEB AIR AM AIR. HOLWCH FEL BO ANGEN (e.e. unrhyw beth arall?)
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………

23. A oes gennych gynllun busnes ffurfiol ar gyfer:

a) Y busnes fferm? OES/NAC OES

b) Y gweithgareddau arallgyfeirio? OES/NAC OES/AMHERTHNASOL

24. Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydyw defnyddio cynllun busnes?

Pwysig iawn Pwysig Dim barn Ddim yn bwysig Ddim yn bwysig o gwbl

25(a). A ydych chi'n aelod o unrhyw gynllun cydweithredol gyda ffermwyr eraill? YDW/NAC YDW

DADANSODDIAD: OS 'NAC YDW' YW'R ATEB, EWCH I C26.

25 (b) Pa gynlluniau ydych chi'n rhan ohonynt?
NODYN I'R CYFWELYDD: PEIDIWCH Â'U DARLLEN ALLAN. HOLWCH FEL BO ANGEN GAN DDEFNYDDIO'R RHESTR ISOD.

Llaeth ❑
Tatws ❑
Cnydau ❑
Cig ❑
Cylch peiriannau ❑

Arall (CYFWELYDD I NODI)
……………………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………

25 (c) Pa mor ddefnyddiol yw'r cynlluniau i'ch busnes?

Defnyddiol iawn Defnyddiol Dim barn Ddim yn ddefnyddiol Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

26. Pa mor ddefnyddiol yw'r ffactorau canlynol o ran darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth mewn perthynas â'ch fferm neu unrhyw fusnes arallgyfeirio:
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD AC AILADRODDWCH NHW FEL BO ANGEN.

a) Rhwydweithiau Ffermwyr (e.e. Grŵp Agriscop a Rhaglenni Datblygu Cyswllt Ffermio)

Defnyddiol iawn Defnyddiol Dim barn Ddim yn ddefnyddiol Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

b) Teulu a ffrindiau

Defnyddiol iawn Defnyddiol Dim barn Ddim yn ddefnyddiol Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

c) Rhwydweithiau cwsmeriaid

Defnyddiol iawn Defnyddiol Dim barn Ddim yn ddefnyddiol Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

d) Rhwydweithiau cyflenwyr

Defnyddiol iawn Defnyddiol Dim barn Ddim yn ddefnyddiol Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

**MAE'R CWESTIYNAU CANLYNOL YN YMWNEUD Â CHYMORTH A CHYNGOR I FFERMWYR**

27. A ydych chi erioed wedi cael cyngor ar faterion busnes neu dechnegol? YDW/NAC YDW

OS 'NAC YDW' YW'R ATEB, EWCH I C29.

28. A oedd y cyngor yn ymwneud â:
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD. TICIWCH BOB CATEGORI SY'N CAEL EI GRYBWYLL (GELLIR DEWIS MWY NAG UN).

| | Oedd | Nac oedd |
|---|---|---|
| Ffurflen Cais Sengl (IACS) | ❑ | ❑ |
| Ffurflen gais ar gyfer Tir Gofal | ❑ | ❑ |
| Ffurflen gais ar gyfer Tir Cynnal | ❑ | ❑ |
| Coetiroedd Gwell | ❑ | ❑ |
| Ffermio Organig | ❑ | ❑ |
| Cyswllt Ffermio | ❑ | ❑ |
| Cais cynllunio | ❑ | ❑ |
| Gwelliannau technegol ar y fferm | ❑ | ❑ |
| Gwelliannau busnes ar y fferm | ❑ | ❑ |

29. Sut fyddech chi'n disgrifio'r ddarpariaeth o gyngor a chymorth a roddir drwy'r gwasanaethau canlynol:
NODYN I'R CYFWELYDD: GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN GWAHANIAETHU RHWNG 'HEB FOD MEWN CYSYLLTIAD' A 'DDIM YN YMWYBODOL'.

| | Da iawn | Da | Derbyniol | Gwael | Gwael iawn | Heb fod mewn cysylltiad | Ddim yn ymwybodol o'r gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Ffermio | | | | | | | |
| Undebau'r ffermwyr | | | | | | | |
| Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad | | | | | | | |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | | | | | | | |
| FWAG Cymru | | | | | | | |
| Cyrff cynghori o'r sector breifat (e.e. ADAS) | | | | | | | |
| Y Comisiwn Coedwigaeth | | | | | | | |
| GWLAD | | | | | | | |
| Gwasanaethau Milfeddygol | | | | | | | |
| Iechyd anifeiliaid | | | | | | | |
| Awdurdodau Lleol | | | | | | | |
| Arall 1 (nodwch) | | | | | | | |
| Arall 2 (nodwch) | | | | | | | |
| Arall 3 (nodwch) | | | | | | | |

**MAE'R CWESTIYNAU CANLYNOL YN YMWNEUD Â SGILIAU A THECHNOLEG GWYBODAETH**

30. A ydych chi (neu unrhyw aelod arall o'ch busnes/aelwyd) yn defnyddio cyfrifiadur at ddibenion busnes y fferm? YDW/NAC YDW

31. Pa mor bwysig yw sgiliau technoleg gwybodaeth i ddyfodol eich busnes?
NODYN I'R CYFWELYDD: DARLLENWCH YR OPSIYNAU ISOD

Pwysig iawn Pwysig Dim barn Ddim yn bwysig Ddim yn bwysig o gwbl

32. A ydych chi (neu unrhyw aelod arall o'ch busnes fferm/aelwyd) yn defnyddio'r rhyngrwyd? YDW/NAC YDW
DADANSODDIAD: OS 'NAC YDW' YW'R ATEB, EWCH I C35.

33. A ydych chi (neu unrhyw aelod arall o'ch busnes fferm/aelwyd) yn defnyddio cysylltiad â'r rhyngrwyd at ddibenion y busnes? YDW/NAC YDW

34. A oes gennych chi gysylltiad band eang ar safle busnes eich fferm? OES/NAC OES/DDIM YN GWYBOD
DADANSODDIAD: OS 'NAC OES' YW'R ATEB, EWCH I C36.

35. A oes cysylltiad band eang ar gael ar safle busnes eich fferm? OES/NAC OES/DDIM YN GWYBOD

36. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw cysylltiad band-eang i ddyfodol eich mentrau busnes?

Pwysig iawn    Pwysig    Dim barn    Ddim yn bwysig    Ddim yn bwysig o gwbl

37. Pe bai ffurflenni amaethyddol yn cael eu darparu ar-lein, a fyddech yn ystyried eu defnyddio?    BYDDWN/NA FYDDWN

38. Gan feddwl am eich addysg, beth yw eich cymhwyster uchaf? TICIWCH UN BOCS)

Diploma Cenedlaethol
Tystysgrif Cenedlaethol Uwch (HNC) neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch (HND)
Lefel A
Lefel O/TAG/TGAU
Gradd Gyntaf (e.e. BA, BSc)
Cymhwyster proffesiynol
Gradd uwch
Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 4-5
Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 3
Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 1-2

Arall (nodwch)
Dim cymwysterau

## CWESTIYNAU YN YMWNEUD AG OLYNIAETH Y FFERM

39 (a). Beth yw eich oedran presennol?

Rhwng 18 a 24 mlwydd oed ❑

Rhwng 25 a 34 mlwydd oed ❑

Rhwng 35 a 44 mlwydd oed ❑

Rhwng 45 a 54 mlwydd oed ❑

Rhwng 55 a 64 mlwydd oed ❑

65 mlwydd oed neu'n hŷn ❑

GWRTHOD ATEB ❑

40. RHYW

NODYN I'R CYFWELYDD: PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN

Benyw ❑ Gwryw ❑

41. Faint o bobl sy'n byw yn eich cartref?
NODYN I'R CYFWELYDD: NODWCH Y NIFER ISOD

…………………….. .

GWRTHOD ATEB

42. A oes gennych olynydd posib i'r fferm?
OES/NAC OES/DDIM YN GWYBOD/GWRTHOD ATEB

43. A oes gennych unrhyw gynlluniau sy'n ymwneud ag olyniaeth y teulu?
OES/NAC OES/DDIM YN GWYBOD/GWRTHOD ATEB

## YN OLAF, A FYDDAI'N BOSIB I NI OFYN RHAI CWESTIYNAU AM INCWM?

Er mwyn deall mwy am y profiad o ffermio yng Nghymru, ac er mwyn i ni fedru asesu'r wybodaeth a gesglir, byddai gwybod am gyfanswm incwm cyfartaledd eich aelwyd fferm yn gwella'r ymchwil yn fawr. Caiff y wybodaeth a roddir ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

44 (a). Amcangyfrifwch gyfraniad y ffynonellau canlynol i incwm eich aelwyd fferm (fel canran o gyfanswm incwm yr aelwyd fferm) dros y 12 mis diwethaf:

| | OES/NAC OES | % |
|---|---|---|
| Y Farchnad | | |
| Y Taliad Sengl | | |
| Cynlluniau amaeth – amgylcheddol neu Ardaloedd Llai Ffafriol (LFA) | | |
| Arallgyfeirio | | |
| Swyddi aelodau eraill o'r teulu nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth | | |
| CYFANSWM | | 100% |

DADANSODDIAD – GELLIR DEFNYDDIO 'GWRTHOD ATEB' AR GYFER Y GOLOFN CANRANNAU.

44 (b). Pa un o'r ffynonellau a restrwyd yn y cwestiwn blaenorol sydd fwyaf pwysig i ddyfodol eich busnes?
……………………………………………………………………………………

45. Nodwch pa un o'r categorïau canlynol sy'n cyfateb i gyfanswm trosiant blynyddol prif fusnes eich fferm ar gyfer y flwyddyn dreth 2008-2009?
NODYN I'R CYFWELYDD: HOLWCH FEL BO ANGEN, GAN DDEFNYDDIO'R CATEGORÏAU ISOD.

| Trosiant Blynyddol | |
|---|---|
| Llai na £25,000 | |
| £25,000 – 67,999 | |
| £68,000 – 99,999 | |
| £100,000 – 149,999 | |
| £150,000 – 199,999 | |
| £200,000 – 249,999 | |
| £250,000 – 499,999 | |
| £500,000 neu mwy | |
| Ddim yn gwybod | |
| Gwrthod ateb | |

46. Nodwch pa un o'r categorïau canlynol sy'n cyfateb i gyfanswm incwm crynswth eich cartref? Drwy hyn, rydym yn golygu'r holl incwm sy'n dod i mewn i'ch cartref cyn treth.
NODYN I'R CYFWELYDD: HOLWCH FEL BO ANGEN GAN DDEFNYDDIO'R CATEGORÏAU ISOD.

| Incwm Blynyddol | |
|---|---|
| Llai na £10,000 | |
| £10,000 – 15,499 | |
| £15,500 – 20,999 | |
| £21,000 – 30,999 | |
| £31,000 – 51,999 | |
| £52,000 – 77,999 | |
| £78,000 neu mwy | |
| Ddim yn gwybod | |
| Gwrthod ateb | |

47. Er mwyn archwilio mwy am y profiad o ffermio yng Nghymru, mae Arsyllfa Wledig Cymru, sy'n ganolfan ymchwil annibynnol ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth, yn bwriadu cynnal nifer fach o gyfweliadau pellach. Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus i chi. Bydd eich manylion yn cael eu pasio ymlaen i'r Arsyllfa er mwyn iddynt fedru cysylltu â chi. Drwy gytuno â hyn rydych yn caniatáu i ORS basio eich manylion ymlaen. Fodd bynnag, os penderfynwch gymryd rhan mewn unrhyw astudiaeth bellach, gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg.

A ydych yn caniatáu i'ch manylion gael eu pasio ymlaen i ORS er mwyn i chi i fod yn rhan o'r prosiect ymchwil pwysig hwn? YDW/NAC YDW

48. Rydym yn bwriadu cynnal arolwg arall ymhen dwy flynedd er mwyn cadw cofnod o'r materion sydd o bwys i aelwydydd fferm, ac i ddarganfod a yw'r rhain yn newid gydag amser. Hoffech chi gymryd rhan yn yr astudiaeth mewn dwy flynedd? Unwaith eto, hoffwn bwysleisio nad oes rheidrwydd i chi gymryd rhan pan fydd rhywun yn cysylltu â chi. YDW/NAC YDW

DADANSODDIAD: OS 'YDW' YW'R ATEB I'R CWESTIYNAU UCHOD, NODWCH ENW'R YMATEBYDD.

Diolch yn fawr am roi o'ch amser i gymryd rhan yn yr astudiaeth bwysig hon.

NODYN I'R CYFWELYDD: CAFODD Y CYFWELIAD EI GYNNAL YN Y GYMRAEG/SAESNEG NEU MEWN IAITH ARALL?

Saesneg ❑
Cymraeg ❑
Arall – nodwch ❑

NODYN I'R CYFWELYDD: NODWCH FAINT Y FFERM GAN DDEFNYDDIO'R DATA SAMPL.

Bach iawn ❑
Bach ❑
Canolig ❑
Mawr/Mawr iawn ❑

NODYN I'R CYFWELYDD: NODWCH YM MHA AWDURDOD LLEOL Y MAE'R FFERM (DEFNYDDIWCH Y DATA SAMPL).

Ynys Môn
Gwynedd
Conwy
Sir Ddinbych
Powys
Ceredigion
Sir Benfro
Sir Gaerfyrddin
Sir Fynwy

Sir y Fflint
Wrecsam
Bro Morgannwg

## Atodiad 2

| **Arallgyfeirio – Cwestiynau Cyfrannol** | **Codau** |
|---|---|
| Pa rai, os o gwbl, o'r busnesau canlynol yr ydych chi'n rhedeg ar eich fferm, neu'n ystyried eu rhedeg yn y dyfodol? Garddwriaeth | C4A |
| Pa rai, os o gwbl, o'r busnesau canlynol yr ydych chi'n rhedeg ar eich fferm, neu'n ystyried eu rhedeg yn y dyfodol? Da Byw eraill e.e. moch, byfflos dŵr, lamas, estrys ac ati? | C4B |
| Pa rai, os o gwbl, o'r busnesau canlynol yr ydych chi'n rhedeg ar eich fferm, neu'n ystyried eu rhedeg yn y dyfodol? Cnydau Ynni | C4C |
| Pa rai, os o gwbl, o'r busnesau canlynol yr ydych chi'n rhedeg ar eich fferm, neu'n ystyried eu rhedeg yn y dyfodol? Cnydau diwydiannol, e.e. ffibr, olewau | C4D |
| Pa rai, os o gwbl, o'r busnesau canlynol yr ydych chi'n rhedeg ar eich fferm, neu'n ystyried eu rhedeg yn y dyfodol? Cnydau organig | C4E |
| Pa rai, os o gwbl, o'r busnesau canlynol yr ydych chi'n rhedeg ar eich fferm, neu'n ystyried eu rhedeg yn y dyfodol? Da byw organig | C4F |
| Gwasanaethau amaethyddol (e.e. contractio) | C7A |
| Prosesu bwyd ar y fferm | C7B |
| Manwerthu bwyd ar y fferm (e.e. siop fferm) | C7C |
| Contractio anamaethyddol | C7D |
| Llety ar y fferm (e.e. gwely a brecwast, hunanarlwyo) | C7E |
| Ceffylau (e.e. stablau hurio, pori, llwybrau marchogaeth, gwersi marchogaeth) | C7F |
| Gweithgareddau hamdden eraill ar y fferm (chwaraeon, ffermydd agored) | C7G |
| Prydlesu adeiladau | C7H |
| Prydlesu tir – Defnydd amaethyddol | C7I |
| Prydlesu tir – Defnydd anamaethyddol e.e. prosiectau ynni adnewyddadwy | C7J |
| Ydych chi'n rhedeg mathau eraill o fentrau arallgyfeirio ar hyn o bryd? | C7K |
| Ydych chi'n rhedeg mathau eraill o fentrau arallgyfeirio ar hyn o bryd? | C7L |
| Ydych chi'n rhedeg mathau eraill o fentrau arallgyfeirio ar hyn o bryd? | C7M |
| Ydych chi'n bwriadu ymgymryd ag unrhyw weithgareddau arallgyfeirio yn ystod y pum mlynedd nesaf......? | C8A |
| Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw mentrau arallgyfeirio: i ddyfodol eich aelwyd fferm yn ystod y deng mlynedd nesaf? | C10A |
| Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw mentrau arallgyfeirio: i ddyfodol eich aelwyd fferm yn ystod y deng mlynedd nesaf | C10B |
| Mae'n bosibl y bydd diwygiadau i'r CAP ar ôl 2013 yn gostwng y Taliad Sengl. Pe byddai hynny'n digwydd, nodwch beth fyddai'ch bwriadau, a hynny yn nhermau'r gosodiadau canlynol. Ehangu'r arallgyfeirio presennol | C20C |
| Mae'n bosibl y bydd diwygiadau i'r CAP ar ôl 2013 yn gostwng y Taliad Sengl. Pe byddai hynny'n digwydd, nodwch beth fyddai'ch bwriadau, a hynny yn nhermau'r gosodiadau canlynol. Cychwyn gweithgareddau arallgyfeirio newydd | C20D |
| Oes gennych chi gynllun busnes ffurfiol ar gyfer eich gweithgareddau arallgyfeirio? | C23B |
| Pa rai o'r ffynonellau a ganlyn sy'n darparu incwm i aelwyd eich fferm? Arallgyfeirio | C44ADA |

| **Aml-Un – Cwestiynau Cyfrannol** | **Cod** |
|---|---|
| Ceffylau (e.e. stablau hurio, pori, llwybrau marchogaeth, gwersi marchogaeth) | C7F |
| Gweithgareddau hamdden eraill ar y fferm (chwaraeon, ffermydd agored) | C7G |
| Ydy'ch fferm (erioed) wedi ymuno â chynllun amaeth-amgylcheddol neu gynllun cadwraeth? | C12 |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Tir Mynydd | C13A |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Tir Cynnal | C13B |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Tir Gofal | C13C |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Cynllun ffermio organig | C13D |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Coetiroedd Gwell i Gymru | C13E |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Arall 1 | C13FB |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Arall 2 | C13GB |
| Nodwch pa gynlluniau amaeth-amgylcheddol canlynol y mae'ch fferm ynddynt neu wedi bod ynddynt. Arall 3 | C13HB |
| Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw (neu oedd) y taliadau a ddarparwyd fel rhan o'r cynlluniau uchod i'ch aelwyd fferm? Fyddech chi'n dweud eu bod...? | C14 |
| A ydych yn ymwybodol o gynllun GLASTIR? | C16 |
| Ym mis Ionawr 2012 bydd cynllun GLASTIR yn cymryd lle y pedwar cynllun amaeth-amgylcheddol presennol. Nodwch pa mor debygol y bydd eich fferm chi'n ymuno â GLASTIR. A yw hyn yn...? | C17 |
| A oedd y cyngor yn ymwneud â: ffurflen gais Tir Gofal | C28B |
| A oedd y cyngor yn ymwneud â: ffurflen gais Tir Cynnal | C28C |
| A oedd y cyngor yn ymwneud â: Coetiroedd Gwell i Gymru | C28D |
| Pa rai o'r ffynonellau canlynol sy'n darparu incwm i aelwyd eich fferm? Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol ac ALFf | C44ACA |

| Entrepreneuraidd – Cwestiynau Cyfrannol | Cod |
|---|---|
| O ran craidd busnes eich fferm, a ydych chi dros y pum mlynedd nesaf yn bwriadu: | C6A |
| Prosesu bwyd ar y fferm | C7B |
| Manwerthu bwyd ar y fferm (e.e. siop fferm) | C7C |
| Contractio anamaethyddol | C7D |
| Llety ar y fferm (e.e. gwely a brecwast, hunanarlwyo) | C7E |
| Prydlesu adeiladau | C7H |
| Prydlesu tir – Defnydd amaethyddol | C7I |
| Prydlesu tir – Defnydd anamaethyddol e.e. prosiectau ynni adnewyddadwy | C7J |
| Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw mentrau arallgyfeirio: i ddyfodol eich aelwyd fferm yn ystod y deng mlynedd nesaf | C10A |
| Oes gennych chi gynllun busnes ffurfiol ar gyfer busnes eich fferm? | C23A |
| Oes gennych chi gynllun busnes ffurfiol ar gyfer eich gweithgareddau arallgyfeirio? | C23B |
| Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw cynllun busnes? | C24 |
| Ydych chi'n ymwneud ag unrhyw gynlluniau cydweithiol neu gydweithredol gyda ffermwyr eraill? | C25A |
| Pa mor ddefnyddiol yw'r cynlluniau hynny i'ch busnes? | C25C |
| O ran eich fferm a'ch mentrau arallgyfeirio, pa mor ddefnyddiol yw'r canlynol o ran darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth: a) Rhwydweithiau ffermwyr (e.e. grŵp Agriscop a rhaglenni datblygu Cyswllt Ffermio) | C26A |
| O ran eich fferm a'ch mentrau arallgyfeirio, pa mor ddefnyddiol yw'r canlynol o ran darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth: b) Teulu a ffrindiau | C26B |
| O ran eich fferm a'ch mentrau arallgyfeirio, pa mor ddefnyddiol yw'r canlynol o ran darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth: c) Rhwydweithiau cwsmeriaid | C26C |
| O ran eich fferm a'ch mentrau arallgyfeirio, pa mor ddefnyddiol yw'r canlynol o ran darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth: d) Rhwydweithiau cyflenwyr | C26D |
| A ydych chi erioed wedi cael cyngor ynghylch mater busnes neu fater technegol? | C27 |
| Ai diben ceisio'r cyngor oedd eich helpu chi: i wneud gwelliannau busnes ar y fferm | C28I |
| Ydych chi (neu rywun arall ym musnes/aelwyd eich fferm) yn defnyddio cyfrifiadur at ddibenion busnes eich fferm? | C30 |
| Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw sgiliau cyfrifiadura/TG i ddyfodol eich busnes? | C31 |
| Ydych chi (neu rywun arall ym musnes/aelwyd eich fferm) wedi'ch cysylltu â'r Rhyngrwyd? | C32 |
| Ydych chi (neu rywun arall ym musnes/aelwyd eich fferm) yn defnyddio'r Rhyngrwyd at ddibenion y busnes? | C33 |
| Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw'r Band Eang i ddyfodol eich mentrau busnes? | C36 |